

ECO'R WYDDFA

Rhif 106

MEDI 1985

Pris 20c

LLWYDDIANT YN Y GENEDLAETHOL



Llongyfarchiadau i Meg Elis, Glanfa, Waunfawr ar y gamp yn ennill y Fedal Ryddiaith yn yr Eisteddfod. Dyddiadur yn olrhain profiad merch a aeth i Gomin Greenham a sicrhodd y Fedal iddi. Meg Elis yw is-olygydd y Faner.

Enillodd hefyd gystadleuaeth wedi ei seilio ar gyfres o erthyglau newyddiadurol.

Mae Meg wedi cyhoeddi tri llyfr arall sef y nofel 'I'r Gad', ddeng mlynedd yn ôl a 'Carchar' (1978).

Meg a'i mam, Mrs Mari Elis, Aberystwyth, yw cyd-awduron y gyfrol 'Eglwysi Cymru' a'i brawd Rolant Elis sy'n gyfrifol am luniau'r eglwysi yn y gyfrol.



O'r Waunfawr hefyd y daw lolo Huws Roberts, enillydd ar y soned. Roedd 27 wedi cystadlu ar y testun 'Clawdd Terfyn'. "Canodd ar ei destun â llygad bardd" meddai'r beirniad Vernon Jones, "a hynny'n ddiffuant a chynnil."



Enillydd y Rhuban Glas i offerynwyr dros 19 oed yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl oedd Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin, Deiniolen.

Disgwylid i'r wyth cystadleuydd chwarae dau ddarn cyferbyniol, ac 'roedd y perfformiad i fod yn ddim mwy na deuddeng munud.

Y ddau ddarn piano a ddewisodd Annette oedd 'Amrywiadau Abegg' gan Schumann, a 'Feux d'artifice' (Tôn Gwylt) gan Debussy.

Llongyfarchiadau hefyd i driawd Cynefin, sef Lynn Jones (Llanberis), Sian Gibson (Deiniolen) a Marina Bryn Roberts ar ddod yn drydydd yn y gystadleuaeth Cerdd Dant agored, ac i Rhian Owen, Llanberis ar ddod yn drydydd yn yr unawd Soprano dan 25 oed.

Rhai eraill o'r Waunfawr sy'n haeddu eu llongyfarch yw :-

Karen Roberts, Sŵn y Gwynt, ar ddod yn ail ar arlunio yn yr Eisteddfod.

Anthony Marston, Blaen y Nant, ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth offerynnau chwyth unigol o dan 19 oed.

Yn y gystadleuaeth Grŵp Offerynnol i Ysgolion Uwchradd, daeth Anthony a'i chwaer Joanna, ynghyd â brawd a chwaer arall o Rydypennau, Aberystwyth a Sioned Rowlands, yn gyntaf yn chwarae gwaith Mozart.

Enillodd Mr R. Gwynn Davies, Bryn Eithin ar y Limerig yng nghystadlaethau'r dydd yn y Babell Lân a bu Mrs Alma Jones, Tan y Fron yn actio yn nrama 'Troi a Throsi yn Theatr y Coliseum yn y Rhyl wythnos yr Eisteddfod. Trosiad gan y Dr J. Gwilym Jones o'r ddrama 'Round and Round the Garden' a berfformiwyd.

PLYGU ECO HYDREF

Yn Festri
Capel Coch
Llanberis

Nos Iau, Hydref 3
am 7.30

EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Cofiwch y dyddiad
dydd Sadwrn

HYDREF 12

Cynhyrchion
llenyddol i law Twrog
Jones, 23
Glanffynnon, Llanrug
erbyn
MEDI 22

HWYL, TONY A CHROESO AMRANWEN



Y mis hwn ffarweliwn â Tony Elliot fel golygydd newyddion pentrefi, ar ôl gweithio gyda'r 'Eco' er misoedd babanod y papur. Diolch yn fawr iddo am ei gyfraniad gwerthfawr i'r 'Eco' dros y blyneddau a manteisiwn ar y cyfle i ddymuno'n dda iddo yn ei swydd newydd yn y Coleg Normal, Bangor.

Amranwen Lynch o Benisarwaun fydd yn "hel clecs" y pentrefi o hyn ymlaen, ac apeliwn ar i'r gohebwyd fod yr un mor brydlon eu newyddion iddi hithau hefyd. Ein dymuniadau gorau iddi hithau hefyd yn ei swydd newydd gyda'r 'Eco'.

"ARIAN BYW" - YR YMATEB YN LLEOL



Lori 'Arian Byw' ar Faes y Steddfod.

Dydd Sul olaf Steddfod y Rhyl cafwyd ymateb rhagorol drwy'r wlad i Gronfa Arian Byw. Yn yr Aelwyd yng Nghaernarfon bu'r ddau deliffon yn canu'n ddi-baid rhwng 8 y bore a hanner nos. Erbyn nos Lun dywedodd Mr Elfed Roberts, Llanrug (Trefnydd Eisteddfod yr Urdd yn y Gogledd) fod addewidion o £20,700 wedi dod drwy Swyddfa Caernarfon yn unig.

Cafwyd plant yn cynnig eu harian poced o 75c, ynghyd ag addewid anrhydeddus iawn am £500 gan berson o Lanberis.

Bu 13 o wirfoddolion yn gweithio'n ddiwyd yng Nghaernarfon, a hyfryd yw gallu dweud fod 11 ohonynt yn byw ym Mro'r Eco.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 106
MEDI 1985**

*Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon*

*Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru*

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDD NEWYDDION

CYFFREDINOL: Twrog Jones, 23

Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU: Dafydd

Whiteside Tomas, Bron y Nant,

Pontrhythallt, Llanrug (C'fon 3515)

GOLYGYDD NEWYDDION:

Amranwen Lynch, Gwyddfor,

Penisarwaun (Llanberis 870575).

TREFNYDD NEWYDDION

YSGOLION: Iwan Lloyd Williams,

Bryn Idris, Llanberis (870515)

DYDDIADUR Y MIS: Mrs. Jane

Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Pen y Bont,

Ffordd Capel Coch, Llanberis.

(871561)

FFOTOGRAFFYDD: Gwyndaf Jones,

60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669).

Gwyndaf Hughes, 20 Glanffynnon,

Llanrug (C'fon 77163).

Islwyn L. Jones, Y Garn, Bryn

Moelyn, Llanrug. (C'fon 5874)

TREFNYDD HYSBYSEBION: John

Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug

(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT: Arwyn

Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,

Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL: Goronwy

Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos,

Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar,

Llanrug. (C'fon. 4778)

GOHEBWYR PENTREFI: Dyma'r bobl

i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran

(Portdinorwic 670726).

BRYNREFAIL: D.G. Ellis, Gweledfa

(Llanberis 871223)

CEUNANT: Ifan Parry, Morwel,

(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,

Glarafon (Llanberis 872275)

DEINIOL: W.O. Williams 6 Rhyd

fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: O.R. Williams, 2 Bro

Elidir (Llanberis 870671)

LLANBERIS: Mrs Jane Roberts, 'Rallt

Isaf, 3 Pen y Bont, Ffordd Capel Coch,

Llanberis (871561)

LLANRUG: Mrs Eirlys Pierce,

Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

NANT PERIS: Mrs J.E. Elis, 8

Glanrafon, Nant Peris. (Llanberis

870 733).

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, 9

Sycharth, (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Megan

Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed

(Llanberis 870030)

WAUNFAWR: Mrs G. Jones, Rhandir

Mwyn (Waunfawr 626)

TREFNYDD PLYGU: Edward Elias, 21

Glanffynnon, Llanrug (C'fon 3719)

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
HYDREF 3

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
**NOS FAWRTH
MEDI 24**
os gwelwch yn dda

LLYTHYRAU

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

Annwyl Olygydd,

Hysbyswn ddarlennwyr Eco'r Wyddfa fod rhaglenni'r Gymdeithas, sy'n cynnwys manylion am ein Dosbarthiadau am ytmor 1985-6, yn awrargael yn y Llyfrgelloedd a'r Canolfannau, a chan Ysgrifenyddion lleol ein Dosbarthiadau.

Hoffwn apelio'n daer unwaith eto am gefnogaeth i'n cyrsiau, er mwyn i ni allu parhau i gynnal ein darpariaeth ar eich cyfer. Felly, chwi ffyddloniaid y W.E.A. ewch ati o ddifrif, os gwelwch yn dda, i genhadu yn lleol, er mwyn denu rhai o'r newydd i ymddiddori yn ein gwaith. Trist iawn yw gorfod terfynu Dosbarth oherwydd nad yw nifer yr aelodau yn cyrraedd yr isafrif angenrheidiol.

Cofiw'n hefyd nad yw rhaglenni sy'n hel llwch ar gownteri yma ac acw yn ateb y diben. Rhaid yw eu cael i ddwylo cynifer o bobl ag sy'n bosibl. Fe fyddwn, felly, yn ddiolchgar dros ben i bawb a all ein helpu i ledaenu gwybodaeth am ein cyrsiau.

Os am unrhyw wybodaeth bellach, cysylltwch â mi

Ifor Baines

Athro-Drefnydd

Ffôn: Penygroes 881328

CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

DAU GYFARFOD PWYSIG

Cangen Llŷn ac Eifionydd

Cyfarfod Arbennig i ddathlu

Canmlwyddiant geni

BOB OWEN, CROESOR,

yn Ysgol Eifion Wyn,

Porthmadog

brynhawn Sadwrn, Medi 28,

1985

am 2.00 p.m.

Siaradwyr - Mr Ifor Owen, Mr

Dyfed Evans a'r Parch Robin

Williams

CANGEN CYLCH

CAERNARFON

Darlith ar y testun -

'Maes Bosworth mewn

Llenyddiaeth'

gan

Mr DAFYDD GLYN JONES,

Bangor

yn y Llyfrgell, Caernarfon, nos

Wener,

Hydref 4, am 7.00 p.m.

Estynnir croeso cynnes

i bawb i'r ddau gyfarfod

SWYDD MEWN TÎM CENHADOL

Annwyl Olygydd,

Carwn ychydig ofod yn eich papur i dynnu sylw eich darlennwyr at Swydd Newydd a drefnir gan Fwrdd Cenhadol Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

Ceisiwn berson addas i Dîm Cenhadol fydd ar gael i gynorthwyo ein heglwys i ddatblygu Cenhadaeth a thystiolaeth Gristnogol o fewn eu Cymuned. Apwyntiwyd un person eisoes i'r Tîm.

Edrychwn am berson o ffydd Cristnogol sicr, ac ymroddiad

pendant yn gallu cyfathrebu'n rhwydd gyda phobl mewn Cymraeg a Saesneg. Nid yn unig bydd y person a apwyntir yn aelod o Dîm teithiol, ond, bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gweithwyr eraill a gyflogir gan Fwrdd y Genhadaeth.

Ceir manylion oddi wrthyf i yn y Swyddfa a nodir isod.

Gyda diolch,

Yn gywir,

D. Andrew Jones,

Ysgrifennydd Bwrdd

y Genhadaeth,

Bwrdd y Genhadaeth,

53 Richmond Road,

Caerdydd CF2 3UP

LLYTHYR AT YR EGLWYSI YNG NGHYMRU

Annwyl Gyfeillion,

Nid peth dieithr i chwi ydyw derbyn llythyr oddi wrth eich arweinwyr enwadol, neu oddi wrth gymdeithasau sy'n apelio am arian.

Y mae derbyn llythyr am eich FFYDD ac am eich amgyffred o feddwl Crist yn beth mwy dieithr.

Llythyr felly ydyw hwn, — a daw atoch oddi wrth GYMDEITHAS Y GYMOD, — cymdeithas o Gristnogion o wahanol enwadau ac o wahanol wledydd, a ffurfiwyd ar sail yr argyhoeddiad fod y Cymod yng Nghrist lesu yn berthnasol i'n byd treisgar ni. Fe'n hargyhoeddwyd fod dilynwyd Crist yn cael eu galw i fyw'n gymodlawn ym mhob sefyllfa ac nad yw rhyfel yn eithriad i hyn. Yn wir, ymdeimlwn â chyfrifoldeb arbennig i dystio i ffordd cariad a chymod Crist wyneb yn wyneb â rhyfel a'i baratoadau yn eu holl ffurfiau.

Fe sylweddolwn nad yw pob Cristion wedi dod i'r amgyffred hwn o feddwl Crist. Mae'n bosibl bod rhai hefyd heb feddwl yn ddwfn am y mater, ac eraill wedi deall yr Efengyl yn wahanol i ni.

Yn ostyngedig, fodd bynnag, fe gareu eich gwahodd — yn aelodau unigol ac yn gynulleidfau — i ystyried yn weddigar, yng ngholeuni'r Gair, pa un a yw Efengyl Crist yn gofyn i ni ymwrthod yn llwyr â phob trais a rhyfel.

Byddem yn ddiolchgar iawn petaech mor garedig â rhannu â ni, — a hynny mewn llythyr — eich ymateb i'r un cwestiwn hwn, sydd yn ein barn ni, yn un canolog mewn oes mor dreisgar.

Petaech chi yn dymuno hynny, fe fyddai'n dda gennym drefnu i un o'n plith ddod atoch i siarad ac i rannu gyda chi ein dealltwriaeth ni o Ffordd y Cymod.

Yr eiddoch yng nghariad Crist, ar ran Cymdeithas Y CYMOD, (Parchg.) Islwyn Lake Machynlleth.

Danfoner eich llythyrau, os gwelwch yn dda, at yr Ysgrifennydd:

Nia Rhosier,

14 Kenilworth House,

Heol y Porth,

Caerdydd.

CYNGHRAIR CENEDLAETHOL O IS-BOSTFEISTRI CANGEN MÔN AC ARFON

Annwyl olygydd,

Bydd pwyllgor gwaith y gangen uchod yn cynnal cyfarfod i'r wasg yng ngwesty'r Anglesey Arms, Porthaethwy, nos Fawrth Medii 10 am 7.30.

Cynhelir y cyfarfod oherwydd cryn bryder ynglŷn â dyfodol yr Is-swyddfeydd Post yn wyneb y cymhelliad diweddaraf i bensiynwyr i ganiatáu eu pensiwn gael ei dalu yn syth i'r Banc.

Mae'r sustem a elwir yn A.C.T. yn cael ei adnewyddu er gwaetha methiant yr ymdrech ddiwethaf, a'r ffaith fod yr Is-bostfeistri wedi llwyddo i sicrhau tâl i bob pensiynwr yn ystod y 12 mis bu'r DHSS ar streic.

Gwahoddir y wasg a bwriedir gwahodd y pedwar A.S. i'r cyfarfod.

Yn gywir iawn,

Enid Mummery (Ysg.),

Swyddfa'r Post,

Niwbwrch,

Ynys Môn.

RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£10.00: Clwb y Graig, Cwm-y-glo

£5.00: "Er cof am dad a mam

annwyl, sef Mr a Mrs W.T. Jones,

Clwt-y-bont" — eu merch, Dorothy

May, Caernarfon.

Di-enw, Deiniolen

Elaine a Rodney Jones, Stevenage

Mrs Alice Hughes, Hafan,

Llanberis

Di-enw Llanberis

£3.00: Mrs Annie Jones, 5 Maes

Eilian, Dinorwig

£2.00: Mrs Jennie Jones a Stanley

Jones a'r teulu, Buarth Newydd,

Dinorwig

Mr a Mrs D. Jones, Bron Myfyr,

Dinorwig

Miss Gwyneth Elizabeth Jones, 10

Bro Elidir, Dinorwig

Mrs Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian,

Dinorwig

Margaret ac Ellis Wyn, 6 Ffordd

Deiniol, Deiniolen

Mrs Margaret Roberts, Is-y-bryn,

Tai Trefor, Tan-y-coed

Hefin Jones, 37 Glanffynnon,

Llanrug

£1.00: Mrs M.J. Roberts, Llys y

Gwynt, Penisarwaun

Mrs Betty Jones, Tan y Buarth

Uchaf, Dinorwig.

WELDIO OFFER FFERM

A PHEIRIANNAU

DIWYDIANNOL

GWNEUD GIATIAU,

FFENSYS AC ATI

AR GYFER Y CARTREF

ATGYWEIRIO TAI

GWAIR

E. PUGH

WELDING &

FABRICATING

32 GLANFFYNNON

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 5394

LLOND BOL O CHWERTHIN YN Y GLAW

Heb os, cefais dywydd delfrydol i ddarllen yn ystod gwyliau'r haf. Tywydd codi'r felan - gwynt, glaw ac ias gaeaf cynnar. Yn ystod un o'r prynhawniau anhygoel o dymhestlog yma galwodd un o'm cymdogion, John Ellis Williams, Allt Riwth, Penisarwaun, draw i gyflwyno ei lyfr diweddaraf imi - *Straeon Cyfar Main*. Cofiais imi ddarllen rhai o *Straeon Cyfar Main* yn 'Eco'r Wyddfa' beth amser yn ôl a chael blas arnynt a chytunodd John fod hyn wedi bod yn faes profi da gan iddo dderbyn adwaith darllenwyr ymhen wythnos neu ddwy i'w cyhoeddi. Yn wir, un o'i gyfoedion, y Cynghorydd Dafydd Orwig, Braichmelyn, a bwysodd arno i'w cyhoeddi fel cyfrol ar ôl iddo eu darllen, fel finnau, yn yr Eco.

Straeon byrion hir ydynt, wedi eu lleoli yn Llanddeiniolen, gyda'r prif gymeriadau wedi eu magu o fewn taflad carreg i'r Cyfar Main, sef clwstwr o goed wrth dŷ'r awdur yn y Gors, Penisarwaun. Dywedir i'r clystrau coed yma a sawl clwster arall yn y plwyf, gael eu codi fel man lloches i fagu ffesantod. Nid ffug mo'r cymeriadau ond rhai o drigolion Penisarwaun a'r cylch a gyfoesai â John Ellis Williams, ac ef yw'r unig un ar ôl o'r "criw" i gronico'r digwyddiadau. Meddai John: "Does dim sarhad ar neb yn y storïau hyn, nid dyna oedd fy mwriad - gwnaf gymaint o hwyl am ben fy hun." A sôn am hwyl, a sôn am gymeriadau.

Arwr mawr y straeon yw Tomos Edwards neu Twm Edwat, Plas Coch - hen forwr canol oed a oedd yn drefnydd pawb a phopeth, "yn orael lleol, ac yn dueddol o gymryd bywydau ei gymdogion mewn llaw a'u llywio." Dim rhyfedd, felly, i Twm Edwat gael ei benodi (neu ei benodi ei hun) yn "gomandar" platŵn yr Home Guard yn ei fro ac yn gyfrifol am laslanciau direidus ddiniwed fel Elfed Tŷ Gwyn a John El (yr awdur ei hun). Mae hanes eu hymosodiadau ffug ar Bost Penisarwaun a Twil Caernarfon ymhlith y pethau doniolaf imi erioed eu darllen, ac nid gormodiaith ar fy rhan yw dweud imi orfod rhoi'r llyfr i lawr sawl gwaith fel y cawn ddarlunio'r digwyddiadau anhygoel ond credadwy serch hynny yn fy meddwl. Sychu'r dagrau a oedd yn powlio erbyn hyn i lawr fy ngruddiau fel y glaw ar y ffenestr ac ymlaen i ddilyn hynt a helyntion y tri arwr. Nid yw gofod yn caniatáu imi ymhelaethu ond eled pawb ati i brynu'r llyfr a'i ddarllen - bargaen heb os am £2.60 - Cyhoeddiadau Mei, a gallaf eich sicrhau na chewch mo'ch siomi.



Yr awdur - John Ellis Williams.

Mae straeon sy'n berthnasol i'r straeon a gynhwysir yn y llyfr ar fin cael eu darlledu yn Saesneg ar y radio gan yr actor Meredydd Edwards ar Radio Wales. Rhaid nodi hefyd fod y Cyngor Llyfrau eisoes wedi cymeradwyo'r storïau i'r BBC fel deunydd i wneud cyfres o gomediau - felly Gwenlyn Parry fel hogyn o'r fro draw yng Nghaerdydd - beth amdani? "Mae straeon gwirioneddol ddigon yn brin yn Gymraeg," meddai Dafydd Orwig yn ei ragymadrodd ac â ymlaen i restru Storïau Henllys Fawr, Straeon Wil, Ifas y Tryc, Gwrachod Pawb ac Arch Noa fel ei ragoriaethau personol. "Bellach," meddai, "mae Straeon Cyfar Main yn llamu i'r rheng flaen." Tipyn o ddweud, tipyn o ganmoliaeth - ac mae'n rhaid i minnau, erbyn hyn, gytuno ag o!

Arwel Jones
Pant Hywel
Penisarwaun

GALW'R 'NESA I ADRODD' ...

Sawl pwyllgor adrodd mewn eisteddfodau ar hyd a lled Cymru sydd wedi diolch o waelod calon am gyfraniad Selwyn Griffith pan ddaw hi'n fater o ddewis darnau adrodd ar gyfer plant? Bellach mae 'Llwyfan y Plant', 'Ail Lwyfan y Plant', 'Dewch i Adrodd', 'Dewch i Adrodd Eto' a 'C'narfon a Cherddi Eraill' oll wedi ennill eu plwyf yn y byd eisteddfodol ac wedi'u bodio'n bur dda gan gannoedd o blant a'u hyfforddwyr am dros chwarter canrif. Arwydd o'u poblogrwydd yw'r ffaith fod 'Dewch i Adrodd' a 'Dewch i Adrodd Eto' wedi eu hail argraffu droeon. Yn y dyfodol agos, ail gyhoeddir 'Llwyfan y Plant' ac

'Ail Lwyfan y Plant' fel un gyfrol.

Yn sicr, bydd croeso mawr gan bawb sydd â diddordeb mewn clywed plant yn adrodd i chweched cyfrol Selwyn sef 'Nesa i Adrodd'. Mae'n cynnwys 47 o ddarnau adrodd a chyd-adrodd i blant rhwng 4 a 12 oed ac fel arfer, mae digon o amrywiaeth ar eu cyfer. Rhwng ei chwech cyfrol mae Selwyn Griffith yn cynnig tua 300 o ddarnau adrodd i blant.

Cyhoeddir 'Nesa i Adrodd' gan Wasg Pantycelyn Caernarfon a phris y gyfrol yw £1.00. Gellir cael copïau os dymunir gan yr awdur o 'Crud yr Awen', Bethel.

YMCHWIL Y GALON

Dymuna pwyllgor Caernarfon a'r cylch o Apêl Ymchwil y Galon ddiolch i'r casglwyr a thrigolion bro Eco'r Wyddfa am eu cyfraniad hael at yr achos teilwng hwn:

Deiniolen: £18.35; Llanberis: £106.40; Waunfawr: £104.29; Penisarwaun: £21.55; Brynrefail: £23.44; Cwm-y-glo: £19.23; Pontrug:

£8.40; Llanrug: £123.54.

Y cyfanswm a gasglwyd gan gangen Caernarfon a'r cylch oedd £1,068.39.

Hefyd yn ystod Mehefin derbyniwyd siec o £282.20 gan 'Foxtrot Delta' CB.

Derbyniwyd hefyd trwy law Mrs B. Hughes, Llanberis £168 - elw bingo a gynhaliwyd yng Ngwesty Gwynedd. Diolch i bawb am ein cefnogi.

I gefnogi ymgyrch genedlaethol

CURIAD CALON CYMRU

Cynhelir dosbarthiadau

'GOFALU AM EICH IECHYD'

yng Nghanolfan, Llanberis ar fore Llun

Medi 30 hyd Rhagfyr 2

o 9.30-11.30 o'r gloch

Pris £5 am y 10 sesiwn

Am ragor o wybodaeth cysylltwch

â Ceri Pierce, Ymwelydd Iechyd

Clinic Llanberis. Ffôn: 870291

Mae mwy o ddewis nag erioed gan

JOHN A ROBERTA

GRIFFITH

Y STORFA

SGWÂR LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2790

Dewis hael o fwydydd, llysiau a diodydd

Hefyd, dewis helaeth o wlân Sirdar, patrymau ar gyfer pawb a gweill Aero.

Archebwch eich teganau at y Nadolig


Hefyd Beiciau BMX

Agored 7.30 bob bore hyd 6 o'r gloch

Agored tan 8.00 nos Wener 9.30-12.30 ddydd Sul

Archebwch eich neges ar y ffôn fe'i cewch wrth y drws

AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...



BWSIAU ARFON

LLANRUG

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175
neu Bangor 51981

LLANBERIS

Gohebydd: Mrs Jane Roberts, 'Rallt Isaf, Ffordd Capel Coch, (Llanberis 871561)

Y CARNIFAL: Llongyfarchiadau i Bwyllgor y Carnifal. Ffrwyth llafur caled a diflino yr aelodau a sicrhodd lwyddiant ysgubol y carnifal eleni eto.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd mewn unrhyw fodd ac am bob cefnogaeth. Dyma'r canlyniadau:

Gwisg Ffansi: Dan 3 oed: 1. Clown, Claudette Fleming, 2. Noddy, Mark Evans. **3-5, Cymeriad adnabyddus:** 1. Humpty Dumpty, Sarah Ann Jones, 2. Puss in Boots, Rheon Roberts. **3-5, Gwisg hysbysebu:** 1. Never Forget You're Welsh, Ian Ellis, 1. Gales Honey, Aled Jones.

6-7, Cymeriad adnabyddus: 1. Spot, Nia Pritchard, 2. Popeye, Jessica Jones. **6-7: Gwisg hysbysebu:** 1. Ski, Aled Hughes, 1. Whiskas, Victoria Walker. **8-9, Cymeriad adnabyddus:** 1. Wil Cwac Cwac, Elin Roberts, 2. Russ Abbott, Gerallt Williams. **8-9: Gwisg hysbysebu:** 1. Gwely a Brecwast, Jason Bayliss, 2. Ever Ready, Sam Williams. **10-12:** 1. Doliau Papur, Sharon Wyn Roberts a Bethan Jones, 2. Syr Llywelyn, Mark Ellis. **13-16:** 1. Priodfab-ferch, Kerry Stott, 2. Alien, Chris Hughes. Cymeriad unigol gorau: 1. Gwely a Brecwast, Jason Bayliss. **Dros 16:** 1. Bwgan Brain, Janet Vaughan, 2. Morleidr, Gareth Jones.

Agored dan 9: 1. Hi Di Hi, Bethan Parry, 2. Mummy, James Stott. **Agored 10-16:** 1. Hi Di Hi (Ted Bovis), Jonathan Parry.

Tablo ar olwynion: 1. Maes Padarn, 2. Midland Bank. **Grŵp ar droed:** 1. Llanberis Garden Festival. **Pâr digri:** 1. Jini Me a Gwely a Brecwast, Dylan Williams a Jason Bayliss.

Pram wedi ei addurno: 1. Reject Puffins, John Tolley. **Beic wedi ei addurno:** 1. Wendy Rowlands, 2. Kate Geary a Jane Pontin.

Brenhines: 1. White Slipper Caernarfon. **Car Brenhines:** 1. Pwllheli.

Senior Majorettes: 1. Bangor Breakaways. **Junior Majorettes:** 1. Clwydian Royals. **Tiny Majorettes:** 1. Deiniolen Tinies. **Jazz Band:** 1. Rhos Royals. **Best on parade:** 1. Castle Crusaders.

Raffi Fawr: £50, D. Eaton, Gwynt y Mynydd, Tancoed, Llanrug. £30, T.J. Williams, Penfro, Llanrug. £20: John Hughes, CEBG. £10, Bill Davies, Dŵr Cymru, Bangor. Petrol gwerth £10: L. Moses, 28 Lôn y Bryn, Menai Bridge. Chwisgi: Andrea, 20 Goodman Street, Llanberis. Gin, W. Roberts, Hyfrydle, Capel Coch Road, Llanberis. Glo: Jean Roberts, 6 Bryn Eglwys, Penisarwaun. Gwin: M. Pritchard, 1 Padarn Road, Llanberis. Llyfr: Alwyn Williams, 1 Ffridd Terrace, Rhosgadfan. £3: E. Lovell, 12 Maeshyfryd, Caernarfon. Daliwr planhigion: B. Wakeham Llanberis.

Mabolgampau: Rhedeg, 2-3 oed: 1. Martin J. Willis, 2. Lee Lloyd Hughes. **Dosbarth Meithrin, Ysgol Dolbadarn, genethod:** 1. Janet Ffoulkes, 2. Lesley Sage. **Dosbarth Meithrin, Ysgol Dolbadarn, bechgyn:** 1. Adam Rudkin, 2. Emrys Daniel Roberts.

Dosbarth 1 Dolbadarn, genethod: 1. Sarah Jones, 2. Tasha Allsup, **Bechgyn:** 1. Mark Davies, 2. Ian Ellis. **Dosbarth 2,**

Dolbadarn, genethod: 1. Nicole Lloyd Hughes, 2. Elinor Gray-Williams. **Bechgyn:** 1. Llifon Wyn Owen, 2. Iwan Harding.

Dosbarth 3, Dolbadarn, genethod: 1. Manon Roberts, 2. Jennifer Owen. **Bechgyn:** 1. Euron Wyn Davies, 2. Gavin Stewart Carr. **Safon 1, Dolbadarn, genethod:** 1. Sandra Nisbett, 2. Awen, Elaine Bee. **Bechgyn:** 1. Hugh O'Donnell, 2. Colin Ellis.

Safon 2, Dolbadarn, genethod: 1. Catherine Walker, 2. Elin Roberts. **Bechgyn:** 1. Iestyn Pritchard, 2. Arwyn Hughes.

Safon 3, Dolbadarn, genethod: 1. Llinos Wyn Jones, 2. Carys Wyn Owen. **Bechgyn:** 1. Shane Price, 2. Ian Lloyd Hughes.

Safon 4, Dolbadarn, genethod: 1. Linda Prydderch, 2. Anette Sellers. **Bechgyn:** 1. Cai Williams, 2. Gerallt Prydderch. **Dosbarth 1, Brynrefail, genethod:** 1. Jennifer Clarida, 2. Lynne Jones. **Bechgyn:** 1. Mark Williams, 2. Stacy Turner.

Dosbarth 2, Brynrefail, genethod: 1. Wendy Rowlands, 2. Maria Willis. **Bechgyn:** 1. Robert Gray Williams, 2. Andrew Owen. **Rhwng 13-14, genethod:** 1. Nia Thomas, 2. Wendy Rowlands. **Rhwng 13-14 bechgyn:** 1. Dylan Thomas, 2. Andrew Griffiths. **Ras agored:** 1. Gareth Williams, 2. Terry Saynor.

Ras drithroed, Dolbadarn, genethod: 1. Glenda Jones a Catherine Williams, 2. Michelle Carr a Michelle Willis. **Bechgyn:** 1. Tristan Rees a Cai Williams, 2. Kevin Edwards ac Edward Rodgers.

Ras drithroed, Brynrefail, genethod: 1. Nia Thomas a Wendy Rowlands, 2. Diane Jones a Nia Owen. **Bechgyn:** 1. Paul Roberts a Jason Roberts, 2. Andrew Owen a Barry John. **Ras drithroed agored merched:** 1. Menai a Petula, 2. Anette a Mair.

Ras tim o bedwar, Dolbadarn, genethod: 1. Lisa Jones, Glenda Jones, Lynne Davies a Catherine Gray Williams. **Bechgyn:** 1. Cai Williams, Ian Lloyd Hughes, Geraint Prydderch a Tristan Rees.

Ras tim o bedwar, Brynrefail, genethod: 1. Jennifer Clarida, Nia Owen, Diane Jones a Nia Thomas. **Bechgyn:** 1. Elfyn Roberts, Terry Saynor, Gareth Williams ac Ian Evans.

Ras araf beic, Dolbadarn, genethod: 1. Linda Prydderch, **Bechgyn:** 1. Llifon Ffoulkes, **Brynrefail, genethod:** 1. Delyth Williams. **Bechgyn:** 1. Darren Ellis.

Ras beic cyflym, agored, genethod: 1. Linda Prydderch, **Bechgyn:** 1. Brian Glass.


Ras rwystrau, Dolbadarn, genethod: 1. Linda Prydderch, **Bechgyn:** 1. Bruce Turner, Brynrefail. **genethod:** 1. Andrea Roberts.

Ras filltir: 1. Paul Prydderch, 2. Linda Prydderch.

NEWID AELWYD: Dyna yw hanes Mr John Lloyd a'i wraig Muriel, 32 Stryd Fawr, sy erbyn hyn wedi mudo i gyffiniau Pwllheli i fyw. Ein dymuniadau gorau ichi'ch dau.

Bu Mr Lloyd yn gymorth mawr i'r Cwmni Drama, yn gwneud a chodi setiau ers tair blynedd, a mawr fydd ei gollod gan y cwmni.

Cyflwynwyd cloc llechen fel arwydd o'u gwerthfawrogiad i Mr Lloyd gan y cwmni. Diolch yn fawr Yncl John.



CAPEL JERUSALEM AWST 1985

Gwedd newydd yn dilyn gwaith y dynion o'r Gwasanaeth Cymdeithasol o dan y rheolwr Mr Geraint Summers. Fe fydd y Parch Gwynfor Williams, BEM, JP, yn cychwyn ar ei waith fel gweinidog ar yr eglwys ar ddydd cyntaf Hydref.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Mehefin 6 mwynhawyd trip dirgel i Ben Llŷn, gan ymweld â'r Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog ac yna ymlaen i Dingl, Dinas Dinlle. Cafwyd croeso a bwyd ardderchog. Trefnwyd y noson gan Mrs Nan Owen a Mrs Mair Jones, diolchwyd iddynt gan Mrs Hannah Jones.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn Angorfa gyda Mrs Hannah Jones yn llywyddu. Ein gŵr gwadd oedd Mr Islwyn Jones, prifathro Bethel. Cafwyd sgwrs am yr amgueddfa yn Angorfa, cartref T. Rowland Hughes. Diolchwyd iddo a'r gwestwagedd gan Mrs Katie Morris a Mrs Katie Williams. Y gwestwagedd oedd Mrs Jan Davies, Mrs Dilys Phillips a Mrs Ethel Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs Mary Jackson. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 26.

Y CYLCH MEITHRIN: Bu plant y Cylch Meithrin ar amryw o dripiu ddiwedd y tymor diwethaf.

Y cyntaf oedd i Waunfawr i wrando ar storïau am Sali Mali a Mabon gan Theatr Crwban. Yr ail oedd drwy garedigrwydd cwmni Rheilffordd Llyn Padarn yn rhoi trip iddynt ar y trên bach. Roedd y plant i gyd wedi mwynhau eu hunain.

Y trydydd oedd y trip blynyddol yr ysgol. Aethant i weld Fferm yn Llanystumdwy lle roedd bob math o anifeiliaid dof.

Erbyn hyn mae'r holl arian a noddwyd pan redodd Mr Dennis Carr yn y Marathon yn Llundain wedi dod i law. Casglwyd y swm o £217.45. Diolch yn fawr i bawb.

APÊL TEGANAU: Erbyn hyn mae ôl trael ar y teganau sydd yn y clinic. Os oes gennych deganau sy bellach ddim yn cael eu defnyddio buasai'r clinic yn falch iawn o'u derbyn. Cofiwch, peidiwch a'u taflu o'r neilltu.

LLWYDDIANT CERDDOROL: Llongyfarchiadau i Cheryl Edwards,

Eldon House, a fu'n llwyddiannus iawn yn ei harholiad ysgrifenedig Gradd 5. Llwyddodd Cheryl i gael 91 o farciau allan o uchafswm o 99. Da iawn hi. Disgybl yw hi i Mrs L. Griffiths, Dolafon, Llanberis.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr a Mrs Alun T. Jones gynt o 38 Stryd Fawr ac yn awr o Stevenage, yn dathlu eu priodas euraidd ar Awst 21. Dymuniadau gorau oddi wrth Elaine, Rodney a'r teulu.

LLONGYFARCHIADAU: i Adrian Vaughan Williams, mab hynaf Mr a Mrs Dennis Williams, 23 Stryd Fawr ar basio'r arholiad HNC yng ngholeg Technegol Bangor. Mae Adrian yn gweithio fel rheolwr ansawdd (quality controller) yn Dennis Ferranti, Bangor.

LLONGYFARCHIADAU i Eleri Tudor Ellis, merch Mr a Mrs Dewi Tudor Ellis, 12 Rhes y Cae ar ennill BAGydag anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Aberystwyth.

Dymuna Eleri ddiolch i bawb am y llw cardiau a'r rhoddion a dderbyniodd.

LLONGYFARCHIADAU: i Anne Wyn Jones, 27 Dôl Elidir a Kenneth Hughes, Caernarfon ar eu priodas.

— Graham Cheesman, Gadlys Cottages ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain ar Awst 21.

— I Mrs J. Thomas, 4 Stryd Turner ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Awst 12.

— I Alwyn a Christine ar eu priodas ar Orffennaf 27.

— I Amanda Parry ar ddathlu ei phen-blwydd yn 21ain ar Orffennaf 27.

— I Maldwyn Hughes, 1 Blaen Ddôl ar ddathlu ei ben-blwydd yn 21ain.

— I Keith Morris, 9 Rhes Fictoria ar ei ddyweddïad ag Yvonne Jones o Fangor.

— I Rhian Owen, Stryd Siarlot am ddod yn 3ydd yn yr Unawd Soprano yn Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl.

E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

Wavell Roberts CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO!

Yr ŵyn lleol mwyaf
blasus

Selsig cartref, cigoedd
parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI!

Busnes newydd ym
Mro'r Eco...

EMYR JONES

PLYMAR
PEIRIANNYDD
GWRESOGI

GWAITH
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon.
3513

LLANBERIS (Parhad)

— I Driawd y Cynefin (Siân Gibson o Ddeiniolen, Marina Bryn Roberts o Ddinorwig a Lynne Jones o Lanberis) am ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth Triawd Cerdd Dant yn y Rhyl.
— I Goronwy Owen, mab Mrs Enid Owen, 19 Ffordd Tŷ Du ar ennill gradd ym Mhrifysgol Durham.
— I blant yr ardal ar eu llwyddiant yn yr arholiadau.
— I Mona a Dylan Williams, 6 Rhes Fictoria ar enedigaeth merch fach — Sioned Haf.
— I Eirian a Bryan Williams, 19 Glanffynnon, Llanrug ar enedigaeth mab bach — Iwan Rhys.
— I Beryl a Now Lewis, Cilan ar ddod yn nain a thaid unwaith a dwywaith eto. I Sioned Haf ac Iwan Rhys.
— I Carys a Todd Fellows, sy'n byw yn Ne Cymru ar enedigaeth mab bychan — Daniel Lee, ŵyr bach arall i Delyth a Selyf Hughes.

O'R YSBYTY: Da yw deall fod rhai o'r pentrefwyr wedi dychwelyd gartref o'r ysbty. Dymunwn adferiad buan iddynt ac i'r rhai sy'n yr ysbty neu'n wael eu hiechyd gartref.

Hugh Peris Pritchard, Dinorwig House, Mrs Betty Parry, Glan y Don, Mr Gareth Jones, Llainwen Isaf, Mrs Mair Maconolly, Maes Derlwyn, Mrs Iola Owen, Stryd yr Wyddfa, Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan, Mrs Edward Jones, 5 Llainwen Isaf, Mrs Eirlys Griffiths, Bryn Eilian, Ffordd Tŷ Du, Mrs Williams, Baladeulyn, Stryd Newton.

Y SOREN LARSEN: Bu Dewi T. Ellis 12 Rhes y Cae, ar y llong hwyliu y Soren Larsen. Treuliodd bron i bythefnos yn hwylio o amgylch Cymru ac Iwerddon. Trefnwyd y daith i bobl abl ac anabl gan 'Mici Plwm'.

AR EU GWYLLIAU: Yn ystod mis Awst daeth Peter, mab Mr a Mrs W. Roberts, Rock Teras gartre am ysbaid o'r Llu Awyr, lle y mae'n cael llwyddiant mawr yn y gwaith.

Hefyd daeth ei gefnder, Darren, mab Mr a Mrs J. Roberts, Stryd Goodman gartre o Lundain lle y mae'n cael ei hyfforddi gyda'r Warchodlu Gymreig.

Roedd croeso mawr iawn i'r ddau.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn yn fawr iawn â theulu Nellie, merch Mr a Mrs Jones, Tyddyn Gadlas gynt, a fu farw yn Swydd Caint yn 61 mlwydd oed.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr Wyn Jones, Delfryn, Ffordd Capel Coch ar farwolaeth ei fam.

Ar Orffennaf 7 y bu farw Mr Arfon Jones, Rhostrehwfa, Ynys Môn. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i chwaer, Mrs Dorothy Williams, Manchester Row.

Yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 7 y bu farw Mrs Jennie Maxwell, Argoed, Stryd Warden yn 77 mlwydd oed wedi gwaeldd hir a blin. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i theulu.

Brawychwyd y pentref ddechrau wythnos y Carnifal gan farwolaeth sydyn dau o fechgyn mwyaf hoffus a gweithgar y pentref. Dau oedd yn fawr eu parch gan yr hen a'r ifanc yn ddiwahân.

Bu Farw Lal Jones, Cyncoed, Stryd Warden ar Orffennaf 15 yn 58 mlwydd oed, a'r dydd canlynol bu farw Ifan Wilson Hughes, Hafan, Rhes Olgra yn 65 mlwydd oed. Colled aruthrol i'w teuluoedd ac i'r pentref. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Heulwen a'r teulu ac ag Alice a'r teulu oll.

COLLEDION: Rai wythnosau'n ôl brawychwyd ardal Llanbêr pan fu farw dau o'i gwŷr ifanc yn eithriadol o sydyn ac anisgwyl. Wrth edrych yn ôl ychydig flynyddoedd sylweddolir fod yr ardal wedi ei cholledu a'i thlodi yn arw iawn drwy golli rhai o'i phobl

ifanc mwyaf poblogaidd, a pharchus — mwyaf gweithgar ac ymroddgar. Yn wir, rhai fu'n rhoddi o'u horiau hamdden i bwyllgora a threfnu, i ymgynghori a cheisio datrys problemau pobl eraill, a'r cyfan er lles ieuencid a thrigolion yr ardal a'r cylch.

Mae colli rhai o gymeriadau gorau'r cylch yn gadael gwacter aruthrol i gylch eang iawn ac wrth gwrs i'r teuluoedd a'r cyfeillion cyfagos. Carwn i ni gofio am yr unigolion yma y bu eu cyfraniadau yn eu maes eu hunain yn deilwng a gwerthfawr iawn — Dafydd Parry, Trevor, Robin (neu R.H.), Catherine Gillespie, Sian, John Rees, Lal ac Evan Wilson.

Diolch am eu gweithgarwch a'u cymeriadau hoffus, a pharchwn eu coffadwriaeth.

DIOLCH: Dymuna Mrs Alice Hughes, Ann, Heulwen a theulu'r diweddar Evan Wilson Hughes, Hafan, ddiolch o galon i'w cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad, cymorth a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad, taid a brawd annwyl. Diolch hefyd am y llu cardiau a rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at ymchwil y galon. Diolch yn arbennig i feddyg y teulu, y Parch Trefor Lewis a'r Parch Alun Hawkins am eu gwasanaeth a Mr Myrddin Pritchard am y trefniadau angladdol.

DIOLCH:

Dymuna teulu'r diweddar Mrs Jennie Maxwell, Argoed, Stryd Warden ddiolch o galon i ddoctoriaid a staff Ysbyty Gwynedd, i ddoctoriaid a staff y Syrgery, Llanberis, i'w gweinidog, i'r teulu, llu ffrindiau a'i chymdogion annwyl am eu gofal a'u ffyddlondeb.



LAL — DA, WAS DA

Wrth ymdrechgu i ateb cwestiwn am gyfeillgarwch dywed Voltaire, yr athronydd a bardd enwog o Ffrainc, "Ni all holl drysorau'r byd gymharu ag un ffrind da." Sioc o'r mwyaf oedd i mi, fel pawb arall, y newydd ar y ffôn, yn fuan fore Mawrth 16 Gorffennaf am Lal. 'Roeddwn wedi syfrdanu, a dweud y lleiaf — ai camgymeriad oedd? Ni fedrwn, am eiliad, dderbyn bod Lal Jones wedi ein gadael, ond yn anffodus gwirionedd oedd, a rhaid oedd derbyn y ffaith. I mi, fel un o'r tu allan i'r fro, Lal oedd "Mr Llanberis", ac ni allaf feddwl am funud bach y bydd gweithgareddau'r pentre yn mynd yn eu blaen hebddo.

Gwelais Lal, a'i wallt du disgrair a'r wên hapus, am y tro cyntaf mae'n siŵr, ar faes ffwtbol yr Oval, yng Nghaernarfon dros bymtheng mlynedd ar hugain yn ôl; Cesarea yn llwyddiannus dros un o dimau Dyffryn Nantlle os cofiaf yn iawn, yn rownd derfynol un o gwpanau Cynghrair Caernarfon.

Beth bynnag oedd y gwpan enillodd Lal y dydd hwnnw, enillodd hi sawl tro wedyn fel un a fu'n gweinyddu tîm ffwtbol Llanberis. Gofynnaf — a fu yn y Sir, yn wir, yng Nghymru gyfan, un mor llwyddiannus â Lal ym myd gweinyddol pêl-droed? Naddo 'rwy'n siŵr.

Gwrandewais ar y deyrnged yn y gwasanaeth 'pnawn braf Gwener, 19 Gorffennaf — sawl deigrin oedd ymhlith y cannoedd? Capel Coch dan ei sang, ond ychydig oriau ar ôl y gwasanaeth tebyg i Ifan Wilson druan, cyfaill annwyl Lal a fu farw ond ychydig oriau ar ei ôl. Tydi natur a bywyd yn beth anodd ac yn rhyfedd eu deall? Gwasanaeth oedd yng Nghapel Coch nid i ffarfelio â Lal, ond i ddweud "da bo, hen ffrind". "Da bo" hyd nês cawn gwrdd eto gyda'n gilydd.

Gallwn adrodd degau o storïau a hanesion amdano, ond nid oes lle i hynny yma — geiriau yn unig i gofio'r cyfaill mynwesol a hoffus, cymwynasgar a diffuant. 'Roedd yn bopeth sy'n dda mewn bywyd — tu hwnt o hynaws, caredig, llawn boneddigeiddrwydd; nid oedd neb yn gallu bod yn drist yn ei gwmni. Mawr oedd ei gyfeillgarwch a'i garedigrwydd tuag ataf tra 'roeddwn hefo tîm Llanber — dyddiau hapus tros ben a rhai bythgofiadwy; nid yw un yn anghofio cyfeillion o'r fath. Cefais anrheg gan Lal a Phwyllgor y Carnifal, 'chydig flynyddoedd yn ôl erbyn hyn, pan oeddwn yn reffari yn y "gemau giamocs": siwmpwr â'r sgrifen arni "Clwb Pêl-droed Llanberis". Byddaf yn ei gwisgo'n amal iawn — mwy pleserus fyth fydd imi ei gwisgo o hyn allan.

Yn wir, mae colled i'r ardal a'r fro, mae colled i'w ffrindiau a'i gyfeillion ond bydd y golled fwy, wrth gwrs, fel y datganwyd eisoes, i'w deulu ac yn enwedig i Heulwen ei briod annwyl — nerth a bendith mawr iddi.

Ysgrifennodd yr emynydd enwog, Ieuan Glan Geirionydd y geiriau hyn gan mlynedd a hanner yn ôl:

Paham yr wylwn am y rhai
Sydd wedi cyrraedd fry, heb fraw,
Yn rhydd o bob rhyw boen a bai?
Maent eto'n fyw, yr ochor draw.

A phan gyrhaeddodd Salem fry,
A heidd gynteddu'r nef uwchlaw,
Cawn yno gwrdd â'n brodyr cu
Sydd eto'n fyw yr ochor draw.

Medd y Salm, "Ti, Arglwydd fuost yn breswylfa i mi, ym mhob cenhedaeth."

Lal, gyfaill annwyl, "Dos i mewn i lawenydd dy Arglwydd."

B.



Llun Ifan Wilson.

EVAN WILSON HUGHES

Bu farw yn frawychus o sydyn Gorffennaf 16 yn 65 mlwydd oed. Ganwyd yn Balaclava House, Llanberis yn un o bump o blant y diweddar Evan Lloyd a Jennie Wilson Hughes. Wedi gadael Ysgol Dolbadarn aeth i weithio i'r chwarel lle y bu'n fawr ei barch gan ei gydweithwyr. Galwyd ef i'r fyddin a gwasanaethodd yn Burma am rai blynyddoedd.

Ar ôl ei ryddhau aeth yn ôl drachefn i'r chwarel am gyfnod, ond wedi priodi ag Alice Peris penderfynodd adael a gweithio yn siop Thomas Pritchard Birmingham House ac wedi hynny dechrau busnes ei hun yn y pentref a phawb, yn enwedig y plant, yn adnabod y siop fel Siop Wilson ac Uncle Wilson ac Anti Alice oeddynt i'r plant i gyd. Yr oedd bob amser yn agor ei galon a'i boced i bob achos da yn y pentre ac yn barod iawn ei gymwynas i bawb yn ddiwahân. Bu'n aelod ffyddlon yn Eglwys Preswylfa hyd 1982 ac wedyn yn y Capel Coch a'i lais cyfoethog i'w glywed yn yr oedfaon a'r Cymanfaeodd Canu a'r diddordeb mewn canu yn nodwedd arbennig yn ei fywyd a hynny'n amlwg yng Nghapel Coch y Sul diwethaf cyn ei ymadawiad yn rhoi ei orau er i hynny fod yn amharu ar ei iechyd.

Bu'n ffyddlon iawn i'r clwb pêl-droed ar hyd y blynyddoedd, yn enwedig yn gefnogol i'r rhai ifainc oedd â diddordeb yn y chwarae.

Wedi ymddeol ym mis Mawrth 1984 a chartrefu'n 'Hafan' gydag Alice yr oedd mewn gwir ystyr yn Hafan deg iddo yn cael mwy o amser i ddarllen ac i ymddiddori yn ei weithgareddau a llawer mwy o amser gyda'r teulu, yn enwedig y wyrion a'r wyresau oedd mor hoff ohono ac yntau yn daid mor garedig.

Yr oedd wedi byw bywyd llawn a'r llawnder hwnnw yn cyfoethogi bywyd y teulu a phawb oedd yn dod i gysylltiad ag ef.

Cafwyd tystiolaeth o hynny ar ddiwrnod ei angladd yn y Capel Coch yn y gwasanaeth a'r nifer cyfeillion a ddaeth i dalu'r gymwynas olaf iddo. Mae'r hiraeth yn aros, yn enwedig ar yr aelwyd a gyda'r teulu ond trwy ras Duw mae cysur a nerth i'w gael mewn atgofion melys amdano. Diolch am ei gwmni a phob peth da a gafwyd ynddo.

Fe'm galwyd gan fy Nuw
I wasanaethu f'oes
Boed i'm ymroi i'r gwaith a byw
I'r Gŵr fu ar y Groes.

H.R.

DIOLCH:

Dymuna Lorraine Williams, 5 Rallt Goch, Ceunant ddiolch o galon i'w theulu, cyfeillion a chymdogion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tra roedd yn yr ysbty yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU i Ruth, merch Eddie a Moreen Lennon, Plas Tirion ar achlysur ei phriodas â Ieuan o Gwm-y-glo. Ein dymuniadau gorau i'r pâr ifanc. Byddant yn ymgartrefu yng Nglanffynnon Llanrug.

Dymuna Ruth ac Ieuan ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dymuna Eddie a Moreen Lennon, Plas Tirion ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am y caredigrwydd a ddangoswyd at Ruth ac Ieuan ar achlysur eu priodas. Diolch hefyd i bawb a fu'n helpu i wneud y diwrnod mor llwyddiannus.

Llanberis

(parhad o waelod tudalen 5)

CWMNI DRAMA: Dymuna'r Cwmni ddiolch yn gynnes i bawb am roddion a chymorth yn paratoi'r lluniaeth i Garnifal Llanberis. Diolch am y cymorth yn ystod yr wythnos cyn y Carnifal, ac ar y diwrnod. Enillwyd y raffl, sef teisen hardd o waith Gwyneth, Becws Eryri, gan Dafydd Roberts, Amgueddfa'r Chwael.

Bydd y Cwmni yn dechrau ar eu tymor newydd ar nos Lun, Medi 2 yn Ffestri Gorffwysfa. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno, fel actorion neu i gynorthwyo yn ymarferol.

DIOLCH: Dymuna Gareth a Dilys, 18 Bryn Rhos, Rhosbodruall ddiolch i'w teulu a'u ffrindiau yn Llanberis am y llw cardiau, anrhegion a dderbyniodd Daw eu merch pan yn yr ysbyty yn Lerpwl. Diolch i bawb.

LLWYDDIANT RHEDEG: Llongyfarchiadau i'r canlynol:

Ras Aberdaron: 1. Linda Prydderch dan 12 oed, 3. Shane Price dan 12 oed, 1. Julie Baylis dan 16 oed, 3. Eirian Roberts dan 16 oed, 3. Paul Prydderch dan 16 oed.

Ras Penygroes: 1. Linda Prydderch, 2. Eirian Roberts, 3. Julie Baylis, 3. Paul Prydderch, 2. Marc Williams, 3. Cai Williams, 3. Shane Price.

Ras Beddelert: 1. Kevin Prydderch, 1. Julie Baylis.

Ras yr Wyddfa: 1. Kevin Prydderch, 1. Linda Prydderch dan 12 oed, 1. Paul Prydderch dan 14 oed.

BANC Y MIDLAND LLANBERIS: Casglodd Mrs Dorothy Williams, Stryd Fawr a Mrs Eirlys Ellis Rhes y Cae ddeiseb yn cynnwys 500 o enwau lleol i wrthwynebu penderfyniad y Banc lleol i symud y rheolwr a rhai o'i weithwyr o Lanberis a chau'r Banc am dri o'r gloch yn ddyddiol o ddiwedd mis Medi. Aed â'r ddeiseb i'r brif swyddfa ym Mae Colwyn a dyma'r atebiad: Annwyl Mrs Ellis,

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 14 Gorffennaf yn amgau'r ddeiseb. Gwerthfawrogwn yn fawr yr ymdrech a wnaethoch ac fe ddeallwn yn llwyr deimladau'r trigolion ynglŷn â'r sefyllfa.

Yn ffodus, gallwn sicrhau'n cyfeillion yng nghymuned Llanberis, y bydd busnes yn parhau fel o'r blaen ar ôl y newidiadau. I ddweud y gwir, fe fydd gan gwsmeriaid fantaes ychwanegol o allu cael cyfweiliad efo rheolwr am gyngor ac yn y blaen, unai yn Llanberis neu yng Nghaernarfon, gan mai bwriad y tîm rheolwyr yng Nghaernarfon yw bod ar gael yn y ffordd hon.

Fel y gwyr pawb 'rydym, yn wahanol i'r gystadleuaeth, yn llwyr ymroddedig i ardal Llanberis ac mae gennym bob bwriad o gario'r ymroddiad yma ymlaen i'r dyfodol rhagweladwy.

Gobeithiaf y bydd y llythyr hwn yn rhoi hyder i'n cwsmeriaid am y dyfodol.

Unwaith eto, diolch i chwi am gymeryd y drafferth i ysgrifennu.

Yr eiddoch yn gywir,

D.J. Skinner,

Rheolwr Rhanbarthol Cynorthwyl (Gweithrediadau)

Cefnogwch ein Hysbysebwyd

MAE'R SAMARIAID YN GWRANDO, YN ABBEY ROAD



BANGOR 354646

CYSYLLTIADAU TEULUOL



Loco Rheilffordd Padarn oedd y 'Velinheli' ac yn y cefndir mae'r 'Vaenol' sef loco lein bach y chwael. Tynnwyd y llun yn fuan ar ôl prynu'r ddwy injan yn 1895.

Ar blatfform y 'Velinheli' â'r sbaner yn ei law, mae Evan Cadwaladr Evans, Pen Sgoins, Felinheli, sef taid Bert Parry, Llys Orwig. Yr ail o'r chwith yn sefyll yw Richard Parry, tad y bachgen ifanc sy'n pwyso ar y car yn y llun isod, a thaid arall Bert Parry! Pwy yw'r dynion eraill tybed?



Nid ydym yn siŵr o ddyddiad y llun yma ond gwyddom iddo gael ei dynnu yn ystod cyfnod y Rhyfel Byd Cyntaf. George Parry (saer) sy'n pwyso ar y car a thu ôl iddo mae Dafydd 'Jac' Jones, y perchennog. Y gŵr yn y cap yw Tudur 'Giás'.

Rover llwyd a gofrestrwyd gyntaf yn 1913 oedd CC728. Fe'i gwerthwyd i rhywun ym Morfa Bychan yn 1925. Dair blynedd yn ddiweddarach fe'i trowyd yn lori. Cafodd ei sgrapio ym 1933.

Diolch i Bert Parry ac i Wasanaeth Archifau Gwynedd am y wybodaeth ac am gael benthg y ddau lun uchod.

DRAENOG



Wel dyma greadur pur anodd ei ddal! Yn troi yn hen bensa i ffidian â'i walt, O dan yr holl gyrlyrs mor llac yw y sgrïws Sy'n cynnal synhwyrâu sigledig 'rhen J---s.

LLONGYFARCHION



LLONGYFARCHIADAU: i Delyth Eronwy Parry, merch Bert ac Ann Parry, Llys Orwig, Stryd Newton ar ennill gradd B.A. mewn Cyfathrebu yn y Coleg Normal. Gobeithia Delyth gael swydd fel gohebydd ar y cyfryngau.

Llongyfarchiadau iddi hefyd ar ei phen-blwydd yn 21 oed ar Awst 19. **BEDYDDIO:** Ddydd Sul, Awst 25 yn Eglwys Nant Peris bedyddiwyd Elinor Jane, merch Gwawr Eluned a Carl Wager, Ashton-under-Lyne, ac wyres Bert ac Ann Parry, Llys Orwig.

DADRITHIAD

'Roeddwn inna'n fa'na unwaith,
â'r union ystum yna
yn chwarae mig dros wyneb
fy ardega',
a'm gwisg ysgol inna'
fel un chitha
yn cloi rhyw ddiniweidrwydd
pur amdana.

Bu i minna ngwasgu
dan iau arholiada
a'm gorfod i lowcio
wermod gwaith cartra.
Bu i minna freuddwydio
am ddiosg heala
a chael 'ista 'n fan'na
yn union fel honna
sy'n damcaniaethu
tu ôl i'r ddesg 'na.

Ia, honna
sy'n creu fy holl problema
a'u pastro'n swp
dros fy hamddena.

"Fe ddaw fy nhro inna' "
ac felly bu i mi gysura.

Ond,
rwan â'm dyddia
ysgol dan haena
o lwch blynydda
a'r ddesg 'ma yn edliw
y ddoe i'r heddiw,
a chitha'n meddwl
fel 'roeddwn innau
fod i minna
fywyd di-broblemau.

Dwi'n dechra ama
a dweud y lleia
os mai gwir oedd delwedda
fy ardega,
ac wedi'r cyfan mai gennych chi
ma'r bywyd gora'.

Da'chi'n ista yn fan'na
gyda argoel egwyl yn goch
ar eich gruddia,
ing y dyfodol
yn ymestyn yn lân
o'ch blaena.
Finna'n ista'n fan'ma
yn hirathu'r gorffennol
am fynd yn ôl
yn hogan ysgol.

Yna,
agorodd llenni
fy ddoe,
a thasgwyd goleuni
dros dywyll gornell'r co'
a pheri i mi
eto gofio
am boenau profiada
cynta, ac i deimlo
'r hen greithia
yn tynnu a gwingo.

Ac yna, yn ara'
dwi'n sylweddoli
nad oes bodloni
arnoch chi na finna'.

Sharon Owen,
29 Stryd Marged,
Caernarfon.

W.H. JONES

TRYDANWR

**Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS**

**FFÔN:
LLANBERIS 871470**

Contractau
Weirio Tai

Cawodydd Trydan
ac ati

Agor

Ffiniau'r Gorffennol 'HEN GANEUON'

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Apêl o Batagonia ddaw gyntaf i'r bwrdd heddiw. Dyma'r llythyr:

Yr ydym yn derbyn Eco'r Wyddfa'n gyson oddi wrth rhywun o Sir Fôn ac yn ei fwynhau yn fawr iawn. Tybed fuasech chi yn rhoi geiriau yr hen gân boblogaidd 'Sosban Bach' yn eich colofn? Mae amryw yn yr ardal yn awyddus i'w chanu. Diolch yn fawr. Peidiwch â rhoi fy enw os gwelwch yn dda.

Mae'n bleser cael ateb eu cais. Efallai fod mwy nag un fersiwn o'r hen gân. Fel hyn y clywais i hi. Dywedir mai myfyrwyr y colegau canodd hi gyntaf.

Mae bys Meri Ann wedi brifo, A Dafydd y gwas ddim yn iach: A'r baban yn y crud yn crïo, A'r gath wedi crafu Johnnie bach.

Corws:
Sosban bach
Yn berwi ar y tân,
Sosban fawr
Yn berwi ar y llawr,
A'r gath wedi crafu Johnnie bach.
W - W - W - W
Dei bach y sowldiwr
A chwt ei gryd e' maes!

Aeth Jane Mari Jos i Ffair y Caerau,
I brynu set o lestri te,
Ond diffyg a gadd hi gyda'r llestri
Trwy yfed gormod lawer iawn o de.

Corws:
Sosban bach etc.

Lwc dda, lwc dda i fechgyn Cymru,
Peldroedwyr gorau yn y byd:
A phan ddaw'r clwb yn ol i Walia
Ni ganwn 'Sosban Bach' o hyd, o hyd.

Corws:
Sosban bach etc.

Hwyl i bobol Patagonia ar ganu'r gân. Cofion atynt. Nis gwn pwy yw'r awdur, a wyddoch chi?

Mae Robyn yn Swil

Mae Robyn fy nghariad yn lliwgar a glân,
Ei foch fel y rhosyn, a'i wallt fel y frân,
Mae Robyn yn wigi ac ysgafn ei droed,
Y fo yw'r anwylaf a welais erioed:
Ond mae Robyn yn swil, mae Robyn yn swil,
Mae'n ofid i 'nghalon fod Robyn mor swil.

Mae serch yn tywynu o'i wyneb a'i wên
Er hyn mae'n rhy wylaidd i agor ei ên,
I gynyg ei gariad yn hoffus i mi,
I ddweud Mari annwyl, fy nghalon wyt ti.

O mae Robyn yn swil, etc.

Bydd Robyn yn barod y gauaf a'r haf,
I'm 'nol ac i'm hanfon ble bynag yr af,
Heb ofyn am gusan, rhag ofn ei nacáu,
A minau'n hiraethu am roi iddo ddau:

Ond mae Robyn yn swil, etc.

Pan fydd ef yn eistedd i sgwrsio hefo mam,
Mi wn bydd ei lygaid i'm dilyn bob cam:
Pan elwyf o gwmpas fy ngwaith gyda sêl,
Bydd Robyn yn dotio ar bob peth a wêl.

Ond mae Robyn yn swil, etc.

Fel 'roeddwn i neithiwr yn gwneud bara ceirch,
Ac yntau wrth wyllo, yn swyno fy serch,
'Roedd cannyll ei lygaid yn cyneu fy ngwedd
A minau yn gwrido o gariad a hedd.

Ond mae Robyn yn swil, etc.

Os daw o rhyw ddiwrnod rhwng hoffder a braw

I ddweud yn serch-glwyfus gan wasgu fy llaw,
A gawn ni briodi, O Mari fy mûn, -
Dywedaf -
Cawn, cawn, Robyn anwyl os myni ddydd Llun.

Bydd Robyn yn ddyn,
Bydd Robyn yn ddyn,
O! iechyd i'w galon, bydd Robyn yn ddyn.
Talhaiarn.

Mae Robyn yn Flin

Mae Robyn, fy mhriod, ar ol cael crys glân,
Yn edrych cyn fudred, gan ddeud a'r frân:
Mae'n eistedd mewn cadair a gefais gan nain,
A'i wyneb fel ffidil, yn hir ac yn fain.
O! mae Robyn yn flin,
Mae Robyn yn flin -
Mae'n ofid i'm calon fod Robyn mor flin.

Pan rwbaf y ffender yn loyw a glân,
Daw yntau i smocio a'i drwyn yn y tân:
Os d'wedaf yn dyner, Paid Robyn bach, paid,
Fe dania, fe fyga, fe boera'n ddibaid.

O! mae Robyn yn flin, etc.

Ar ol bod am oriau ar gareg y drws
A sgwrio y lloriau yn lân ac yn dlws,
A'i draed yn un rwbef, fy Robyn ddaw at
Ei fwyd yn y popty, cyn gweled y mat:

O! mae Robyn yn flin, etc.

Os bydd arnaf eisiau ystenaidd o ddwr,
Rhaid rhedeg i'r ffynnon - wiw gofyn i'r gwr.
A phan fydd fy sgidia yn myned yn wael
Mae'n danod bob ceiniog am bopeth wyl gael -

O! mae Robyn yn flin.

Pan fydd arnom eisiau rhyw lwythyn o lo
Bydd Robyn am wythnos fel adyn o'i go:
Ac wrth iddo gyfrif pa faint a barha'dd
Y llwythyn blaenorol, bydd bron a fy lladd.

O! mae Robyn yn flin, etc.

Er iddo gael brecwast o goffi a thost
A chigau i ginio, berweddig a rhost:
Ac er imi ferwi dau wy hefo'i de,
Gwneud gwyneb, a gwefus, a thrwyn y bydd e'.

O! mae Robyn yn flin,
Mae Robyn yn flin,
Mae'n ofid i'm calon fod Robyn mor flin.
Ceiriog

Hen Godwr Canu

Henwr hoff, mae'n canu erioed, - a'i foliant

Yn felys o'i faboed; -
Y mae'n heini mewn henoed,
Organ aur yn drigain oed.

J.J. Williams

Yn Yr Hen Gartref

Gweld deryn gwyllt, gweld derwen gam, -
gweld mawn
A gweld môr yn wenfflam:
Gweld brwyn ar dwyn dinam,
A gweld mwg aelwyd mam.

J.J. Williams

COFIO S.R.

PERERINDOD: i gofio canmlwyddiant marwolaeth 'S.R.' Llanbryn-mair: **Sadwrn, Medi 28ain 1985** am 2 o'r gloch wrth yr Hen Gapel, Llanbryn-mair. Taith fer i'r Diosg ac yn ôl. Dowch â bydd paned ar gael. Dilyniir y daith gan raglen nodwedd yn yr Hen Gapel dan ofal pobl leol. Enwau i'r ysgrifennydd os yn bosibl er mwyn gwneud paratodau.



Englynion i 'Mari Lewis' ar achlysur ei hurddo yn Eisteddfod y Rhyl eleni.

I Mari Lewis

Hon, y wraig bedwar ugain, - pwy gystal
Drwy'r Herald, i'n harwain?
Y wraig hoff a'i Chymraeg cain
Yn gyhyrog o gywrair.

Hon yw'r wraig a fawrygir - hon yw gwraig

Ein gwrogaeth gywir:
Y wraig a aml anrhegir
A'n clod am ei chronol clir.

(Y Prifardd) Alan Llwyd

LLUNIAU O'R GORFFENNOL LLANBERIS



MERCHED HEINI DECHRAU'R GANRIF

A wy'r rhywun pwy yw'r merched deniadol yma yn eu gwisg Cymreig?



GWEITHIO AR GOPA'R WYDDFA

Pwy yw'r rhain? Maent ar eu ffordd i gopa'r Wyddfa. Yn y cwt gard ar drên fach yr Wyddfa maen nhw, ac yn arfer gwneud y daith yn wythnosol. Bryd hynny roedd yn rhaid aros yn y 'gwesty' ar y copa. Profiad dychrynlyd yn eitha sicr os oedd drycin ffyrnig yn bygwth chwythu'r adeilad dros y clogwyn serth.

Benthyciwyd y lluniau gan Miss Julie Owen, 11 Dôl Eilian, Llanberis.



AELODAU'R FRIGAD DAN 1944

Mr John Williams, Siop Bapur, R.H. Owen, Pen Gwaith gynt, Mr Roberts, Insurance, Mr John Rowlands, Ceunant St., Mr Glyn Roberts, Pen Bryn, Mr John Hughes, Co-op, Mr Richard Jones, Dolbadarn, Mr Hugh Jones, Tŷ Pen Snowdon St.

Y llun drwy law Mrs Helen Morris, Oakfield.

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

CAPEL BOSRA: Gorffennaf 6 bu trip yr Ysgol Sul i'r Rhyl. Dymunwn ddiolch i Ann Paterson ac Elisabeth Jones am wneud y trefniadau. Eleni eto cafwyd rhodd haelionus gan Mr a Mrs Huskins. Cafodd pob plentyn rodd o £1 ganddynt i wario yn y Rhyl. Diolch yn fawr.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailddechrau Medi 8, wedi i'r ysgol ailagor. Gobeithio y byddwch yr un mor ffyddlon eleni eto blant!

Ar ôl tair cenhedlaeth, 104 o flynyddoedd, paratowyd bwrdd y Sacrament, a'r bwrdd Bedydd, edrych ar ôl llestri'r Cymun gan Mrs M. Munro, a'i mam, a'i nain o'i blaen, yn awr mae Mrs Munro yn dymuno trosglwyddo'r gwaith. Dymuna aelodau'r Wesleiaid a chapel Bosra ddiolch iddi am ei gwasanaeth. Diolchodd y Parch Erfyl Blainey iddi yn y gwasanaeth Cymun bawn Sul, Mehefin 7. Anrhegwyd hi gan y capel am ei gwasanaeth. Wedi blynyddoedd maith fel athro Ysgol Sul, anrhegwyd Mr Munro, ychydig o fisodd yn ôl gan blant yr Ysgol Sul.

Cytunodd Mrs Eirlys Jones a Mrs Bessie Williams i gario'r gwaith ymlaen. Dymunwyd yn dda iddynt gan y Parch Erfyl Blainey.

EGLWYS SANTES HELEN: Clwb Cynilo: Eleni ar ôl cyfnod maith, ymddeolodd Mrs Jennie Roberts, Elidir View o'r swydd yr oedd yn ei gwneud gyda'i diweddar briod, sef gofalu am Glwb Cynilo'r Eglwys. Yr oedd yr arian a wnaethpwyd mewn llog yn cael ei roi i'r Gronfa Atgyweirio. Cyflwynwyd tusw o flodau i Mrs Roberts gan blant yr Ysgol Sul. Mrs Ann Paterson fydd yn derbyn arian y Clwb o hyn ymlaen ac aiff y llog fel o'r blaen i'r Gronfa Atgyweirio.

GWASANAETH SEFYDLU: Aeth nifer dda o blwyfolion Penisarwaun i ddanfôn ein cyn-ficer i'w ofalaeth newydd ym Motwnnog. Diolchwn i Warden Llandinorwig am ofalu am y cludiant ac i blwyfolion Botwnnog a'r cylch am eu croeso a'r wledd ar y noson.

TRIP YR YSGOL SUL: Diolch i Mrs Ann Paterson a Mrs Elisabeth Jones am y trefniadau i bawb a roddodd roddion ariannol i'r plant ac yn enwedig i Mr Hoskins am ei haelioni unwaith eto.

GWELLHAD: Bu nifer yn sâl yn ystod yr wythnosau gwlyb yma, gobeithio eich bod yn gwella ac y daw haul o rywle i godi eich calonau!

Bu Mr H. Davies, Hendre yn yr ysbyty, dymunwn adferiad buan iddo. Bu Mr Parrot, Bryn Eglwys am driniaeth yn Ysbyty Gwynedd hefyd a da ei weld wedi gwella. Clywsom fod

Bryngwyn Griffith hefyd wedi bod yn yr ysbyty ond wedi gwella erbyn hyn.

Syfrdanwyd pawb o glywed am ddamwain Mrs Porter. Torrodd ei choes a chafodd fân anafiadau ar ôl cael ei tharo i lawr â char.

Brysiwch wella Mrs Porter, cofiwch mai chi oedd Super Gran y Carnifal! - gyda nyrs mor ardderchog â Phat eich merch, byddwch yn siŵr o wella'n fuan.

DIOLCH: Dymuna Mrs M.J. Roberts, 5 Llys y Gwynt (Tai Croesion gynt) ddiolch i'r teulu, a chymdogion - hen a newydd, am bob cymorth a gafodd wrth ymadael i Lys y Gwynt.

Dymuna Mrs M. Munro ddiolch o galon am yr anrheg hardd a gafodd gan y Parch Erfyl Blainey ar ran aelodau Capel y Waun a Bosra ar derbyn ei gwasanaeth gyda'r Cymun Sanctaidd.

Mae'n wir ddiolchgar i Mrs Eirlys Jones a Mrs Bessie Williams am gymryd y gwaith drosodd a dymuna phob bendith iddynt.

Gorffennaf 19 trawyd Mrs Eluned Porter gan gar ar y groesfan yn Llanrug. Bu'n Ysbyty Gwynedd am ychydig ddyddiau ac mae ei choes yn dal mewn plaster. Dymuna Mrs Porter ddiolch o waelod calon i'w theulu, ei chymdogion a'i ffrindiau oll am y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniodd. Mawr ei diolch hefyd i'r cymdogion o Lanrug a ofalodd amdani wedi'r ddamwain.

Bu'r blodau a gafodd gan ei ffrindiau'n hwb mawr iddi godi'i chalon. Diolch yn fawr!

Dymuna Arwel Williams, Carrog, ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a gafodd ar achlysur ei ben-blwydd yn un ar hugain.

LLONGYFARCHIADAU: i Sandra Jones, Waun, ar ddathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed.

Awst 1 dathlodd Mr a Mrs Eurwyn Jones, Camelot eu priodas arian. Pob dymuniad da i chwi.

Llongyfarchiadau i Trystan Larsen, graddiodd gydag anrhydedd B.Add. yn y Coleg Normal. Pob dymuniad da iddo yn ysgol yr Hendre Caernarfon.

Ein llongyfarchiadau i bawb o blant y pentref a lwyddodd yn arholiadau y pumed a'r chweched dosbarth.

Dymuniadau da i Miss Mair Foulkes ar ei hymddeoliad fel athrawes yn Ysgol Maesincla.

CLWB YR HEULWEN: Treuliwyd pnawn difyr iawn yng nghwmni Mr Emyr Jones o Gaernarfon. Cafwyd sgwrs ar 'Hiwmor y Chwarelwr'. Diolchwyd iddo gan Mrs Porter a Mrs Percy Williams. Rhoddwyd y te gan Mrs Rees Thomas, a Mrs A. Williams. Diolchwyd iddynt gan Mrs Gwyneth Jones. Enillwyd y raffl gan Mrs

Gwenifer Jones. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 17.

Ymunodd Clwb yr Heulwen â Chlwb y Merched ar drip dirgel. Cafwyd amser ardderchog o gwmpas Conwy. Diolch i Mrs Mary Davies am wneud y trefniadau.

CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn â Mr a Mrs Elwyn Hughes, Bryn Eglwys o golli cyfniether i Mrs Hughes.

CARNIFAL: Bu'r pentref yn fwrllwm o weithgareddau yn ystod wythnos Gorffennaf 7-13. Cafwyd cychwyn arbennig o dda i'r wythnos gyda Cymanfa Ganu yn Eglwys Santes Helen. Yr arweinydd oedd Arwel Jones a chafwyd eitemau effeithiol dros ben gan Barti'r Heulwen. Nos Lun, daeth nifer dda o bobl a phlant i gefnogi'r Noson Bingo. Diolch i Helen Owen am fod yn alwr. Noson o chwerthin a phêl-droed i blant yr ysgol gynradd a gafwyd nos Fercher, diolch i Mr Mowll a Mrs Jenny Fletcher am fod yn reolwyr.

Oherwydd y tywydd gwlyb gohiriwyd y Mabolgampau nos lau. Cafwyd disgo i blant y pentref yn unig yn y Clwb nos Wener. Diolch i Mr a Mrs Owen am eu haelioni ac i Eric am wneud y trefniadau.

Bawn Sadwrn am 2.00 yn brydlon o Siop Gron cychwynnodd y Carnifal



Tim buddugol y Gemau Giamocs.



Un o gampau'r 'Giamocs'.



Siwpyrman a Siwpyrŵman.

i fiwsig Band Deiniolen. Cafwyd cystadlu brwd o'r lleiaf i'r hynaf. Y beirniaid oedd Mr a Mrs Eurig Wyn, Waunfawr a Miss Eleri Ogwen, Bethesda. Diolch iddynt am eu gwaith caled o feirniadu ac am eu rhodd haelionus. Diolch hefyd i Fand Deiniolen am helpu i wneud y carnifal yn un llwyddiannus. Dau yn unig oedd yn y ras! - sef y ras drawsgwlad - Norman Jones oedd yr enillydd gydag Andrew Turner o'r ysgol gynradd yn ail. Eleni eto, cafwyd wythnos lwyddiannus - mawr ein diolch i bawb fu'n helpu i wneud hyn yn bosibl.

Cafwyd noson gymdeithasol yng Ngharreg Brân Llanfairpwll Gorffennaf 19. Diolch i Elisabeth am wneud y trefniadau.

CLWB CANT:

£20: Mrs E. Woods, Bryn Arthur
£12: Mary Parry, Llanrug
£7: Miss Nansi Williams, 15 Bryntirion.

GWILYM O. ROBERTS

WEIRGLODD
GOCH
PENISARWAUN
Ffôn Llanberis
871407
DOSBARTHWR
LLEFRITH

Trwy ardal
ECO'R WYDDFA
Hefyd TATWS, WYAU
ac ati at eich drws



BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

AM DDEWIS HAEL A
GWASANAETH CYFEILLGAR
DEWCH I

SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN

Ffôn:
Llanberis 871272

CANOLOG I'R FRO



PENISARWAUN

(parhad)

CLWB CANT: Tynnwyd Clwb Cant yn 'Llygad yr Haul' Penisarwaun ar Orffennaf 30. Roedd rhai o aelodau'r pwyllgor yn bresennol. 1. £20: Carys Jones, Porthaethwy, 2. £12: Mr a Mrs Parrot, Bryn Eglwys, 3. £7: Mr Michael Jones, Perthi.

Diolch i Mr a Mrs Owen, Siop Gron am eu rhodd o £50 yn dilyn Cyngerdd Hogia'r Wyddfa yn y Clwb.

Casglodd Ann Ifans £50 wrth geisio colli pwysau.

Daeth Noson Goluro a drefnwyd gan Elinor, Delyth ac Elen â £45 i'r Gronfa. Diolch genod! Cafwyd £43.90 gan Ann Paterson a Helen Owen mewn gwerthiant llestri 'Fiesta'. Ein diolch iddynt hwythau.

Drwy fisoedd Gorffennaf ac Awst bu aelodau'r pwyllgor a ffrindiau yn brysur yn gwerthu ticedi raffl. Awst 23, bu Arwel yn teithio ffiniau Gwynedd. Datguddiwyd nifer y milltiroedd yn y Foelas Llanrug, nos Sadwrn Awst 24, sef 410.

Enillydd y wobr o £100 oedd A.T. King Davies, Eithinog, Groeslon.

Carwn fel pwyllgor a phentrefwyr ddiolch o galon i Arwel am ei frwdfrydedd ac i bawb a werthodd ac a brynnodd dicedi a gwneud y daith yn un llwyddiannus. Diolch i Mr John Trevor, Llanrug am ei rodd haelionus yntau ac i Huw John Huws am ei gydweithrediad o 'glocio'r' car ar gychwyn a diwedd y daith a nodi'r milltiroedd a'u selio mewn amlen i Phyllis Elis.

Gweithgaredd mis Medi fydd Helfa Drysor. Gwneir y trefniadau gan Phyllis Elis. Nos Wener, Medi 6 fydd y noson. Cychwyn o Stâd Bryn Eglwys rhwng 5 a 6 o'r gloch. Y tâl fydd £1 y car. Dowch yn llul!

YSGOL TAN-Y-COED:

Llongyfarchiadau i Siôn Roberts am gadw presenoldeb llawn drwy'r flwyddyn. Dyma'r ail dro i Siôn gyflawni'r gamp yma. Da iawn Siôn.



Llongyfarchiadau i Mrs Ann Peterson a Mrs Nant Roberts ar gael eu hethol yn lywodraethwyr yr ysgol.

Dymuniadau da i Mr Len Jones yn ei swydd newydd, dros dro, a phob dymuniad da i Mr Gwyn Mowll fel prifathro dros dro.

Mehefin 28 aeth plant yr ysgol ar eu trip addysgiadol blynyddol. Eleni cafodd y plant ymweld â Sw Fôr ym Mrynsiencyn ac yna Gwarchodfa Natur Penrhos. Rhoddwyd holiadur i'r plant hyn a'r enillwyr oedd Osian Dafydd o ddosbarth Mrs Evans, a Bedwyr, Siôn ac Owain Hedd yn gyfartal o ddosbarth Mr Mowll. Cafodd y pedwar docyn llyfr yn wobr. Gwneud llun un o'r pysgod rhyfeddol oedd tasg y plant bach a chafwyd lluniau arbennig o dda ganddynt. Yr enillydd oedd Rhys Owain, Siwperterd o dan y môr, oedd gwobr Rhys.

HANES Y TRIP ...

Dydd Gwener, Mehefin 28, roedd ein hysgol ni yn mynd am drip. Roedd pawb wedi cyrraedd croesffordd King yn gynnar iawn. Roedd dau fws yn mynd â'r ysgol i gyd. Roedd un bws i'r plant bach a'u rhieni ac un i ddosbarth Mrs Evans a Mr Mowll. 9.15 a.m. fe ddaeth y bysus. Gwaeddodd pawb yn gynhyrfus "Hwrei" Y lle cyntaf i ni ymweld oedd Brynsiencyn. Yno mae Sŵ Môr Môn. Aeth pawb allan yn frysiog. Roedd Mr Mowll wedi rhoi holiadur i bawb. Ar ôl mynd i mewn i'r ystafell gyntaf gwelsom gimychau gyda bandiau rwber o amgylch eu crafangau. Yn y tanc arall roedd yna dorbwat, Rays, penci, a physgodd fflat. Yn yr un ystafell roeddech yn cael codi cimwch a'i anwesu. Yn yr ystafell nesaf roedd yna octopws bach. Dechreuodd yr ystafelloedd dywyllu a gwelais Siarc mawr bygythiol yn nofio'n chwim o gwmpas. Y llyswennod Conger oedd y gorau oll! Roedden nhw tua deuddeg troedfedd o hir ac yn gorwedd yn llonydd, llonydd. Roedd pawb yn brysur yn llenwi'r holiadur. Aethom yn ôl i'r bws wedi mwynhau ein hunain yn fawr iawn. Yna mynd am Gaergybi i gael cinio a chael gêm o bêl-droed. Fe gurodd ein tîm ni - gôl dda iawn gan Dyfan. Y lle nesaf oedd Gwarchodfa Natur Penrhos. 'Roedd y coed braidd yn siomedig achos roedd gormod o sŵn cawsom gip ar gawell a gwelsom ddaear y mochyn-daeear. Roedd llawer iawn o dylluanod yno yn gaeth mewn cewyll. Roedd llawer o 'Eagle Owls' yno. Roedd yno dylluanod eraill, sef y dylluan eira, tylluan gorniog fawr, tylluan gorniog, tylluan fach, tylluan wen a'r dylluan frech. Roedd un "eagle owl" yn gorwedd ar lawr



Enillwyr cystadleuaeth taith addysgiadol yr ysgol.

yn y gwair yn hisian fel neidr ar bawb oedd yn mynd heibio. Fy nylluan orau i oedd y dylluan fach - nid oedd ond tua 20cm. Edrychais ar fy oriawr, - tri o'r gloch - amser mynd.

Yn sicr roedd pawb wedi mwynhau trip ardderchog ac wedi dysgu llawer iawn.

Bedwyr Evans
Safon 4
Ysgol Penisarwaun

CYWAITH TYMOR AR 'DDŴR'


Yn dilyn cywaith tymor ar 'Ddŵr', bu dosbarth Mrs Evans am dro at Ffynnon Cegin Arthur. Ffordd effeithiol o gloi'r cywaith oedd sôn am ffynhonnau'r pentref ac yn arbennig y ffynnon hon a fu ar un adeg yn gyrchfan i lawer o gleifion. Cafwyd ffeithiau diddorol am Ffynnon Cegin Arthur gan hynafgwyr y pentref. Diddorol oedd clywed y storïau am y baddonau ar gyfer y cleifion a'r poteli di-ri a werthwyd ar un adeg ar gyfer "pob rhyw glefyd blin". Mawr oedd brwdfrydedd y plant i weld y ffynnon fendithiol yma.

Ond siom a welwyd ar wynebau'r plantos wedi cyrraedd y ffynnon. Wedi hir ymbalfalu drwy ddrain a mieri a cholli'r ffordd yn aml - gan nad oes llwybr at y ffynnon, dyma oedd yn ein haros: llysnafedd, sbwriel, eiddew a danadl poethion, yn gorchuddio'r dŵr bendithiol. Roedd rhai o'r plant yn awyddus iawn i ddod yn ôl eto i glirio'r lle. Tybed a allwn ni bentrefwyr Penisarwaun wneud rhywbeth i achub y ffynnon rhag mynd i ddifancoll llwyr?



Plant Penisarwaun ger Ffynnon Cegin Arthur.

BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques Ivy Cottage BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

FFYNNON CEGIN ARTHUR,

FFYNNON DDURLYD YN LLANDMEINIOLLEN,

GER CAERNARFON.

YD GORRŴ ALLAN NAFER A

RHINWEDD IACHAEL EI DYFODD, YN NGHYDA CHYF-
ARWYDDIADAU PA FODD I'W DEFNYDDIO.

AT YR ELYN YR GORRŴ

Dogriadau o Woddlon, Prydion a Dwyddol, a gorchuddychau
treill o ddyddorid yn y Gymnigedd.

Gan A. WYNN WILLIAMS, M.D., M.R.C.S., a L.S.A.

20, King Street, Portland Sq., London.

CAERNARFON:

ANGLAETHWYD A CHYMERIADWYD GAN R. HUGHES, CATTLE PURCHASER.

Price Chae'chleiniog.

FFYNNON CEGIN ARTHUR

Dyma lun llyfryn bychan a ysgrifennwyd am y ffynnon a'r ardal oddi amgylch. Fe'i cyhoeddwyd yn Gymraeg a Saesneg. Ynddo mae'r awdur yn rhoi cyfarwyddiadau ar sut i gyrraedd y ffynnon heb orfod defnyddio'r ffyrdd tyrpeg ac felly orfod talu toll! Mae hefyd yn dadansoddi dŵr y ffynnon ac yn rhoi sylw i'r gwahanol gemegau sydd ynddo. Yn dilyn ceir cyfarwyddiadau ar y dull mwyaf effeithiol o ddefnyddio'r dŵr - ac at ba salwch neu anhwylder.

Enw'r cwmni oedd yn gyfrifol am botelu a gwerthu dŵr y ffynnon oedd KANSO - sef y 'King Arthur Natural Singwater Company'. Roedd stamp y cwmni ar y poteli. Mae rhai ohonynt ar gael o hyd - ond heb y dŵr bellach.

Gol.

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Eirlys Pierce, Swyn-yr-Awel (C'fon 3776)

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Sonia Lyn Williams, Llys Idris ar ei phen-blwydd yn ddeunaw oed. ar Fai 5.

PRIODAS: Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Sonia Lyn Williams, merch Mr a Mrs G. Williams, Llys Idris, ac Anthony Wyn Hughes, mab Mr a Mrs G.W. Hughes, 52 Caer Saint, Caernarfon ar eu priodas yn y Capel Mawr ar Fai 8. Bydd y pâr ifanc yn ymgartrefu yng Nghaernarfon.

CYMDEITHAS Y CHWIORYDD PONTRHYTHALLT: Yng nghyfarfod fis Gorffennaf gyda Mrs M. Lloyd Williams yn llywyddu, cafwyd sgwrs ar grefydd gan Mrs Mair Gwynfa Roberts. Bu ychydig drafodaeth yn dilyn ymysg yr aelodau ynghyd â'r diolch i Mrs Roberts am sgwrs ddiddorol.

Cymerwyd y rhan agoriadol gan Mrs M.L. Williams a gwestwagedd y te oedd Mrs J. Parry, Bro Rhyddallt a Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd. Talwyd diolch iddynt gan Mrs M. Williams, Bron Eryri.

Fis Awst gyda Mrs Williams, Bod Fair yn llywyddu darllenwyd papur gan Mrs Williams, Gwelfryn yn ymwneud yn bennaf â'r gair 'Benthyg'. Diolchwyd iddi gan y llywydd. Rhoddwyd y te gan Mrs C. Owen, Hafan Elan a Mrs Williams, Bron Eryri a diolchwyd iddynt gan Mrs E.W. Thomas, Dolwar.

Cydymdeimlwyd â Mrs G. Griffith, Dolanog ar farwolaeth ei brawd yn y Felinheli, a dymunwyd adferiad buan i Mrs G. Pritchard, Bryn Gwynedd wedi iddi ddod gartref o'r ysbyty, a llongyfarchwyd Mrs M. Lloyd Williams ar gael ei hurddo i'r Wisg Wen, yng ngorsedd yr Eisteddfod Genedlaethol.

Anlwc ddaeth i ran Mrs M. Jones, Bronwylfa drwy syrthio ac anafu ei choes. Da deall ei bod yn raddol wella.

Cyfarfu pwyllgor y Gymdeithas Undebol yn ddiweddar i drefnu rhaglen gogyfer â'r gaeaf. Y llywydd yw'r Parch John Morris, B.D., Trysorydd, Mrs J.C. Williams, Bod Fair, Ysgrifenyddes: Mrs E.W. Thomas, Dolwar.

MERCHED Y WAWR: Nos Fawrth, Medi 10 am 7.30 ceir sgwrs gan Miss Sophie Pari Jones ar 'Hen Bethau'. Gall yr aelodau ddod â hen drugareddau nodedig o bob math i'w trafod. Os bydd yno eitemau go hynod gellir olrhain eu cysylltiadau diddorol i greu noson gwir ddifyr. Bydd pob croeso i aelodau newydd i ymuno â'r gangen ar ddechrau'r tymor fel hyn.

Medi 10: Sgwrs am 'Hen Bethau' gan Miss Sophie Pari Jones.

Hydref 8: 'Coluro' gyda Ms. Karen Thomas.

Tachwedd 12: Sgwrs am 'Longau a Llongwyr' gan Mr Aled Eames.

Rhagfyr 10: Noson o 'Rannu a Blasu'.

YSGOL SUL Y CAPEL MAWR: Cynhelir Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd, nos Fercher, Medi 11, am 7 o'r gloch. Dewch yn llun i gefnogi Apêl Macmillan Ysbyty Bryn Seiont, mynediad 25c, plant 10c wrth y drws. Bydd bwrdd gwerthu, gemau a raffl.

LLONGYFARCHIADAU: calonnog i Catherine Mary Griffith, Ystorfa ar ei llwyddiant yn arholiad canu'r piano gradd 1.

GENEDIGAETH: Mehefin 28 ganwyd Iwan Rhys - mab bach i Eirian a Bryan Williams, 19 Glanffynnon. Llongyfarchiadau mawr iddynt a chroeso mawr i Iwan.

LLONGYFARCHION: a phob llwyddiant i Edward Elias, Gwen y Wawr, Glanffynnon ar ei benodiad yn bennaeth Ysgol Gynradd Beddgelert.

ATHRAWON NEWYDD: Croeso i'r ardal, ac yn arbennig i ysgol gynradd Llanrug i Dilwyn Roberts a Janet Thomas. Bydd y ddau yn dechrau ar eu gwaith ym mis Medi. Dymuniadau gorau iddynt.

DIOLCH: Dymuna Hefin Jones, 37 Stâd Glanffynnon ddiolch o galon i'w berthasau a ffrindiau am y cardiau ac arian a dderbyniodd ar achlysur ei llwyddiant ar ennill ei S.R.N. yn ddiweddar.

Dymuna teulu'r diweddar Griffith Edwin Ellis, 10 Meadowfield Grove, Gosforth, Cumbria ddiolch o galon i'w cyfeillion a chyn-gymdogion am eu cydymdeimlad yn eu profedigaeth diweddar.



Yvonne Reagan a Michael Ward, y ddau o Lanrug - ar achlysur eu priodas yng nghapel Pontrhythallt ar Fehefin 1af.



Dymuniadau gorau i Mrs Mair Griffith, Hafan, ar ei hymddeoliad. Bu Mrs Griffith yn athrawes yn yr ysgol gynradd am 16 mlynedd. Yn y llun fe'i gwelir gyda Mrs Meinir Williams (de) tu ôl i'r dosbarth olaf a fu dan ei gofal.



Plant yr Ysgol Gynradd yn mwynhau egwyl yn ystod recordio'r rhaglen radio 'Sain, Cerdd a Chân'.



Miss Sulwen Parry-Jones, Y GLyn, Penygroes a Mr Kevin Roberts, Bron Wenda, Llanrug yn dilyn eu priodas yng Nghapel Glanrhyd, Dinas yn ddiweddar. Mae'r ddau bellach wedi ymgartrefu ym Minffordd Teras, Llanrug.

D. LL. OWEN
1 BRYN AFON
TERRACE,
LLANRUG

FFÔN
C'FON 76699

Cludo Llwythi
Bychan a Chlirio
Safleoedd
Llwythi 3 Tunnell
Hefyd Trin Gerddi a
Thorri Gwair

YSGOL GYNRADD LLANRUG - DDOE



Dosbarth o ysgol Llanrug gyda'u hathrawes a'r prifathro. Llun gan Mr Iorwerth Jones, Caernarfon.

SEINDORF
LLANRUG
ARWERTHIANT

A
PHANED

yn ystafell y
Seindorf, nos lau,
Medi 5ed
am 7.00

Elw at y gost o gystadlu yn
y Neuadd Albert, Llundain
yn y Rownd Derfynol
Genedlaethol



PLAID CYMRU
CANGEN
LLANRUG

Cyfarfod Blynnyddol
yn y
Sefydliad Coffa
Medi 9ed am
7.00
Croeso i bawb


LLANRUG (parhad)

DAU GYFALL

Dyma ddarlun o ddau gyfaill oedd yn gweithio gyda'i gilydd flynyddoedd yn ôl, yn Chwarel Dinorwig. Nid oeddynt wedi gweld ei gilydd ar ôl hynny am lawer blwyddyn. Yn ddiweddar bu i'r ddau gwrdd â'i gilydd pan yn gleifion yn Ysbyty Gwynedd - yn yr un ward. Gallwn ddychmygu yr ymgomio cyd-rhyngddynt, yn trafod hynt a helynt eu dyddiau yn y chwarel.

Y dydd o'r blaen ar fy ymweliad wythnosol â'r Ysbyty yn y Sir adroddodd Mr Emyr Jones, Hafan Elen, Llanrug beth o'i hanes wrthyf, a dyma fo yn ôl ei eiriau ef ei hun fel y cofnodais hwynt:

Buom yn cyd-weithio yn Chwarel Dinorwig ac wedi cyfarfod fel hyn â'n gilydd wedi'r holl amser aethom ati yn naturiol i drin a thrafod bywyd a helynt gwaith yn y chwarel yn y dyddiau hynny (sef R.R. Caethathro fel y'i hadnabyddid). Cof da gennyf am Robert Williams, ei daid yn 'fforddolio' 'sinc Wali'. Cadwai ei gers, sef 'pulpic wedges' yn y cwt yr ochr arall i'r Corn, - gosodwr y pryd yn gofyn i ni godi dau far haiarn 8 llath oherwydd prinder cill a'u cludo o 'sinc galed' yr holl ffordd i 'sinc Wali'. Nadolig 1947 yr oedd Robert Williams ac



'R.R.' yn gweithio yn bonc Llangristiolus, ac yn bonc top tir. Digwyddai fod yn eira mawr, - 'R.R.' yn y barics trwy'r dydd.

Bûm yn gweithio yn Chwarel Dinorwig am dros 40 mlynedd, yn llathu lleoedd peryg a 'dyfnau' mawr, - un 'dyfn' dros 100 llath, y rhaff wrth gwrs yn fwy na'r 'dyfn'. Gwneud y gwaith ar ddydd Sadwrn am nad oedd dim saethu. Yn ôl cyfraith gwlad rhaid oedd bod 8 dyn yn dal y rhaff. Diwrnod tâl yn dod - y fi yn cael £3 ac un dyn yn cael £3 a swllt am ddim ond dal y rhaff, felly dim ond swllt oeddwn i'n gael am wneud y gwaith o raffu. Oherwydd gwneud yr holl waith caled yna, dyma fi heddiw yn dioddef oherwydd y llwch (silicosis).



'Sgwn i ydi'r ddau yma am fynd i gyfarfod blynyddol Plaid Cymru yn Llanrug?

SEINDORF LLANRUG ??



Derbyniwyd y llun yma gan Mrs Jones o Gaernarfon. Mae Mrs Jones yn awyddus i wybod pa fand ydyw? Ple tynnwyd y llun? Beth oedd yr achlysur? Pwy yw'r hogan fach sydd yn chwythu'r corned? Ble mae heddiw?

Y SEINDORF: Daeth newyddion da i Seindorf Llanrug ar ddechrau mis Awst. Deallwyd oddi wrth Mr John Howarth, trefnydd rhanbarthol Pencampwriaethau Prydain, fod y seindorf wedi cael ei dyrchafu o'r bedwaredd i'r drydedd adran yng ngraddau cenedlaethol Prydain.

Mae'r sustem ddyrchafu'n cael ei seilio ar lwyddiannau'r seindorf yn y maes cenedlaethol dros nifer o flynyddoedd. Bu seindorf Llanrug yn llwyddiannus iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Fis Hydref, bydd y seindorf yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Prydain yn Neuadd Albert, Llundain fel pencampwyr y Gogledd-orllewin (sef Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd Cymru). Yn ystod mis Hydref hefyd; byddant yn cystadlu yn rownd derfynol Pencampwriaeth Pontins.

Bydd y seindorf yn dechrau cystadlu yn y dyredd adran o fis Ionawr 1986.



PRIODAS: Llongyfarchiadau i Eira Wyn, merch ieuengaf Mr a Mrs O.G.

Pritchard, 6 Bron Eryri, Rhosgadfan a Gerald Wyn, ail fab Mr a Mrs W.J. Griffith, Pant Tirion, Llanrug a briodwyd yng Nghapel Gorffwysfa (A), Rhosgadfan ar Awst 10, gyda'r Parch J.O. Hughes, Rhosgadfan yn gweinyddu, yn cael ei gynorthwyo gan y Parch John Morris, Llanrug. Byddant yn cartrefu yn Bod Gwilym, Waunfawr.

DIOLCH: Dymuna Mrs Evans, Lloc ddiolch i gymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd tuag ati yn ystod ei hanhwylder.

Bethel

(Atodiad)

LLONGYFARCHIADAU: a dymuniadau gorau i Julie Williams, Cefn a Trefor Foulkes, 6 Tan y Cae ar eu priodas.

PEN-BLWYDD: Llongyfarchiadau i Richard Evans, 7 Tan y Cae ar gyrraedd ei 18 oed ar Awst 26, Sarah Morgan, Gwyndy oedd yn 18 ar Awst 21 a Janet Pritchard, 30 Bro Rhos ar Awst 12.

Dymuniadau gorau hefyd i Bethan P. Jones, 15 Eryri fydd yn dathlu ei phen-blwydd ar Fedi 13.

DRAENOG



'Sgwn i pam fod cymaint o bobl yn mynd i'r Clegir i olchi eu ceir? Ydi dŵr afonydd Clegir yn burach? Ynteu a oes rheswm arall?

YN EISIAU

GOHEBYDD NEWYDDION PENTREF I LANRUG

Cysyllter â Mrs Eirlys Pierce neu unrhyw un o'r golygyddion.

- Jig i Atgyweirio Cyrrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD
GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562



Y Frenhines a'i gosgordd ...

BETHEL

... Llew llechan a'i ffrindiau



Do, fe fu'r sioc yn ormod i'r creadur hwn. Awgrymodd rhywun fod yr haul yn ceisio gwenu!



Dwy ddynas nobl yn arwain y band ...

LLANRUG

... Diwrnod i VE ddangos fy ngwisg ffansi



Padarn Lake Hotel

Perchnogion
Terry a Val Skilki
**STRYD FAWR
LLANBERIS
870260**

- Beth am bryd o fwyd yn ein Bar Lolfa newydd, hardd a chyfforddus, sydd ar agor amser cinio a fin nos, saith diwrnod yr wythnos.
- Yn ein ystafell fwyta hefyd cewch ddewis rhagorol o brydau Table d'Hôte ac À la Carte. Croesewir plant.
- Mae ein lloffttydd newydd gael eu hadnewyddu'n foethus, llawer gyda bathrwm, teledu lliw ac offer gwneud te a choffi. Gellir gweld y llyn neu'r mynyddoedd o'r rhan fwyaf ohonynt.
- Ceir adloniant yn ein Bar Lolfa bob nos Sul, yn aml yn cynnwys talentau Cymraeg lleol.



Ar gyfer pob parti . . .
I ddathlu pob achlysur . . .



Gwesty'r Foelas

(Richard a Meirwen
Thomas)

Llanrug

Ffôn: CAERNARFON 4652

Y CARNIFALAU



Dipyn o amrywiaeth da-da ...

CWM-Y-GLO

... and ble 'roedd Henri??



Y bagiau sbwriel yn cael eu camdrin gan bïod ...

PENISARWAUN

Ymarfer yn yr haf at y Steddfod ffug??



**SIMNEIAU GWael? CRACIAU?
MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?**

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAF LUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376



STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis **871210**

Crefftau llechi: arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

Arddangosfa o hen luniau chwarel.

HEFYD YN SIOP

FFYN A CHERRIG

STRYD FAWR, LLANBERIS

GWYNETH ROBERTS

(Siop E. Wilson Hughes gynt)

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,
Pasteiod, Teisennau Hufen,
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, Glanrafon, 872275.

DIOLCH: Dymuna Dylan a Catherine ddiolch o galon i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r llw cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

Dymuna Susan ac Alan, Talgwynedd ddiolch i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion, arian a'r llw cardiau a dderbyniasant ar enedigaeth eu merch fach, Dawn.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Susan ac Alan, Talgwynedd ar enedigaeth eu merch fach, Dawn Lianne, hefyd i Mr Ifan Owen am fod yn daid am y tro cyntaf.

MARWOLAETH: Bu farw Mr John Ellis yn 73 oed mewn ysbyty yng Nghaergrawnt ar Awst 3ydd. Brodor o'r Cwm ydoedd yn fab i'r ddiweddar Mrs Jennie Ellis, Groeslon. Ymgartrefodd am flynyddoedd yng Nghaergrawnt. Collodd ei briod ac aeth ei iechyd yntau'n fregys a bu raid iddo ymgartrefu gyda'i ferch yng Nghaergrawnt. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'i ferch Betty, mab yng nghyfraith Arthur a'i wyres Linda yn eu profedigaeth.

ADREF O'R YSBYTY: Yn ystod yr wythnosau diweddar bu Mrs Peggy Rowlands, Talafon, Mrs Margaret Williams, Nant Forgan, Mr Llew Hughes, Hyfrydle a Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd dan driniaeth yn yr ysbyty. Anfonwn ein cofion atynt gan hyderu eu bod wedi gwella erbyn hyn.

Anfonwn ein cofion hefyd at Mr Eurwyn Jones, Tawel Lan, Llanberis (cyn-brifathro'r ysgol). Dymunwn wellhad buan iddo.

DIOLCH: Dymuna Mrs Glenys Pritchard, Bryn Gwynedd ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

WYTHNOS Y CARNIFAL: Cynhaliwyd wythnos y carnifal ar Orffennaf 8-13 a bu'n llwyddiannus iawn eto eleni.

Nos Lun cynhaliwyd noson Bingo ac enillwyd y raffl gan: 1. Nwyddau Cegin: Mrs Jean Hughes, 2. Bryn Gro; 2. Ceffyl a Throl: Sandra Hughes, 10 Dôl Afon; 3. Tebot: Nia Wyn Hughes, 17 Dôl Afon.

Nos Fawrth cynhaliwyd disco i'r plant yn y Ganolfan Gymdeithasol gyda Mr Peter Welsby, Brynrefail. Enillwyd y raffl gan: 1. Veronica Williams, Glanbogelyn; 2. Glyn Price, Tan-y-graig; 3. Karen Williams, Glanbogelyn.

Trefnwyd Helfa Drysor nos Fercher gan Mrs Avril Jones a Mr Dafydd Price a'r enillwyr oedd: 1. Mrs Elizabeth Roberts, Llanrug; 2. Gwilym Williams, Cwm-y-glo. Enillwyd y raffl gan: 1. Sieri: Morfydd Roberts; 2. Gwin: Veronica Owen.

Cynhaliwyd cystadleuaeth dartiau yng Ngwesty Snowdon nos lau a'r enillwyr oedd: 1. Hugh Owen, Caernarfon, 2. G.P. Owen, 3. Michael J. Williams a Steven Price. Enillwyd y tlysau am sgôr 180 gan Eifion Jones a G.P. Owen.

Cyflwynwyd y tlysau i'r enillwyr gan Dave Powell, cyn-bêl-droediwr Rhyngwladol Cymru.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i Mr a Mrs Hugh Owen am baratoi lluniaeth yn rhad ac am ddim i'r cystadleuwyr ac i bawb a gymerodd ran yn y gystadleuaeth.

Ar gyfer nos Wener yr oedd Mabolgampau wedi ei drefnu ond oherwydd y tywydd garw bu'n rhaid ei ohirio hyd fis Medi.

Dydd Sadwrn, arweiniwyd yr orymdaith gan Seindorf Arian Llanrug. Agorwyd y Carnifal gan Mr Eurwyn Jones, Llanberis. Y beirniaid oedd Mr Eurwyn Jones a Mr a Mrs Harries Thomas, Caernarfon. Ni allai Mrs Eurwyn Jones na Mr a Mrs Harvey Lewis, Bontnewydd fod yn bresennol oherwydd gwaelled. M.S. y diwrnod oedd Mr Lloyd Owen a'r wraig wadd oedd Miss Delyth Williams.

Canlyniadau'r Wsg Ffansi oedd: **Dan 5 oed unrhyw wsg:** 1. Gwenan Roberts a Sarah Wager, 2. Susanne Fildes a Kevin Williams, 3. Glyn Price. **Dan 8 oed, unrhyw wsg, grŵp 1:** 1. Donna Williams, 2. Elen Roberts, 3. David Wager. **Dan 8 oed, grŵp 2:** 1. Terry Williams, 2. Delyth Morris, 3. Sara Roberts, Martin Parry, Clive Fildes. **8-12 oed, unrhyw wsg, grŵp 1:** 1. Carys Williams a Cheryl Hughes, 2. Judith Jones, 3. Owain Gwyn. **Grŵp 2:** 1. Irfon Jones, 2. William Wardle, 3. Dafydd Williams. **Grŵp 3:** 1. Gareth Price, 2. David Foulkes, 3. Mark Roberts. **12-15 oed, unrhyw wsg:** 1. Catrin Gwyn, 2. Karen Foulkes a Karen Williams, 3. Terry Williams. **Unrhyw wsg Hysbysebu:** 1. Fred Hannes, 2. Williams Wardle. **Y wsg rataf:** 1. 1. Kevin Williams, 2. Delyth Morris. **Unrhyw Gymeriad Adnabyddus:** 1. Owain Gwyn, 2. Catrin Gwyn. **Y Pâr Gorau:** 1. 1. Alison Jones a Meinir Owen, 2. Karen Foulkes a Karen Williams; Catrin Gwyn ac Owain Gwyn. **Beic wedi ei addurno:** 1. Sara Roberts a Mark Roberts. Enillwyr Raffl y Stondinau: Undeb y Mamau (Teisen) - Myfanwy Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-glo. Pobl y Cwm (Bocs Nwyddau) Mrs Nellie M. Owen, Glandŵr, Cwm-y-glo, 2. (Cacen) Mrs E. Jones, Seiont House, Cwm-y-glo. Pwyllgor Rhieni ac Athrawon (Tapestri) Myfanwy Roberts, Bod Gwilym.

Enillwyr y raffl fawr: 1. Elizabeth Hughes, 17 Dôl Afon, 2. Nigel Rowlands, Talafon, 3. Ruth Jones,

Meillionen, 4. Carys Jones, Glan-y-don, 5. Dora Roberts, Argraig, 6. Carol, 15 Dôl Afon, 7. Heather, 165 Glyn Protective Clothing, Llanberis, 8. Owain Gwyn, Min-y-nant, 9. Idwal Williams, Elidir View, 10. Ruth Jones, Meillionen, 11. Owain Rhys, Llanbedrgoch.

Rhif Iecus y rhaglenni: rhif 7 - Mr William Lloyd Owen, 3 Maes Gerddi.

Dymuna Pwyllgor y Carnifal ddiolch i bawb am eu cefnogaeth mewn unrhyw fodd i lwyddiant y carnifal, hefyd anfonwn ein cofion at Mrs Mary Lewis a Mrs Hannah Jones gan fawr obeithio eu bod wedi cael llwyr wellhad erbyn hyn.

CLWB POBL Y CWM: Trefnwyd tymor y gaeaf gyda gwibdaith i Landudno, ac wedi mwynhau siopa a seibiant ar y traeth, cymerwyd taith adref trwy Llanrwst, ac aros ym Metws-y-coed am baned cyn ymadael am Fwch Llanberis.

Bydd cyfarfod nesaf o'r clwb ddydd lau Medi 19, pryd gwneir trefniadau gogyfer y tymor newydd. Rydym angen aelodau newydd a hoffem roi gwahoddiad a chroeso iddynt ymuno â'r clwb ar ddechrau'r tymor.

PRIODAS: Lennon - Rowlands: Dydd Sadwrn, Awst 18, 1985 gyda'r Parch Alun J. Hawkins yn gwasanaethu priodwyd Ruth, merch Mr a Mrs Eddie Lennon, Plas Tirion ag leuan, mab Mr a Mrs Russell Rowlands, Talafon, Cwm-y-glo. Y morynion oedd Catrin Lennon, Sian Parry, Eleri Ellis a Bethan Parry a'r gwas oedd Mr Derek Roberts. Yr organyddion oedd Mrs Annette Bryn Parri a Mr W. Huxley Thomas. Daeth tua chant o gyfeillion ynghyd i westy Victoria i ddymuno'n dda i'r pâr ifanc.

Byddant yn ymgartrefu yn Cerddin, 11 Afon Rhos, Llanrug.

Yn ystod y gwasanaeth cafwyd dwy eitem gan Rhian Owen a Sian Gibson. Dymunir iddynt bob hapusrwydd a bendith.

DYMUNIADAU DA: Llongyfarchion i holl blant y pentref yn eu llwyddiant yn eu harholiadau eleni a phob dymuniad da i'r rhai sydd yn dechrau yn eu swyddi newydd.

YMDDEOL O'R CYNGOR: Newyddion trist i Gyngor Cymuned Llanrug yn eu cyfarfod ddiwedd mis Mehefin oedd derbyn ymddiswyddiad y Cyngorydd Gwyneth Chick a fu'n aelod ers 15 mlynedd. Yn ystod y cyfnod cynnar hwnnw hi oedd yr unig ferch oedd yn aelod, ond ni lesteiriodd hynny ddim ar ei dycnwch yn ymladd dros hawliau'r Cwm. Yn sicr bydd ei hymddiswyddiad yn golled i'r Cyngor ac yn fwy byth i bentref Cwm-y-glo. Bu'n un o'r cynrychiolwyr selocaf a brwdfrydig yn ystod ei thymor a thalwyd teyrnged uchel iddi gan Gadeirydd presennol y Cyngor, Mr R.T. Pritchard. Mae'n siŵr na olyga ei hymddiswyddiad unrhyw leihad yn weithgarwch Mrs Chick i sicrhau dyfodol diwylliannol a llewyrchus i'r pentref sydd mor agos at ei chalon. Dymunir iechyd a hapusrwydd iddi yn y dyfodol, gan oll o'i chyd-gynghorwyr.

NANT PERIS

Gohebydd: Mrs J.E. Elis, 8 Glanrafon (870733)

PRIODAS: Ddydd Sadwrn, Awst 10 yn Eglwys Peris Sant â'r Parch Alun Hawkins yn gweinyddu, priodwyd Ann Caroline, merch ieuengaf Mrs Nancy Closs Williams a'r diweddar Mr W.J. Williams gynt o Tan-y-bryn â James Cumberton o Iwerddon. Cyflwynwyd y briodferch i'w gŵr gan ei brawd, Owen Wyn. Y forwyn oedd Mrs Wendy Jones, chwaer, a Clare, Sara a Ceri, nithoedd. Y gwas oedd: Christopher Dakosta, ffrind y priodfab. Cafwyd y brecwast priodas yn y Bistro Llanberis. Treuliwyd y mis mael yn creydrô'r Cyfandir. Byddant yn cartrefu yn Gabon, Gorllewin Affrica am flwyddyn lle mae'r priodfab yn gweithio. Dymunir yn dda iddynt yn eu bywyd newydd.

DIOLCH: Dymuna Owen Tudur, Tan-y-bryn ddiolch yn fawr i'w ffrindiau a theulu am y llw cardiau ac anrhegion a dderbyniodd pan yn Ysbyty Gwynedd ar ôl triniaeth. Rydym yn falch ei fod wedi gwella erbyn hyn ac yn mwynhau ei wyliau ysgol.

DAMWAIN: Drwg gennym ddeall fod Mrs Roberts, 3 Tan-y-bryn wedi cael damwain yn ddiweddar, a hefyd Alan Wyn, Llys Awel, wedi torri ei fraich wrth chwarae. Dymunir adferiad buan i'r ddau.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Mrs Mair Searrell Jones, sydd yn byw yn Bodffordd, Ynys Môn yn awr, ar ennill gradd B.Ed. ym Mhrifysgol Bangor.

Hefyd llongyfarchion i Niel Price, Glyn Peris ar fod yn llwyddiannus yn arholiad Lefel A. Bydd Niel yn cychwyn ar ei yrfa golegol ddechrau'r tymor a dymunir pob llwyddiant iddo eto ymlaen.

Y CARNIFAL: Er gwaetha'r tywydd anffafriol eto eleni, cafwyd noson lewyrchus a llwyddiannus a gwnaethpwyd elw sylweddol hefyd. Ein diolch cywiraf i bawb a'n cefnogodd mor hael, yn arbennig y beirniaid sef Major a Mrs Maslen-Jones, Gelert, Mr J.H. Hughes, a'r Frenhines Hanna a'i gosgordd, heb anghofio cyfraniad amhrisiadwy Dei Tomos, yn ogystal â Seindorf Arian Llanberis. Roedd y canlyniadau fel a ganlyn:

Gwsg ffansi dan 5 oed: 1. Sarah, 2. Aled a Williams. (Agored): 1. Claudette, 2. Rheon. 5-8 (Nant): 1. Sarah Closs Davies. (Agored): 1. Jessica, 2. Jason a Sarah, 3. Rhian a Meinir. 8-11 (Nant): 1. Llinos Haf, 2. Eryl Ogwen ac Ann. (Agored): 1. Mark, 2. Llinos Wyn a Dylan. 11-18 (Nant): Guides y dyfodol.

Oedolion: 1. Rhian, 2. Eurwyn, 3. Dilys ac Eiddwen, 4. Arfon Phillips.

Babi bochgoch: 1. Cefin Davies, 2. Dafydd a Wili.

Anifail anwes: Shep.

Gliniau gwlanog: Carys.

Y raffl: 1. Mrs Arthur Evans, potel o win; 2. Ifor Jones, potel o win; 3. Kevin Prydderch, potel o win; 4. John Ifor Jones, aftershawe; 5. Rhif 311; 6. 3 Blaen y Ddôl, ffrâm; 7. Mrs Marian Pritchard, dysgl wydr; 8. 1 Maes Derlwyn, 'oven gloves'; 9. Aled, 40 Dôl Elidir, bag siopio; 10. Dylan Griffith, Chwael Penrhyn, matiau brwdd; 11. Mrs E. Jones, Canolfan yr Heddlu, Caernarfon, basged ffrwythau rhoddedig gan C. Parry, Llanberis; 12. Elin Roberts, dol Gymreig rhoddedig gan Stesion Wyddfa; 13. Helen, 41 Maes Padarn, cloc llechen rhoddedig gan Stesion Wyddfa; 14. John Ifor, Beudy Mawr, cyw iâr.

Mabolgampau: Dan 5. 1. Eluned; 5-8: (genethod), 1. Sandra Nesbitt, (bechgyn): 1. Mark, 8-11: Linda ac Annette, Bechgyn: 1. Melfyn a Mathew. 11-18 genethod: 1. Helen Mai. Bechgyn: 1. Aled a Huw. Ras Deirgoes (genethod): Sandra ac Elaine, Llinos Wyn ac Annette. (bechgyn): Andrew ac Aled. (genethod hyn): Helen Mai ac Alison. Ras gyfnewid: genethod: Lynn, Bethan Jones a Bethan Owen. (bechgyn): Cai, Huw a Marc.

Cystadleuaeth pwysau'r oen: 1. Keith Bingham.

Enillwyd raffl y darlun a wnaed ac a roddwyd gan Selwyn Davies, Tan y Bryn gan Nonn Evans, Cynlas.

Rholio casgen: Darryl Griffith, Paul Prydderch, Dylan, John. (Genethod): Eryl Ogwen, Charmagne.

Cawsom wledd o wyllo Emlyn a'i ddawnsuwr Morris yn ychwanegu eu dawn unigryw arbennig i'r noson. Diolch iddynt am fentro!

GWASANAETH TRIN GWALLT YN EICH CARTREF

Linda

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

CAERNARFON 3674

i drefnu amser



CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

TEGID

PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR 291

Hefyd ail-osod carpedi

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

YSGOL YRRU OFALUS

* Gwasanaeth 7 diwnod

* O ddrws i ddrws

* Control Deuol

D

L

PRITCHARD


43 glanffynnon

LLANRUG

CAERNARFON 5112

Cymeradwyir gan yr Adran Drafnidiaeth

OEDDECH CHI YNO – YN YSTOD YR HAF?



CADWYNI

Uchod: o amgylch yr Wyddfa i godi arian tuag at Ysbyty Gwynedd.



Kevin Ratcliffe a Neville Southall o dîm Everton a Chymru yn cychwyn Cadwyn yr Wyddfa yn Llanberis.



O amgylch Pafiliwn yr Eisteddfod yn y Rhyl fel arwydd o heddwch.



Y brotest fawr yng Nghaernarfon ynglŷn â dyfarniad y triwbiwnlys ym Mae Colwyn.



Siomedig oedd nifer y rhai a gefnogodd y gadwyn. Tybed ble mae pawb erbyn cyrraedd y Nant?

APÊL

Erbyn rhifyn nesaf yr 'Eco' bydd y gaeaf ar ein gwarthaf (neu fe gawn haf hwyr – gobeithiol!). Dyma'r misoedd pan fyddwch chi ddarllenwyr yn edrych ymlaen am 'stwyff darllen' yn y papur. Dros y blyneddau cawsom nifer o gyfresi o straeon, atgofion, ysgrifau, ac yn y blaen. Diolch i'r awduron rheini am fynd i'r drafferth o roi pin ar bapur ac anfon eu cynnyrch i ni.

Apeliwn y mis hwn am 'chwaneg o awduron – mae'r baich yn ormod i'r 'chydig ffyddlon. Felly beth amdani? Mae angen llawer mwy o **erthyglau cyfoes** arnom – eich barn ar wahanol agweddau o fywyd heddiw – problem diweithdra; y pwysau ar yr iaith Gymraeg; diwydiant twristiaeth.

Anfonwch eich cyfraniadau rhag blaen i'r Golygydd Erthyglau – neu cysylltwch ag ef ar y ffôn.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

ATGOFION PLENTYNDOD

gan Elizabeth Edwards

Ganwyd fi yn y Waunfawr, mewn tyddyn bychan o'r enw Pen y Bryn. Saif hwn ar ben yr allt sydd yn arwain o gefn capel Bethel, neu'r 'Capel Mawr' fel yr adwaenid ef. Nid oedd polion y trydan yn cyrraedd hyd yno, nac ychwaith bibellau dŵr y Cyngor hyd yn oed mor ddiweddar â 1942, pan werthodd mam y lle ar ôl marw fy nhad.

Mewn tŷ bychan yn ein hymyl roedd dwy chwaer i fy mam yn byw. Bu'r ieuengaf o'r ddwy – Anti Maggie – yn gorwedd yn y gwely am ugain mlynedd gydag anhwylder ar ei chefn. Y peth cyntaf a gofias oedd bod yn y gegin yn Tŷ Hen a gwrando ar y cloc mawr yn tician. Roedd popty mawr wrth ochr y grât, ac Anti Mary yn pobi bara a'u crasu yn y popty mawr. Yn union wedyn dechreuodd J. Awstin Jones fusnes pobydd yn y Waun, gan fynd o gwmpas y pentref gyda cheffyl a chert i werthu bara a phethau eraill. Pan ddeuai o gwmpas ar ddydd Gwener, prynai mam fynsen neu deisen bwdin i mi, ac mor flasus fyddent.

Gan ein bod yn byw mor agos i'r capel yr oeddwn yn mynd i'r Ysgol Sul yn llaw Lizzie Mary, Tan y Fron, yn fychan iawn. Rhoddai mam siars bendant i gadw'n ddigon pell oddi wrth y grisiau oedd yn arwain i'r cwt twymo, rhag ofn i mi syrthio i lawr yno.

Mae un Sul wedi aros yn glir yn fy ngof hyd y dydd heddiw. Y bore Sul yma roedd fy nhad wedi mynd â mi gydag ef i'r capel, wn i ddim ai hwn oedd y tro cyntaf ai peidio. Roedd y gwasanaeth yn hir, a minnau wedi

blino eistedd yn llonydd. Roedd pren o dan y sêl yn cyrraedd o un pen iddi i'r llall, ac un pen wedi dod yn rhydd. Roeddwn wedi pwyso hwn i lawr gyda'm troed, a pheri iddo roi clec. Dyma fy nhad yn dweud wrthyf i beidio "neu gei di weld beth gei di." Roedd y demtasiwn i beidio cyffwrdd y pren yn ormod, a thoc dyma roi fy nhroed arno wedyn, i gael gweld beth wnâi fy nhad. 'Ddywedodd o yr un gair, dim ond fy nghario allan o dan ei gesail, ac adre â ni. Raid i mi ddim dweud fy mod wedi cael profi blas y wialen fedw am hyn.

Nid oeddwn am gael aros adref o'r capel am i mi gam-fyhyafio, a'r Sul canlynol aeth fy nhad â mi yno wedyn, gan fy siarsio i fod yn eneth dda, "neu fydd pawb yn edrych arnat ti." Y tro hwn dyma fynd â mi i'n sêl ni yn y galeri – yn union gyferbyn â'r pulpud. Roedd organ fawr yn y capel wrth fy ymyl, a dyna bleser a gawn yn eistedd fel llygoden ym mhen draw'r sêl yn gwylio Gwilym Edwards neu Mrs Davies yn canu'r organ gyda thraed a dwylo.

Gan fod tipyn o ffordd o Ben y Bryn i ysgol y Waun roeddwn i wedi

troi pump oed yn mynd yno. Miss Williams oedd yr athrawes gyda "Miss Lynne" ar y cychwyn yn 'stiwdant' yn helpu i'n dysgu. Miss Elinor Williams oedd hi, ac ar ei hôl daeth Miss Nellie Roberts, (Mrs John Williams, Betws Garmon yn awr). Dim ond blwyddyn fûm i yn y dosbarth yma na chefais fy symud at Miss Williams, Tanycoed, oedd yn dysgu safon un a dau. Gyda glo y twymid yr ysgol yn y cyfnod hwn a thân mawr mewn grât hen ffasiwn, a 'fireguard' fawr o'i flaen. Dyma'r drefn ymhob dosbarth.

Rhyw fore ym mis Ionawr, a minnau'n saith oed, roeddwn yn chwarae ar fuarth yr ysgol pan euthum i yn erbyn un o'r genethod hŷn, ac i lawr â mi. Medrais ymgripio i mewn i'r ysgol gan afael yn y wal. Ni feddyliai'r prifathro fod rhyw lawer wedi digwydd i mi, ond anfonodd fi adref gyda phedair o enethod tua 14 oed – dwy i'm cario ran o'r ffordd ac yna'r ddwy arall – yr holl ffordd i Ben y Bryn. Mae'n siŵr fod breichiau'r genethod yn brifo drannoeth! Aeth mam i chwilio am y meddyg, Dr Idris Jones oedd yn y Waun ar y pryd. Daeth i fyny i'n tŷ ni, ac wedi fy archwilio dywedodd ei fod yn ofni fy mod wedi torri fy nghoes, a bod yn rhaid mynd â mi i Ysbyty'r Bwth yn y dref. Newydd ddysgu driefio yr oedd y Doctor, ac yn ofni mentro'r allt

(parhad ar dud 18)

DEINIOLLEN

ENILLWYR CENEDLAETHOL

GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

Y SEINDORF: Prysor iawn oedd hanes y seindorf yn ystod y ddau fis diwethaf gyda llawer i garnifal, cyngerdd gyda chôr y Penrhyn yng Ngholeg Bangor ar Orffennaf 24, cyngerdd gyda chôr Caernarfon yn y castell ar y 25ain a chyngerdd arall yn Ninbych ar Awst 9.

Cynhaliwyd Helfa Drysor nos Sadwrn Awst 4 gyda dros hanner cant o bobl yn cymryd rhan. Daeth y daith i ben yng Ngwesty Plas Tan Dinas. Yr enillwyr oedd: 1. David Wyn Williams, 2. Alwyn Williams, 3. Goronwy Morris, 4. Esther Ann Williams, 5. Meirion Jones.

Diolch i Mr Eifion Hughes am reidio beic am dros 100 milltir heb stopio i godi arian i'r Band bach.

Y nod uchaf eleni oedd yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyl. Pan oedd y seindorf yn ymarfer un noson ar gyfer yr Eisteddfod cafwyd ymweliad gan bedwar dyn pwysig ym myd y bandiau pres sef Mr Jim Shepherd gynt o fand Black Dyher ond yn awr yn arwain band ei hun, Mr Robert Childs, Bridgehouse, Postie band Nicols, Mr Gordon Higginbottom, un o chwaraewyr corn gorau'r wlad a Mr David James arweinydd band Gumthorps Colliery ond yn enedigol o Sciwen De Cymru.

Yn yr Eisteddfod cafwyd un o berfformiadau gorau a glywyd gan y band ers rhai blynyddoedd - yr oedd 10 pwynt rhyngddynt â'r ail fand. Llongyfarchiadau mawr i'r seindorf am gadw enw'r ardal ar y brig unwaith eto.

Y canlyniadau llawn: 1. Deiniolen, 2. Porthaethwy, 3. Band yr Oakley, Blaenau Ffestiniog.

Enillwyr Clwb 200 y Seindorf:
1. £25: Mr Gwilym Thomas, Penisarwaun, 2. £15: Mr Colin Williams, Stryd Fawr, 3. £5: Mrs Helen Roberts, Chester House. Gwobrau ychwanegol: £15: Mrs G. Davies, Tai Caradog, £15: Mrs M. Williams, 6 Ffordd Deiniol.

Diolch yn fawr i Mr Howie Lewis am redeg y clwb 200 am ddwy flynedd, bydd yn cael ei olynu gan Mr David Evans, Stryd Gwledfa.

Y BADAU ACHUB: Yn ddiweddar fe gasglwyd y swm o £53.46 trwy werthu baneri tuag at y Badau Achub (RNLI). Y casglwyr oedd: Miss Nicola Marzelus a Miss Cheryl Davies, £12.50; Mrs N. Price a Mrs Phyllis Jones, £6.40; Miss Iona Wyn Williams (Dinorwig a'r Fachwen): £13.87; Mrs D. Davies £2.43; Mrs E. Hughes £3.63; Miss E. Hughes £6.15; Mrs E. Price £12.67.

Roedd hyn yn cynorthwyo i wneud cyfanswm Cylch Caernarfon yn £1,402.20. Diolch i bawb am eu



hymdrech.

DYMUNIADAU GORAU i fy ewythr, Mr Thomas David Hughes, Prenteg, Deiniolen ar ddatlu ei ben-blwydd yn 80 oed ar Fedi 3. Oddi wrth, Kathleen.

MARWOLAETH: Dydd Mercher, Awst 7 yn frawychus o sydyn yn ei gartref, 12 Rhes Faenol bu farw Mr John Morris Williams, yn 39 mlwydd oed.

Ganwyd ef yn Ninorwig ac roedd yn adnabyddus fel John Chwarel Goch ac hefyd fel John Taxis ar ôl iddo ddechrau busnes Taxis - Deiniolen Cabs.

Bu'r angladd preifat yn y cartref, o dan ofal Deon Richard Jones, Y Felinheli a chyhoeddus ym mynwent Llandinorwig ddydd Sadwrn Awst 10.

Y cludwyr oedd y Mri E. Williams, H. Williams, V. Williams, M. Parry (cefnodydd), R. Williams a D. Jones (brodyr-yng-nghyfraith).

Y teulu agosaf oedd: Mrs Irene Williams (gweddw), Carys, Andrea a John Andrew (plant), Mrs Nel Williams (mam), Mr a Mrs P. Russell, Mr a Mrs R. Williams, Miss R. Williams, Mr a Mrs G. Williams (brodyr a chwiorydd), Mrs J. Williams, Mrs Ellen Close (mam yng nghyfraith), Mr a Mrs D. Jones, Mr a Mrs V. Griffith, Mr a Mrs C. Williams, Mr a Mrs M. Roberts, Mr a Mrs S. Owen, ynghyd â llawer o berthnasau a chyfeillion.

Yn y tŷ roedd Mrs C. Williams a Mrs V. Williams.

Dymuna Mrs Irene Williams a'r teulu, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth lem o golli gŵr a thad annwyl. Hefyd diolch yn fawr iawn

am y llu cardiau a'r blodau.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Orffennaf 1af dan arweiniad y llywydd Mrs Eirlys Lloyd Jones. Darlennodd Mrs Jones y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Miss Sidney Roberts, Caernarfon. Cafwyd noson ddiffr iawn, gyda Miss Roberts yn dangos i ni sut i osod blodau. Diolchwyd iddi gan Miss Jean Mallen. Enillwyd y raffl gan Miss Nancy Thomas. Rhoddwyd y te gan Mrs J. Evelyn Williams a Mrs Beti Wyn Davies.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 2il pryd y bydd Mrs J. Eirlys Williams yn trafod y cyfarfod cyffredinol yn Llundain.

PLAID CYMRU: Cyfarfu aelodau pwyllgor y gangen nos Lun, 8 Gorffennaf yn y Ganolfan. Aethpwyd ati i lunio rhaglen gweithgareddau ar gyfer 1985-6.

Nos Sadwrn, 13 Gorffennaf cymerodd oddeutu 40 o bobl ran yn yr helfa drysor flynyddol. Daeth y gyrrwyr i ben eu taith yng ngwesty Glan'rafon, Benllech. Yr enillwyr oedd: 1. Hefin Goronwy Jones, 2. Mr Irfon Price Morris, 3. Miss Marina Bryn Roberts.

Enillydd y wobwr 'booby' oedd Mr John Jones. Yn ystod y misoedd Gorffennaf ac Awst, aethpwyd ati o ddiffrif i gasglu'r aelodaeth. Cyfarfu'r pwyllgor eto ar 22 Gorffennaf. Enillwyr Clwb Cant mis Gorffennaf oed: £10: Rhif 14, Lona Lewis, 36 Rhydfadog, £8.50, Rhif 65, Jean P. Jones, Blaen y Cae. Enillwyr mis Awst oedd: £10: Rhif 16, Menna Wyn Jones, 37 Glanffynnon Llanrug, £8.50: Rhif 45, Awen Roberts, 26 Pentre Helen.

DIOLCH: Dymuna Ellis Wyn a Margaret, 6 Ffordd Deiniol ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am yr anrhegion gwerthfawr a'r llu cardiau a dderbyniasant ar achlysur eu priodas arian. Diolch arbennig i deulu Cae'r Siddi, Llanddeiniolen am drefnu gwledd ardderchog mor annisgwyl. Dymuna Debbie a Philip, 35 Rhydfadog ddiolch o galon i'w perthnasau, cymdogion a ffrindiau am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd pan oedd yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gobowen.

Dymuna Miss Ceri Williams, 12 Ffordd Deiniol ddiolch i'r teulu oll, cymdogion a ffrindiau am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniodd pan oedd yn derbyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Gobowen.

Dymuna Miss Kathleen J. Jones, Prenteg ddiolch i'w theulu, ffrindiau, a chymdogion am yr holl garedigrwydd a dderbyniodd yn ystod ei harhosiad yn Ysbyty Gwynedd. Diolch am y rhoddion, cardiau a llythyrau, hefyd y blodau. Diolch yn arbennig i blant bach Dosbarth Meithrin a Dosbarth 3 Ysgol Gwaun Gynfi. Hefyd i staff Wardiau Beuno a Phrysor ac i'r meddygon a'r meddyg teulu. Dymuna gydnabod yn ddiolchgar ymweliad y Parch a Mrs Ifor L. Williams, Penuel, Bangor a'r Parch Trefor Lewis.

YR YSGOL FEITHRIN: Gorffennaf 7-12: Cynhaliwyd nifer o weithgareddau yn y pentref yn ystod yr wythnos a gwnaed elw o £196 i gronfa'r Ysgol Feithrin.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd ac yn enwedig i holl bobl yr ardal am eu cefnogaeth.

J.M. JONES A'I FAB

GWAITH CERRIG BEDDAU

A THREFNWYR ANGLADDAU

DEINIOLLEN

Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)

Y FELINHELI 670124 (Nos)



**I DRWSIO'R
TELEDU
NEU'R
RADIO
FFONIWCH...**

**Osmond
W. Shaw**
DEINIOLLEN

**Ffôn:
LLANBERIS 870545**
Gwasanaeth 'run diwrnod
os ffoniwch cyn 10 o'r
gloch y bore

**IEUAN
WILLIAMS**

Glanffrwd
DEINIOLLEN
Llanberis 870484

- * Bysus o 12 i 53 sedd
- * Teithiau Lleol a Thramor
- * Gwaith Contract
- * Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

DEINIOLLEN

(Parhad)

PRIODASAU: Ar Orffennaf 27 yn Eglwys Grist Llandinorwig gyda'r Parch Aled Edwards yn gweinyddu priodwyd Karen Ann, merch Mr a Mrs R.O. Williams, Arvon House, ag Andrew Hirst, mab Mr a Mrs J. Hirst o Huddersfield, Swydd Efrog.

Y gwas oedd Tony Johnson (ffrind) a'r morynion Mrs Marion Childs, Mrs Nia Morris, Mrs Sarah Kerr. Cafwyd y wledd briodas yng Ngwesty Victoria Llanberis. Mae'r pâr ifanc am gartrefu'n Upton Pontefract.

Dymuna Karen ac Andrew ddiolch i'w holl deulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu priodas.

Dydd Sadwrn, Awst 3 yn Eglwys Crist Llandinorwig, priodwyd Philip, mab Mr a Mrs John Guy, 65 Glan Seiont, Caernarfon â Debbie, merch Mr a Mrs Fred Thomas, 35 Rhydfadog, Deiniolen.

Y gwas priodas oedd David Owen, Llanberis a'r morynion Beverly, Paula a Louise, Deiniolen a Theresa, Bryste a'r macwy oedd Paul Anthony, Caernarfon.

Cynhaliwyd y wledd briodas yng Ngwesty Plas y Bryn, Bontnewydd. Gwnaethpwyd y deisen briodas gan ewythr Debbie, sef Mr Ronald Powell, Llundain.

LLONGYFARCHIADAU: i Mr Gareth Lloyd Parry, B.A., mab Mrs R. Parry Jones a llys-fab Mr Edgar Jones, Y Becws, ar gael ei benodi'n Ddirprwy Brifathro Ysgol Gynradd Moelfre, Sir Fôn.

Derbyniodd Gareth radd B.A. yn y Gymraeg gydag Anrhydedd yng Ngholeg Prifysgol Llanbedr Pont Steffan ac aeth ymlaen i gwblhau cwrs Tystysgrif Athro yng Ngholeg Prifysgol Aberystwyth cyn ei benodi'n athro yn ysgol Goronwy Owen, Benllech gyda Mr Dewi Jones yn brifathro.

Yn ddiweddar dyfarnwyd tystysgrif gyda rhagoriaeth iddo am gyflwyno iaith yn yr ysgol gynradd ac yn dilyn cwrs arall gall ddefnyddio'r cyfrifiadu'r yn yr ysgol.

Mae'n ysgrifennydd i Gymdeithas Chwaraeon Ysgolion Gynradd Sir Fôn ac i glwb pêl-droed Bro Goronwy. Ef sydd yn gyfrifol am dudalen y chwaraeon y papur bro - Yr Arwydd - ac y mae'n gwneud llawer o waith gyda'r Urdd ac yn dysgu Cymraeg i oedolion.

Pob lwc iddo yn ei swydd newydd.

Y GUIDES A'R BROWNIES: Mae'r flwyddyn hon yn flwyddyn arbennig iawn i'r Guides a'r Brownies. Maent yn dathlu deng mlynedd ers dechrau'r mudiad yn y pentref, ac yn ogystal yn dathlu 75 mlwydd y prif fudiad drwy'r byd.

Dechreuwyd y mudiad yn y pentref ar Fehefin 8, 1975 gan Jean Shaw, Hannah M. Roberts, Gloria Thomas, Yvonne Hughes a Margaret Roberts.

EIFION YN CYCHWYN EI DAITH



Yn ystod y blynyddoedd canlynol daeth Joyce Jones, Iris Owen a Rhian Jones ymlaen i roi cymorth.

Ar hyn o bryd mae'r mudiadau yn dal i fod yn gryf a'r swyddogion yw Hilda Parry, Elen Williams (Brownies), a Gloria Thomas, Yvonne Hughes a Pam Hughes (Guides).

I ddathlu'r flwyddyn bwysig hon, cynhaliwyd wythnos o werthiant yn y Winllan a gwnaed £50 o elw at ddeunydd meddygol i'r Clinig yn Neiniolen. Enillwyd y raffl gan Mr Tom Williams, 1 Rhydfadog. Diolch i bawb am eu cymorth.

PRYSURDEB ANNETTE

Yn ystod misoedd Awst a Medi, bydd Annette yn cymryd rhan mewn cwis cerddorol o'r enw 'Cythraul Canu' ar y teledu. Ym mis Medi hefyd yr ymddengys Annette ynghyd â'i chwaer Marina ar raglen yng nghyfres deledu newydd Rosalind a Myrddin.

Yna, ddiwedd Medi, teithia Annette ymhell o Gymru - i Portiwgal - a hynny ar y QE2. Fe fydd yn rhoi unawdau piano ac yn cyfeilio i unawdwyr yn ystod mordaith fydd yn parhau pum niwrnod.

DINORWIG

GOHEBYDD- Mr. O.R. Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 870671)

DIOLCH: Dymuna Mrs Jennie a Stanley, teulu'r diweddar H.S. Jones, Buarth Newydd ddiolch o galon i'r holl deulu a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd atynt yn ystod eu profedigaeth. Diolch yn arbennig i'r meddygon a'r gweinyddesau am eu gofal tyner drosto yn Ysbyty Gwynedd ac yn Eryri, Caernarfon.

Dymuna Mr a Mrs D. Jones, Bron Myfyr ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd yn diweddar Mr H.S. Jones.

Llawer iawn o ddiolch i bawb am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniasant ar fy mhen-blwydd yn un ar hugain ar Gorffennaf 29 - Gwyneth Elizabeth Davies.

Dymuna Elizabeth Jones, 9 Maes Eilian ddiolch i ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tra fu'n yr ysbyty. Hefyd i'r meddygon a'r gweinyddesau am eu gofal caredig.

MARW: Bu farw Mr Richard Gwilym Jones, Tan y Buarth Uchaf ar Fehefin 22 eleni yn Ysbyty Gwynedd. Mae ein cydymdeimlad dwys fel ardal â Mrs Betty Jones, ei weddw, a'r plant, a'i fam oedranus, Mrs Kate Jones, Foelgron, a'i chwaer Mrs Elizabeth Jones, Foelgron a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. Oherwydd gwyliau'r 'Eco' ni allwyd rhoddi'r hysbysiad cyn hyn. Cafodd gystudd caled.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau calonnog i Seindorf Arian Deiniolen a'r cylch ar eu llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Rhyl eleni yn ennill y wobr gyntaf.

O'R YSBYTY: Da gweld Mr Alun Phillips, 6 Maes Eilian wedi dod adref o Ysbyty Gwynedd. Parhaed i wella.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlir â Mrs N. Williams, Brookfield a Mr a Mrs Robert Williams yn eu profedigaeth sydyn ym marw Mr John M. Williams, 12 Vaynol Terrace,

mab Mrs N. Williams, a brawd Mrs Ethel Williams, Brookfield, a'r cysylltiadau teuluol i gyd.

LLONGYFARCHIADAU: calonnog i Mrs Annette Bryn Parri, Cynefin, Deiniolen (Tŷ'r Ysgol Dinorwig gynt) ar ei llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol y Rhyl yn ennill gwobr y Rhuban Glas am canu'r piano i rai rhwng 19 a 25 oed, gyda chymeradwyaeth arbennig.

Hefyd Miss Marina Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, a Miss Gwyneth E. Davies, 10 Bro Elidir gyda'u llwyddiant yn eu harholiadau yng Ngholeg y Brifysgol Bangor a'r Coleg Normal. Pob lwc i'r dyfodol i chwi.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Katie L. Hughes, 2 Maes Eilian ar fod yn nain. Ganwyd chwaer i Arwyn ac Eilir, bechgyn Mrs Mary L. Evans ac Isfryn, Gwen y Wawr, Bangor.

DIOLCH: Dymuna Mrs Betty Jones, Elenid, Einir a John, Tan y Buarth Uchaf ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid hoffus yn ddiweddar. Diolch hefyd i'r gweinidogion y Parchn Ifor L. Williams, Wm. J. Lewis ac E. Blainey am eu gwasanaeth, hefyd y meddygon a'r gweinyddesau yn Ysbyty Gynwedd, am eu gofal tyner ohono. Hefyd i gyfeillion Eglwys Sardis am bob help yn ystod yr amgylchiad, ac i Mr Myrddin Pritchard, Central Garage, Llanberis am ofalu am drefniadau'r angladd.

YN YR YSBYTY: Dymunir gwellhad buan i Mrs Medwen Griffiths, Foel Cottage sydd yn Ysbyty Gwynedd. Hefyd i Mrs Eileen Phillips, 6 Maes Eilian yn Ysbyty'r Gogledd, y ddwy o Ddinorwig.

PEN-BLWYDD: Pen-blwydd hapus i Mr Andrew Griffith, Tan y Bwlch ar gyrraedd 70 mlwydd oed y mis yma.

COFION a dymuniadau da i'r ardalwyr sy'n cwyno yn eu cartrefi. Gwellhad buan i chwi.

GWELLHAD BUAN i Mrs L. Roberts, Bron Gynfi sydd yn Ysbyty Gwynedd.

Gohebydd: Dafydd Ellis, Gweledfa (871223)

SEFYDLIAD Y MERCHED: Yng nghyfarfod mis Gorffennaf daeth swyddog o'r Cyngor Sir i drafod rheolau prynu a gwerthu. Daeth Miss Hughes o Fethesda at y gangen i ddatgan adroddiad o'r cyfarfod blynyddol yn Llundain. Paratowyd lluniaeth gan Pat Jones ac Audrey Roberts. Rhoddwyd anrheg y mis gan Carol Houston ac fe'i henillwyd gan Jennie Roberts.

CLWB Y MAMAU: Wedi egwyl yr haf, bydd cyfarfod blynyddol y clwb yn yr ysgoldy ar Fedi 9.

PROFEDIGAETH: Gorffennaf 23 bu farw Mrs Kathleen Foulkes, Bryn Derw yn 77 mlwydd oed. Fe gofiwn am Mrs Foulkes fel boneddiges a feddai ar gymeriad hawddgar. Mae

ein cydymdeimlad dwys gyda'r teulu oll ac yn enwedig gyda'r gweddwr Mr Meredydd Foulkes, a ddymuna ddiolch i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a chydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth.

CEUNANT

Gohebydd: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)

LLONGYFARCHIADAU: i Mrs Nell Jones, Hafodol, ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ar Awst 11. Pob dymuniad da iddi i'r dyfodol.

Dymuna Mrs Jones ddiolch i'w theulu a'i chyfeillion am eu caredigrwydd tuag ati ar achlysur ei phen-blwydd.

LLONGYFARCHIADAU hefyd i Gwyn Morris, Merddyn ar ei lwyddiant yn Arholiad Lefel A. Pob bendith a mwy o lwyddiant eto i'r dyfodol.

LLANBERIS

(Atodiad)

LLONGYFARCHIADAU i Arwel Wyn, mab Tommy a Nesta Roberts, Llainwen ar ei lwyddiant mewn arholiad Ambiwlans.

DYMUNWN WELLHAD buan i Mr Llew Batten, Maes Derlwyn, Mrs Annie Jones, Manllwyd, Stryd Newton a Mr Aled Owen, Stryd Siallot.

CYDYMDEIMLWN yn fawr iawn â Mrs Joyce Jones, 27 Dôl Elidir ar farwolaeth ei brawd, Mr Griff Williams, Pwllheli ond gynt o Pen y Gilfach.

Ar Awst 21 bu farw John Hughes, 4 Rhes Fictoria yn 60 mlwydd oed, priod annwyl Buddug a thad tyner Sheila ac Alfred. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

MARW: Yn ysbyty Bryn Seiont ar Awst 19 bu farw Mrs Catherine Jane Jones (Katie Penlon) mam annwyl Ralph, Cyril, Margaret a Tom. Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

DRAENOG



HI-DE-HI

Do, fe ddaeth nier o'r ardalwyr ar eu gwyliau ar gwaethaf yr haf gwlyb. Mentrodd rhai'n 'o bell, ond cadwodd eraill yn nes at adra - fel y pâr o Lanberis a aeth i Wersyll Pontins ym Mhrestatyn. Cyrraedd yno, a darganfod fod y wraig wedi anghofio pacio pyjamas y gŵr. Gysgodd o yn ei siwt pen-blwydd? Dim ffiars o beryg' - fe fu'n rhaid dod adra i Lanberis i nôl pâr addas. Mae rhyw si wedi cyrraedd y pentra' fod 'na dipyn o storm ym Mhrestatyn y noson honno.

BETHEL

Gohebydd: Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwig 670726)

DIOLCH: Dymuna Mrs Elen Jones a theulu'r diweddar Mr Ifor Jones, Awel y Grug, 21 Cremlyn ddiolch o galon i berthnasau, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniant yn eu thafedigaeth o golli priod, tad a thafedigaeth. Diolch i feddygon y Waunfawr a'r Felinheli am eu gofal gofalus ohono, yn arbennig i'r Parch W.R. Williams a'r Parch Ifor Rowlands a swyddogion Eglwys y Cysegr am eu cymorth a Mrs Glenys Griffiths, Llwyn Eithin am gyfeilio. Diolch hefyd i Mr Gwilym Roberts, Y Felinheli am y trefniadau.

CYDYMDEIMLO: Tristwch mawr oedd ymanteb y pentref o glywed am farwolaeth Mr John Michael Jones, Bro Rhos mor ieuanc. Bydd chwith garw ar ei ôl ar yr aelwyd a gwelir colli ei gyfraniad meistrrolgar fel organydd yn y Cysegr. Estynnir ein cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn eu profedigaeth.

LLONGYFARCHIADAU: i Wynne Roberts, 7 Cae Rhos, Seion ar dderbyn diploma merit mewn diwyddiaeth yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor. Bydd Wynne yn dechrau ar gwrs pellach yng Ngholeg Ridley Hall, Caergrawnt yn yr hydref.

— I Sioned Meleri Owen, Cefn Cynrig am fod yn llwyddiannus yn Arholiadau Gradd 2 Piano a Theory o dan nawdd Ysgolion Cerdd Brenhinol Llundain. Mae Sioned yn ddisgybl i Mrs S. Wilkinson.

— I Bethan a Gwen, Fachell; Ruth, Lynne, Llinos, Non, Esyllt a Ceryl ar eu llwyddiant hwythau yn eu harholiadau piano yn ystod yr haf.

— I Mrs B.M. Jones, 29 Bro Rhos ar enillwyr y drydedd wobwr mewn cystadleuaeth yn y TV Times yn ddiweddar. Gwobr Beryl oedd peiriant torri gwair Flymo.

CYLCH MAM A'I PHLENTYN: Bydd y cylch yn dechrau ei dosbarthiadau wythnosol ar ddydd **Mercher, Hydref 4 1985** rhwng 9.30 a 11.30 yn y Neuadd. Bydd croeso i bawb.

YR YSGOL FEITHRIN: Daeth tymor yr Ysgol Feithrin i ben gydag ymweliad â'r Orsaf Ddan yng Nghaernarfon. Roedd y tân-ddiffoddwr Malcolm Jones yn o'n tywys y plant o gwmpas. Diolch i bawb am gludo'r gwmpas.

Dymuna Anti Rita ac Anti Margaret yn dda i Arwel, David, Robin, Euros, Geraint, Sioned, Julie, Daniel, Erin, Lara, Glynnie, Awen, Ellen, Emyr, Meleri, Deiniol a Jason yn ysgol Bethel, ac i Iwan yn ysgol Penisarwaun.

EISTEDDFOD BETHEL: Gyda'r haf yn dirwyn i ben mae'n bryd dechrau paratoi ar gyfer yr eisteddfod. Ar Fedi'r 2il bydd Pwyllgor yr Eisteddfod yn cyfarfod ac ar nos Wener Medi 13 cynhelir Noson Goffi yn y Neuadd gyda'r elw yn mynd at yr eisteddfod.

Cynhelir yr eisteddfod eleni ar ddydd **Sadwrn, Tachwedd 2**.

CLWB BRO BETHEL: Dydd Mawrth, Medi 3 bydd Clwb Bro Bethel yn mynd ar Daith Ddirgel. Rwy'n siŵr y bydd yr aelodau yn mwynhau'r daith yma eto fel arfer.

GENEDIGAETHAU: Er ymddangosiad yr Eco ddiwethaf ganwyd chwe plentyn yn y pentref, merched i Mr a Mrs Hughes, Afallon; Mr a Mrs Rowlands, Y Ddôl a Mr a Mrs Jones, 15 Tan y Buarth; a bechgyn i Mr a Mrs Ginsburg; Mr a Mrs John Pritchard a theulu sydd newydd symud i fyw i Rhoslan. Ymddengys y bydd dyfodol yr ysgol yn sicr iawn.

Y CARNIFAL: Cychwynnwyd yr Wythnos Garnifal eleni gyda

Gymanfa Ganu yng nghapel Bethel nos Sul, Gorffennaf 7. Yr arweinydd oedd Mrs Glenys Griffiths, yr organyddes — Mrs Beti Owen a'r llywydd — Mr Frank Rhys Jones a oedd yn anffodus yn absennol oherwydd gwaieled.

Nos Lun: Cafwyd Noson Bingo gyda Mr Wil Roberts, Llanberis yn galw. Enillwyr y raffl oedd: Mrs Ellen Ellis, Ystad Eryri a Mari Owen, Tan y Cae.

Nos Fawrth: Noson yr Helfa Drysor. Yr enillwyr oedd: Gareth, Emyr, Owain a Gethin.

Nos Fercher: Cafwyd Disgo yn y Neuadd. Y plant ieuengaf am 6.30 a'r plant hynaf ar ôl 7.30.

Oherwydd tywydd anffafriol bu'n rhaid gohirio noson y chwaraeon a'r rowndiau terfynol o'r pêl-droed 5-bob-ochr.

Dydd Sadwrn: Gorff 13: Diwrnod y Carnifal.

Cafwyd gorymdaith rhwng cawodydd a chynhaliwyd y gweithgareddau yn y Neuadd Goffa. Coronwyd y Frenhines Anwen Jones gan y cyn-frenhines Gail Warrington.

Yr enillwyr oedd fel â ganlyn:

Addurno Ambarel Dan 16: 1. Eleri Robinson, 2. Menna Dauney Williams, 3. Shân Llywelyn Jones. Gwisgoedd Ffansi: Dan 3 oed: 1. Jonathan White, 2. Dylan Hughes, 3. Gwenan Michael. Dan 5 oed: 1. Dafydd Jones, 2. Dylan Thomas, 3. Dewi Griffiths. Dan 8 oed: 1. Carwyn John Morris, 2. Ben Owen, 3. Julie Roberts. Dan 11 oed: 1. Sonia Roberts, 2. Non Jones a Jill Burnard, 3. Bethan Jones a Manon Elis. Dan 15 oed: 1. Lyn Roberts a Ruth Parry, 2. Dylan Hughes a David John Griffiths, 3. Mandy Williams a Wenna Williams. Dan 25 oed: 1. Gillian, Eirian, Alys, Carys, Delyth, Miriam a Sheila, wedi'u gwisgo fel 'Roly Polies'. 2. Barry Evans. Dros 25 oed: 1. Glenys Griffiths, 2. Valmai Owen. Cydradd 3: Menna, Ann, Jean a Hilary. Y wisg ffansi orau yn y misfal i gyd oedd Mrs Glenys Griffiths fel Miss Print.

Yr enillwyr yng nghystadleuaeth y gerddi oedd: Blodau — 1. Mrs Joyce Pritchard, 11 Bro Rhos, 2. Mrs Morris, Y Fachell, 3. Eron, Saron. Llysiau: 1. Mr Fred Fellows, 24 Y Ddôl. Cydradd 2: Goronwy Jones, Y Rhos a Ieuan Williams, Llain yr Ardd, 3. Mr Huw Williams, Gilfach, Saron.

Yn y gystadleuaeth Snwcer y buddugwyr oedd: 1. Gwynfor Williams ac Eilian Jones, 2. Harry Owen a Paul Roberts.

Enillwyr y raffl oedd: Bocs o nwyddau: Eirian Williams, 12 Cremlyn. Potel o sieri: Llew Hughes, Afallon, 10 Tan y Cae. Tocyn Cig: Carys Owen, Berwyn, Saron. Tocyn petrol: Les Fellows, 7 Cae Berllan, Caernarfon. Wyau: P. Bullen, c.o. Dinas, M.E. W.W.A. Bocs Ffrwythau: Steven Jennings, Gors Bach. Rhif y rhaglen Iwcus: 192. Cysyllter â'r ysgrifenyddes, Mrs Nan Owen, Berwyn, Saron. Rhif ffôn: Portdinorwig 670763.

Cynhaliwyd y chwaraeon yn y cae chwarae nos Fawrth wedi'r carnifal. Yr enillwyr oedd: ras o dan 4: 1. Dewi Griffiths, 2. Llinos Mair Williams, 3. Bryn, 4-6: 1. Gwenan Elis, 2. Richard Davies, 3. Darren Wyn Jones, 6-8: 1. Garry Wyn Jones, 2. Julie Jones, 3. Llinos Roberts. 8-10: 1. Arfon Roberts, 2. Philip Davies, 3. Sharon Ellis. 10-12: 1. Irfon Price, 2. Aled Griffiths, 3. Haf. 12-14: 1. Angharad Price, 2. David John Griffiths, 3. Gail Williams. Dan 16: 1. Barry Evans, 2. Allan Williams, 3. Anthony Paul Owen. Dros 16: 1. Peter Sharpe, 2. Richard Sharpe, 3. Alwyn Williams.

Ras drithroed ysgol gynradd: 1. Mandy ac Anwen, 2. Llinos a Gaynor, 3. Ruth a Sioned. Ras drithroed uwchradd: 1. Arwel ac Anthony, 2. Eirlys a Gwen, 3. Awen a Nicola. Ras berfa, cynradd: 1. Haf a Wena, 2. Mark a Robin, 3. Gwyn ac Ian. Ras berfa, uwchradd: 1. Arwel ac Anthony, 2. Barry a Gareth, 3. Gwen ac Angharad. Ras drithroed dros 16: 1. Alwyn a Myfyr, 2. Amanda a Nicola, 3. Mark a Jeffrey.

Ras i ferched dros 20: 1. Mrs Carys Williams, 2. Mrs Sian Robinson, 3. Mrs Mari Lloyd Jones.

Ras gyfnewid 4x100: 1. Alwyn Williams, Richard Sharpe, Myfyr Jones a Gareth Owen, 2. Peter Sharpe, Barry Evans. Huw Morgan ac Allan Williams, 3. Mari Owen, Alison, Angharad Price a Meinir Owen.

Taflu welington bechgyn: 1. Barry



Rhai o ieuencid y pentref fu'n trefnu Noson Goffi yn y Neuadd. Casglwyd £180 at gronfa Arian Byw. Diolch i'r genod am eu gwaith a hefyd i bawb am gyfrannu tuag at lwyddiant y noson.

Evans, 2. Gareth Owen, 3. Anthony Williams. Genethod: 1. Catrin Evans, 2. Amanda Owen, 3. Meinir Owen.

Ras Hetar dros 16: 1. Gareth Owen, 2. Mark Roberts, 3. Barry Evans.

Diolchir i'r pwyllgor i gyd am eu llafur yn trefnu'r wythnos, i bawb fu'n helpu gyda'r gweithgareddau ac yn arbennig i'r ysgrifenyddes Mrs Nan Owen a weithiodd mor ddiflino.

MERCHED Y WAWR: Nos Fercher, Medi 5 bydd aelodau Merched y Wawr yn mynd ar daith gerdded

nodedig. Bydd y daith yn cychwyn o'r ysgol am 6.30. Gellir cael ffurflenni noddi gan Mrs Nora Parry neu Mrs Mair Price.

DYMUNIADAU DA: Mae mis Awst yn fis o newidiadau mawr ym mywyd nifer o blant a phobl ifanc, yn newid ysgol, gadael ysgol, mynd i goleg a dechrau gwaith. Mae'r ardal i gyd yn dymuno'r gorau i bawb fydd yn newid byd ar ddechrau'r tymor newydd ac yn llongyfarch pawb a fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau eleni.

ATGOFION PLENTYNDOD

(parhad o dudalen 15)

gadael ei gar tu cefn i'r capel, ac felly cefais fy nghario am yr ail droy diwrnod hwnnw. Roedd hyn, wrth gwrs, cyn dechrau cynnal profion gyrru, pan oedd pawb yn cael mynd mewn car heb fod dan ofal gyrrwr profiadol.

Diwrnod pwysig yn ein hanes ni'r plant oedd dyddiau Eisteddfod y Capel. Roeddwn i'n adrodd yno yn ifanc iawn, a'm tad yn fy nysgu. Pan oeddwn i yn safon un (dim ond chwech oed) clywais fod rhai o'r plant hyn yn cael mynd i'r Garreg Fawr yn gynnar ar ôl cinio ddiwrnod yr eisteddfod, i fynd dros yr adroddiad gyda Gwaunferch am y tro olaf. Roeddwn i eisio mynd am dro hefo'r plant mawr yn lle gwersi ysgol, felly dywedais fy mod innau hefyd yn dysgu gyda hi. 'Feddyliais i erioed fod y Garreg Fawr mor bell. Ond bob blwyddyn wedyn cefais ddysgu gyda Gwaunferch, naill ai yn y Ffestri neu yn nhŷ ei chwaer yn

Nhy'n y Coed. Roedd eira'n dew ar y cae ger Ty'n y Coed un tro, a dyna hwyf fadodd criw ohono yn chwarae yn yr eira, yn arbennig y rhai hynny oedd yn gwisgo clociau, gan gasglu eira yn drwm o dan eu gwadnau.

Lle prysur oedd festri'r capel mawr yn y gaeaf, ac yn aml ar nos Wener roedd drama neu gyngerdd yn cael eu cynnal yno. Roedd hyn cyn dyddiau'r Weinyddiaeth Les, a chynhelid y cyfarfodydd gan roi'r elw i helpu'r rhai oedd adref o'u gwaith yn hir yn dilyn damwain neu afiechyd. Roedd fy nhad yn hoff iawn o'r cyfarfodydd yma, a chawn innau fynd yno i'w ganlyn. Cynhelid y Gobeithlu yn gynnar ar nos Wener, ac adran yr Urdd ar nos Fawrth.

Elizabeth Edwards,
Carmel
Treffynnon

Tŷ modern, ysblennydd mewn lleoliad godidog, gyda'r holl gyfleusterau diweddaraf. Wedi ei leoli mewn 3½ acer sy'n cynnwys maes gwersylla o safon, lle gellid cael incwm sylweddol ohono os dymunir.

Awyddus ei werthu i bobl leol

tua £70,000

Ffôn: 028 685 294

(gyda'r nos neu benwythnos)

ATGOFION CYNNAR AM ARDAL Y WAENFAWR

(gan John Owen Harvey, Llangefni)

'CYMORTH I FYW'

Deuai dynion yn rheolaidd i drwsio ac edrych ar ôl y ffyrdd pan oeddwn yn fachgen. Rhaid oedd gwneud hyn gan fod wyneb y lôn yn gwisgo yn dyllau, ac hefyd er cadw llygaid ar wrych a ffos. Gwnaed y rhan fwyaf o'r gwaith gan ddyn a gariai rhaw, brwsb bras a chryman ar ei feic. Pan yn llenwi'r tyllau gyda'r cerrig mân rhaid oedd gwneud tân mewn pwced gyda tar yn poethi mewn un arall. Cymerai hyn le yn erbyn wal hwylus er dal yr haearn y crogai'r bwced ucha oddi arno.

Pan oedd angen gwella darn hir o'r ffordd deuai mwy o weithwyr yn ogystal â pheiriant ager mawr, trwm. Ceffyl fyddai'n tynnu cerbyd isel lle y llosgid tar du ynddo, a'r dynion yn arllwys cynnwys llawer llond casgen ar wyneb y ffordd. Eraill wedyn yn taflu'r cerrig gyda rhawia, a'r cwbl yn cael ei wasgu i lawr gan yr anghenfil swllyd.

Adeiladu'r wal gerrig fawr rhwng cefn rhesdai Glynafon a chae'r ysgol ddyddiol gymerodd wythnosau i'w gwblhau. Daeth llwythi o gerrig ac agorwyd y sylfaen yn ddyfn ac union gan weithwyr medrus, ac yna ymlaen â'r gwaith. Heddiw, mae'r wal yn werth i'w gweld, yn profi y byddai'n seiri meini yn gallu troi allan gampwath heb llawer o gymorth peiriannau.

Nid oedd yr un Tŷ Cyngor yn y pentref pan oeddwn i yn grwtyn, ond daeth y cyfle, ac adeiladwyd rhes o rai hwylus ar y ffordd rhwng y Llythyrdy a Bryn Pistyll. Erbyn heddiw mae ystâd o dai arall dros y ffordd i gartref y Moduron Gwyn. Ardderchog o beth oedd rhoi'r cyfle i lawer teulu adael tai gwael heb y cyfleusterau priodol.

Y cyflenwad dŵr yfed fyddai'n broblem fawr yn y blynyddoedd cyn y Rhyfel. Gan mai ar ochr Mynydd Cefn Du yr oedd man cychwyn pob pibell ddŵr - ar adeg o sychdwr, byddai dyfnder y dŵr yn rhy isel a rhaid fyddai atal y cyflenwad i'r ardal dros dro. Cofiaf liw'r dŵr yn coch, a byddem yn cario mewn pwcedi a phiseri o ffynnon neu bydew yn hytrach nag yfed be ddeuai weithiau o'r tap.

Pwy sydd yn cofio'r dynion ddeuai i drwsio'r gwifrau ar ben polion y Llythyrdy? Roedd ganddynt math o harnais o dan y penglin, gyda darn miniog o haearn i'w cynorthwyo dringo'r polion uchel. Yna strapio eu hunain, ar ôl cyrraedd y rhan uchaf er diogelwch - a gweithio ar y gwifrau.

Yn ystod amser caled y dirwasgiad cefais i fel llawer arall mae'n siŵr le diolch i'r wraig a alwem yn ddynes gwnïo. Hi ddeuai i fesur hyd a lled fy nghorff er troi hen ddilledyn yn gôt neu lodrau. Dyn pwysig oedd hwnnw wnâi bâr o gloesia allan o esgidiau wedi mynd yn rhy wael i'w trwsio mwy. Roedd hyn yn gymorth ar adeg caled pan oedd pob ceiniog yn cyfri.

Galwai yn ei dro ddyn gyda beic arbennig - a'r olwyn ôl yn troi carreg gwneud min ar siswrn neu gyllell fara. Dyma'r dyn fyddai'n barod i drwsio ymbarel neu barasol, gan iddo gario darnau gefn y beic ar gyfer y gwaith.

Un cymeriad y cofiaf ymgomio ag ef oedd hwnnw ddeuai unwaith y flwyddyn i drwsio sosbeni a tecelli,

gan wneud y gwaith ar ochr y ffordd.

Mewn llawer tŷ a bwthyn yn ein hardaloedd fe welwyd y clociau mawr yn cadw amser gan daro pob awr am flynyddoedd. Pob pen wythnos byddai'r pen teulu'n mynd trwy'r seremoni o weindio'r pwysau trwm gyda goriad pwrpasol. Ond weithiau dyna'r tic cryf yn peidio, a rhaid oedd gyrru ar frys am ddyn trwsio clociau mawr, "Dyn Lliw Glas" yw'r enw sydd yn dod i'r cof.

Byddai Mam yn dweud ffortiwn gyda chwpan de ond cofiaf hefyd ddod ar draws rhyw gardiau arbennig wrth edrych mewn dror unwaith. Cofiaf i ferched cyfoethog yr ardal ddwad yn ddistaw ambell i noson yn y gaeaf. Ar ôl sgwrs o flaen tanllwyth o dân yn cael cwpaned o de o'r llestri gorau, yna yn gofyn i Mam - "Maggie, dywedwch beth mae'r dail yn ei ddweud heno." Ar ôl troi cwpan rhyw ddwy neu dair o weithiau, ei rhoi a'i phen i lawr yn y soser ac yna ei dal i fyny at olau'r lamp olew oedd ar y bwrdd. Y geiriau ddwedai Mam fyddai - "Mae siwrne am fod ymhen dau amser." "Daw dyn tal o bellter gwlad" neu "Gwelaf fodrwy briodas" neu eiriau eraill tebyg. Wrth fynd allan, mae'n siŵr y byddai'n rhoi ryw gyngor ychwanegol - a'r chwerthin iach wrth ffarwelio, pawb wedi mwynhau'r hwyl - os hwyl oedd o.

Un peth yn wahanol ers talwm fyddai'r ffordd y deuai pobol ar dywydd braf allan o'u tai a sefyll yn yr ardd ffrynt neu bwyso ar y giât bach. Cael sgwrs, a chael yr hanesion, yn wir cafodd ambell un las-enw am hyn - ond bedi'r ots, 'roedd yna gyfeillgarwch. Fedrwyd chi eu gweld nhw ar hyd y teras - y merched yn eu bratia o bob lliw, ac ambell un efo cap dyn ar y pen. Shôl am ysgwydd rhai mewn oed, a babi yn cael ei dal mewn planced fechan ar draws corff y wraig ifanc. Hyn cyn bod sôn am y ffordd fodern fel Indiaid Cochion - yn cario ar y cefn. 'Roedd yr aer iachus yn werth chweil - er bod ogle arbennig ar y baco shag gan y dynion yn dod weithiau gyda'r awel. Trafod gwaith, neu brinder gwaith mwy tebyg fydden nhw, neu efallai bod lecsiwn yn agos, neu rhyw hen lanc yn y pentref wedi cael gwraig o'r diwedd. Beth bynnag oedd eu sgwrs 'roedd pawb yn siŵr o ddarllen 'Y Werin a'r Echo'. 'Y Papur Pawb' neu'r 'Herald Cymraeg' cyn diwedd yr wythnos.

**CEFNOGWCH
EIN
HYSBYSEBWYR**

GOLYGFYDD CYNNAR O'R WAUNFAWR



View of Mount Eilian



Main Road, Waunfawr.

BETWS GARMON

TREIALON CŴN DEFAID: Cynhaliwyd y treialon cŵn defaid Awst 16 ac 17 ar gaeau Ystrad Isaf gyda chaniatad caredig Mr a Mrs G.E. Owen. Dyma'r canlyniadau:

Dos. 1. 1. E. Griffith, Waunfawr, 2. H. Owen, Caergeiliog, Môn, 3. E. Griffith, Waunfawr, cyf. 4. H. Parri, Rhydyclafdy ac Alan Jones, Pontllyfni, cyf. 7. H. Davies, Y Ffôr, Pwllheli ac E. Lewis, Llanfairfechan.

Dosb. 2. 1. R. Ewing, Rhosybol, Môn, 2. J.G. Jones, Waunfawr, 3. R.E. Pritchard, Rhydyclafdy, cyf. 5. E. Lewis, Llanfairfechan, 1. J. Williams, Talsarnau ac E. Parry Caernarfon, 8. A. Jones, Llanfairfechan.

Dosb. 3. 1. P. Jones, Penygroes, 2. A. Jones, Llanfairfechan, 3. E. Lewis, Llanfairfechan, cyf. 4. W.H. Hughes, Deiniolen ac A. Evans, Llanaelhaearn, 6. O.T. Hughes, Rhosmeirch, Môn, 7. H.G. Owen, Waunfawr.

Dosb. 4. 1 a 2. H.G. Owen, Waunfawr, 3. M. Owen, Ystrad Isaf, 4. A.J. Williams, Waunfawr, 5. R.A. Murphy, Waunfawr.

Tlws Ychwanegol Cwpan Coffa J. Lewis Trosbol: H.G. Owen, Waunfawr.

Tarian Coffa Morris Tŷ Coch: H.G. Owen, Waunfawr.

Cwpan Dan 21 oed: A. Rowlands, Marianglas, Môn.

Cwpan Dan 15: Michael Owen, Ystrad Isaf, Betws Garmon.

Tocyn raffl heb ei hawlio am fwyd ci: Cysyllter â'r ysgrifennydd, Waunfawr 244, rhif tocyn 16.

Enillwyr y raffl oedd: 1. Oen i'r rhewgell: C. Hughes, 2. Tai Crawia, Llanrug, 2. Tocyn nwyddau £10: E. Jones, Cynefin, Betws Garmon, 3. Coler ci: Ray Johnson, Tŷ Gwyn, Waunfawr, 4. Cinio i ddau: C. Lloyd, 15 Bryn Moelyn, Llanrug, 5. 2 botel win: D.M. Jones, Cynant Lodge, Waunfawr, 6. Basged Ffrwythau: Fiona Johnson, Tŷ Gwyn, Waunfawr, 7. set o lestri te: M.

Owen, Is-y-bryn, Tan-y-coed, Llanrug, 8. set o ddysglau ffrwythau: G. Williams, Tynweirglodd, Betws Garmon, 9. Basged o nwyddau: G. Owen, Ystrad Isaf, Betws Garmon, 10. Potel Wisgi: J. Basby, Savoy Milk Bar, Penygroes, 11. Bag o fwyd ci: 1. I. Williams, 39 Rhyd Fadog, Deiniolen.

MARW: Gyda thristwch mawr y cofnodir marwolaethau brawd a chwaer. O fewn llai na bythefnos i'w gilydd bu farw Mr O.P. Pritchard, (Now Plas, fel y'i hadnabyddid yn hoffus), Plas Isa gynt, a Mrs Mary Austin Jones, (Y Becws) Penrhos, Waunfawr. Y ddau wedi'u geni a'u magu yma yn y Betws.

Bydd hyn yn golled nid yn unig i'r ardal ond yn wir i Gymru gyfan ac yn enwedig i 'Eco'r Wyddfa'. Roedd eu gwybodaeth o hen hanesion ac arferion yn hynod o ddifyr a'u cyfraniadau at ddiwylliant ein gwlad yn gyfoethog.

Cydymdeimlir yn ddwys â'r teulu i gyd yn eu galar.

YN YR YSBYTY: Dymunir wellhad buan i Mr Wally Thurley, Cwm Bychan sydd yn yr ysbty ers rhai wythnosau. Anfonwn ein cofion ato.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Deri Davies, Castell Cidwm ar lwyddo yn ei harholiadau lefel 'A', a phob bendith iddi i'r dyfodol yn dilyn cwrs yng Ngholeg Politecneg, Bryste.

Hefyd llongyfarchwn Eurig Jones, Cynefin ar ei lwyddiant yn ei gwrs yng Ngholeg Technegol, Bangor, a'i frawd lolo wedi ei radd B.A. gydag anrhydedd yng Ngholeg Eglwys Crist, Caergaint.

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

EISTEDDFOD YR ARDAL: Bydd yr eisteddfod eleni yn cael ei chynnal yn y Ganolfan ddydd Sadwrn Tachwedd 9. Mae'r rhestr testunau ar gael yn y siopau neu gan yr ysgrifennydd: Nan Roberts, Pant Afon.

Ewch ati i gyd i baratoi ar gyfer y cystadlaethau sydd yn eich denu, er mwyn cael eisteddfod gwerth chweil eleni eto. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Trwy gyfrwng yr Eco hoffem ni fel rhieni cyn-blant a phlant presennol Ysgol Feithrin Waunfawr ddiolch o galon i Anti Lun sef Mrs Eluned Roberts, Sŵn-y-gwynt ac Anti Jeni sef Mrs Jeni Jones, Glyn Ceris, am y gofal tyner a charedig a roddwyd i'n plant tra'n yr Ysgol Feithrin. Mawr fydd y golled ond pob lwc a hapusrwydd i'r ddwy yn y dyfodol.

CYNHALIWDY TRYDYDD CHWARAEON CYMREIG ARBENNIG i rai â nam meddwl o Orffennaf 9-12, 1985.

Roedd y chwaraeon wedi eu trefnu ar llyn y Chwaraeon Olympaidd gydag athletwyr o Gymru gyfan yn cymryd rhan. Roeddynt yn cael eu lletya ym Mhrifysgol Bangor gyda thrên arbennig yn eu cludo yn ôl a blaen i Stadiwm Parc Eirias, Bae Colwyn, lle y cynhaliwyd y Mabolgampau.

Roedd y cystadlaethau nofio ym Mhwll Nofio Bangor.

O ddiddordeb arbennig i gylch Eco'r Wyddfa enillwyd medalau aur am redeg 400 medr ac am nofio gan Paul Lewis (Antur Waunfawr) a medal aur am daflu gwaywffon gan Keith Thomas (Antur Waunfawr).

Enillodd Paul Lewis dair medal arian am nofio a chafodd hefyd fedalau efydd am daflu pêl a nofio.

Enillodd Gwion Davies, Bryn Eithin fedal arian am daflu pêl, ac roedd yn bumed yn ei ddosbarth am redeg.

MERCHED Y WAWR: Nos lau, Mehefin 27 daeth tymor y gangen i ben gyda thaith ddiddorol iawn i Lŷn ac ymweliad â Phlas Glyn-y-wedd i weld yr Arddangosfa o luniau, a chafwyd croeso cynnes gan Mr a Mrs ap Tomos. Cafwyd swper yn Llanbedrog a diolchodd y llywydd, Mrs Olwen Williams i Mrs Cadi Jones, Mrs Catherine Jones a Mrs Alma Jones am drefnu'r noson.

Cyfeiriwyd at waeledd Mrs Katie Roberts a Mrs J. Parry a dymunwyd adferiad buan iddynt.

Llywydd 1985-86 fydd Mrs Cadi Jones, gyda Mrs Mary B. Davies yn ysgrifennydd a Mrs Gillian Wyn yn drysorydd. Etholwyd pwyllgor fel â ganlyn: Mrs Gill Brown, Mrs Eirlys Griffith, Mrs Catherine Jones, Mrs

Glenys Jones, Mrs Katie Wynn Jones, Mrs Sylvia Prys Jones, Mrs Hughes (Llys Meredydd), Mrs Annie Roberts, Mrs Pat Skidmore, Mrs Glenys Williams a Mrs Nellie Williams.

Cynhelir y cyfarfod cyntaf y tymor newydd nos lau, Medi 26, 1985 yn y Ganolfan am 7.15 gydag Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa) yn ŵr gwadd. Croeso cynnes i bawb ymuno yn yr hwyl.

CAPEL BETHEL M.C.: Ni fydd yna wasanaeth yng nghapel Bethel yn ystod mis Medi oherwydd yr atgyweirio sydd yn mynd ymlaen yn y festri.

DOSBARTH WEA: Cychwynnir ar dymor newydd y dosbarth nos Lun Medi 30 yn yr ysgol leol pan y ceir y cyntaf o ddwy ddarlith ar 'Chwareli Arfon' gan Dr Dafydd Roberts, pennaeth yr Amgueddfa yn Llanberis. Bydd yn rhoi ei ail ddarlith y nos Lun canlynol sef Hydref 7. Yn dilyn ceir dwy ddarlith gan Mr Gareth Haulfryn Williams ar hanes 'Teulu Glynllifon' ac yna dwy ddarlith i gloi'r tymor gan Miss Nia Watkin Powell, Coleg y Brifysgol, Bangor ar 'Tuduriaid Môn'. Mae'r trefnydd lleol yn obeithiol y ceir cefnogaeth i'r darlithoedd hyn gan drigolion yr ardal, a dylai pawb sy'n bwriadu ymaelodi gysylltu â Rol Williams, Ardwyn cyn y ddarlith gyntaf os yn bosibl. Ceir gostyngiad sylweddol yn y taliad i rai sydd wedi ymddeol neu yn ddiwaith.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Mae rhaglen y tymor yn awr wedi ei chwblhau ac mae rhagolygon am dymor llwyddiannus eto y gaeaf hwn. Cychwynnir nos Lun, Hydref 28 gyda darlith gan y dihafal Barch John Alun Roberts, Abergelle. Yn ystod y tymor fe geir Seiat Holi, noson o ddweud stori unrhyw drysor yn y cartref, ymweld â Rwsia gyda Mrs Mary Vaughan Jones a sgwrs ar hanes meddygon y ddafad wyllt gan y Parch Harri Parri, Caernarfon. Cynhelir y cyfarfodydd yn fisol yn y Ganolfan, ac o gofio llwyddiant ysgubol y Gymdeithas y llynedd da yw deall fod amryw yn edrych ymlaen at y tymor newydd.

ARHOLIADAU CERDDOROL: Llongyfarchiadau i'r rhai canlynol ar eu llwyddiant:

Theori, Gradd 1: Dylan Jones, Rhandir Mwyn, Gradd 1, Gareth Davies, Nant y Mynydd, Gradd 3: Helen Hughes, Tref Eilian, Gradd 5: Ioan Gwyn Thomas, Treforfan. Piano: Gradd 2: Meilir Gwynedd, Nant, Gradd 2: Gwennan W. Jones, Glyn Ceris (gyda theilyngdod), Gradd 3: Wayne Owen, Dôl Erddi (gyda theilyngdod).



Gallt-y-Bont, Waunfawr

YR YSGOL: Tarian Gywaith: Enillydd 'Tarian Gywaith' yr ysgol eleni oedd Osian Gwynedd. Testun ei gywaith oedd 'Y Tywydd' a chafodd ganmoliaeth uchel gan y beirniad Mr Tony Elliott. Mewn cyfarfod arbennig yn yr ysgol ddiwedd y tymor cyflwynwyd y darian iddo gan y Dr R.S. Williams sydd wedi rhoi'r arian i'r ysgol i'w hennill yn flynyddol am y Cywaith gorau. Enillwyr eraill am y cywaith gorau yn eu dosbarth oedd fel a ganlyn: Safon I: Anwen Jones, Safon II: Meilir Gwynedd ac Elin Gwilym (cydradd) Safon IV: Susan Grindey.



Presenoldeb llawn: Derbyniodd 16 o blant Dystysgrifau am gadw'r ysgol heb golli - Sharon Owen, Hedddus Gwynedd, Gavin Owen, Mathew Jones, John Coles, David Bound, Kailey Jones, Geraint Rees Roberts, Simon Twigg, Sarah Morris, Osian Gwynedd, Meilir Gwynedd, Gerallt Williams, Sara Williams, Gwennan Wyn Jones a David Coles. Derbyniodd Gwennan dystysgrif ychwanegol go arbennig am gadw'r ysgol y chwe blynedd diwethaf heb golli diwrnod.

Mabolgampau: Yn dilyn Mabolgampau'r Ysgol enillwyd Tarian Mabolgampwraig gan Thea MacDonald (Safon I) a Tharian Mabolgampwr gan Meilir Gwynedd (Safon II). Cyflwynwyd y tarianau iddynt gan y rhoddwr Mr Eurig Wyn.

Ymddeol: Dydd olaf y tymor cafwyd cyfarfod arbennig i ddymuno'n dda i Mrs Arianwen Thomas, cogyddes sydd yn ymddeol ar ôl 33 mlynedd yng ngegin yr ysgol. Ar ran athrawon, plant, rhieni a staff y gegin cyflwynwyd iddi gloc hardd a siec fel gwerthfawrogiad o'i gwasanaeth hir. Cyflwynwyd dusw o flodau iddi hefyd ar ran pawb, gan ddwy o enethod Safon IV, Suzanne Jacobs a Mandy Griffiths. Apwyntiwyd Mrs Ann Edwards, Melin y Wig yn gogyddes yn ei lle. Gobeithiwn y bydd yn hapus yn ei swydd newydd.

PLAID CYMRU: Medi 20 am 6.30 o'r gloch - Noson Goffi yn y Ganolfan yng nghwmni'r Aelod Seneddol.

CLWB 100 PLAID CYMRU: Dyma restr o enillwyr y Clwb 100 am fis Mai, Mehefin a Gorffennaf:

1. Keith Owen, Stâd Tŷ Hen, 2. Rhodri Prys Jones, Pen y Graig, 3. Luned Roberts, Sŵn y Gwynt.

1. Carys Jones, Morawel, 2. Keith Owen, Stâd Tŷ Hen, 3. Olwen Williams, Llidiart Wen.

1. Tom Williams, Llwydiarth, 2. Iona Williams, Llwydiarth, 3. Gwilym Hughes, Tref Eilian.

CLWB 'GATEWAY' Segontium, Caernarfon: Yn dilyn apêl Mr Gwilym Roberts, Llwyn Celyn ar raglen Gari Williams, i geisio cael stereo i'r clwb, cafwyd ymateb buan a pharod gan lawer, derbyniwyd cynnig caredig Mr a Mrs William Owen, Noddfa, Tref Eilian, sef y cyntaf i'w dderbyn. Dymuna'r Clwb ddiolch yn gynnes iawn i Mr a Mrs Owen, ac i Mr Gwilym Roberts am eu caredigrwydd a'u diddordeb.

CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin a Gorffennaf:

1. £40: Mrs Mair Davies, Tan y Graig, Ceunant, 2. £25: Mrs Hughes, 10 Bro Waun, 3. £10: Mrs Rose Anne Hughes, 15 Tref Eilian. 1. £40: Mrs Evelyn Anderson, 11 Tŷ Hen, 2. £25: Mrs Annie Roberts, Bod Idris, 3. £10: Mr Gwilym Hughes, 16 Tref Eilian.

YR URDD: Cynhelir cyngerdd yn y Ganolfan nos Wener, **Medi 6, am 7.30 o'r gloch.** Yn cymryd rhan bydd Côr Meibion Dyffryn Nantlle gyda Bryn Terfel (Bariton) a Joan Grant Jones (Soprano) fel unawdwyr. Yr arweinydd fydd Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa). Tâl mynediad: £1.25 i oedolion a 75c i blant a phensiynwyr. Bydd yr elw yn mynd tuag at y gost o brynu lleni i'r Ganolfan. Bydd tymor gaeaf yr Urdd yn dechrau **nos Fercher, Medi 11 am 6 o'r gloch** yn y Ganolfan. Croeso i aelodau hen a newydd o 7 oed hyd at blant sydd yn y flwyddyn gyntaf yn Ysgol Syr Hugh Owen. £1 fydd y tâl aelodaeth.

LLONGYFARCHIADAU: I Wendy Terschowitz (Eaglestone) sydd wedi bod yn llwyddiannus yn ei chwrs RGN (SRN gynt) yn Ysbyty Sandwell, yn West Bromwich.


I oll o blant y pentref ar eu llwyddiant yn eu harholiadau Lefel A, Lefel O a TAU a dymuniadau gorau iddynt yn y dyfodol.

I Mr a Mrs R. Gwynn Davies, Bryn Eithin ar fod yn nain a thaid unwaith eto. Ganwyd merch fach, Rhean Gwynn Harris, i Sioned a John ar Awst 16.

Yn rhaglen Siarabang o Langrannog yr oedd Ffion a Rhys yn cymryd rhan yn y chwaraeon.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)

GWLÂU SENGL O £39 I FYNY GWLÂU DWBL O £75 I FYNY

DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES' O £200 i £800

LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'

5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC - ALLWCH CHI Fforddio Prynu o Batrymau?

AR AGOR
9-7pm

9-5pm Sadwrn

AR GAU
SUL,
MERCHER.

WAUNFAWR *parhad*

CROESO ADREF: i'r rhai canlynol o'r ysbyty gan obeithio eu bônt yn parhau i wella, sef Mrs Dilys Griffiths, Tref Eilian, Mrs Eirlys Griffiths, Y Llythyr, Mrs William Griffiths, Tref Eilian, Mrs Ceinwen Lewis, Ael y Bryn, Mrs Jean Jones, Llwyn Onn a Norman Williams, Llidiart Wen.

YN YR YSBYTY: mae Mrs Murley, Pant Gro. Anfonwn ein cofion ati.
CYDYMDEIMLAD: Cydymdeimlwn

yn fawr â Mrs Heulwen Jones, Cynant Lodge, ar golli ei thad mor frawychus o sydyn, ac â Mr Jones, Argraig ar golli brawd.

Mae ein cydymdeimlad yn fawr iawn â theulu'r ddiweddar Mrs Mary Awstin Jones, Penrhos. Bydd colled mawr yn y pentref ar eu hôl. Hefyd bu farw ei brawd, Mr O.P. Pritchard, Plas Isa, Betws Garmon gynt, yn gynharach yn y mis.

SIBRYDION O'R YSGOLION

YSGOL UWCHRADD BRYNREFAIL

Mrs Mari R. Williams

Flwyddyn yn ôl cafodd gŵr Mrs Williams swydd fel Arolygwr Ysgrythur a bu raid iddo symud i Gaerdydd. Arhosodd Mrs Williams yma am flwyddyn gan fod ei merch yn paratoi ar gyfer arholiadau Safon O, ond yn awr y mae'r ddwy ohonynt

yn symud i Gaerdydd.

Bu Mrs Williams yn dysgu Astudiaethau Clasurol yma ers 1973. Mae ganddi radd yn y Clasuron o Brifysgol Caergrawnt ac mae'n berson hynod ddiwylliedig. Nid oes llawer yn gwybod efallai mai dysgu Cymraeg a wnaeth Mrs Williams (fe'i magwyd yng Nghaerdydd) a hynny nid yn unig yn ddigon effeithiol i siarad yn gwbl rugl ond i ysgrifennu nofel lwyddiannus yn yr iaith. Diolchwn iddi am ei chyfraniad a dymunwn pob hapusrwydd a llwyddiant i'r teulu yn ei amgylchfyd newydd.

Mrs Margaret Parry:

Apwyntiwyd Mrs Margaret Parry i ofalu am offer clywedol yn yr ysgol ym 1973. Yr oedd newydd symud i'r cylch ar ôl cyfnod fel athrawes gynradd yn ardal Porthmadog. Mae'n gyn-ddisgybl o'r hen Ysgol Ramadeg ac yn chwarae i'r dramodydd enwog Gwenlyn Parry. Fe fu'n hynod gymwynasgar tuag at yr athrawon yn ystod ei hanes yma ac yr ydym i gyd yn drist fod ei hymddeoliad wedi digwydd oherwydd afiechyd. Dymunwn iddi bob hapusrwydd a gwyddom ei bod yn edrych ymlaen at briodas ei merch Llynwen y Pasg nesaf.

ATHLETAU:

Cynhaliwyd pencampwriaethau Gwynedd ym Mangor ar Fehefin 22. Fe enillodd tri o ddisgyblion yr ysgol eu cystadlaethau - Michael Roberts (Cwm-y-glo) 1af, disgen; 1af, pwysau (torri record Sir); Paul Grant (Llanrug), 1af 800m, 2il 1500m Dan 15eg oed (torri record yr ysgol yn y ddwy ras); Gwenno Parry, Ceunant, (Dan 15) 1af Disgen.

Ar ôl y cyfarfod dewiswyd Michael a Paul i gynrychioli ysgolion Gwynedd ym mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn Abertawe fis Gorffennaf. Fe enillodd Michael yn y ddwy gystadleuaeth i ddod yn bencampwr Cymru eto eleni - hyrddiodd y Pwysau 13.00m a taflodd y Ddisgen 34.48m. Fe wnaeth Paul Grant yn arbennig o dda hefyd i ddod yn 3ydd yn y ras 800m mewn 2m 13.4 eil. gan dorri record yr ysgol o saith eiliad!

PÊL-DROED:

Mae dawn Paul Grant fel gôl-geidwad hefyd wedi cael ei gydnabod. Mae wedi cael ei ddewis i fynychu cwrs wythnos yn Aberystwyth yn ystod yr haf dan ofal Mr Terry Casey yr hyfforddwr cenedlaethol. Cwrs yw hwn i fechgyn Cymru dan 15 oed sy'n cael eu hystyried ar gyfer y tîm cenedlaethol y tymor nesa'. Pob lwc iddo, efallai y bydd yn dilyn camau Steven Owen.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

Nos Wener, Mehefin 21 yng Ngwesty'r Foelas Llanrug trefnwyd cyfarfod arbennig gan aelodau Capel Tan-y-coed M.C. Pwrpas y cyfarfod oedd cydnabod gwasanaeth clodwiw Mr R. Arfon Jones, 6 Tai Bryngwyn i Gapel Tan-y-coed fel trysorydd am dros ddeng mlynedd ar hugain.

Llywyddwyd y cyfarfod gan y gweinidog y Parch John Morris, a daeth cynulliad da ynghyd.

Darparwyd lluniaeth blasus ar ein cyfer ac wedi'r wledd, o dan lywyddiaeth y llywydd tystiwyd i waith da Mr Arfon Jones yn ystod y deng mlynedd ar hugain aeth heibio. Y siaradwyr oedd y gweinidog y Parch John Morris, y cyn-weinidog, y Parch W.O. Roberts a Miss Megan Humphreys. Darllenodd Mrs Nancy Roberts benillion o waith ei phriod y Parch W.O. Roberts, yn mynegi diolchgarwch i Mr R.H. Jones. Cyfansoddodd Mrs Lola Butler benillion hefyd - hithau'n tystio i weithgarwch a ffyddlondeb Mr Arfon

Jones i'w eglwys.

Cyflwynwyd sic i Mr Jones ar ran yr eglwys gan y Parch John Morris. Mrs Gillian Morris gyflwynodd dusw o flodau i Mrs Nancy Jones, priod Mr Arfon Jones. Ymatebodd Mr Jones dros ei briod ac yntau.

Treuliwyd noson hapus gyfeillgar. Diolch i westywyd y Foelas am eu croeso.

CYFARFOD Y CHWIORYDD: Cyfarfu Chwiorydd Eglwys Tan-y-coed ddwywaith yn ystod yr haf - nos Fawrth, Mehefin 18 treuliwyd noson ddifyr dan lywyddiaeth Mrs Gillian Morris. Wedi gwrandao anerchiad gan Mrs Lola Butler, cafwyd eglwyl fuddiol ac adeiladol, mwynhawyd sgwrs a phaned o de - y gwestwragedd oedd Mrs C.A. Pritchard a Mrs B.M. Jones.

Cyfarfu'r chwiorydd yr eildro ar nos lau, Gorffennaf 18 eto dan lywyddiaeth Mrs Gillian Morris. Eto cafwyd paned o de a sgwrs wedi egwyl yn gwrandao ar Miss Megan

Humphreys yn sgwrsio am Droeon Yr Yrfa. Y gwestwragedd y tro hwn oedd Mrs Nancy Morris a Mrs Ceinwen Roberts.

Cynhelir y cyfarfod nesaf **nos Fawrth, Medi 3.**

Dymuna Mrs J.M. Griffith, Llys Meredydd ddiolch i'w pherthnasau a'i chyfeillion am bob caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati ar ei phen-blwydd yn 70 mlwydd oed ar Orffennaf 28 eleni. Llongyfarchiadau i Mrs Griffith ar achlysur ei phen-blwydd a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau hefyd i Mrs Margaret Owen, Is-y-bryn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed ddydd Llun, Gorffennaf 29 eleni a phob bendith iddi hithau i'r dyfodol.

Dymuna Mrs Owen fynegi ei diolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau, ac anrhegion a phob caredigrwydd dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd.

LLONGYFARCHIADAU i Miss Hefina Roberts, 16 Glanmoelyn ar gael swydd yn Stiwdio Arfon, Caernarfon. Dechreuodd Hefina ar ei gwaith ddydd Llun, Awst 19. Bu Hefina yn llwyddiannus yn ei harholiad terfynol yn yr ysgol hefyd.

Un arall sydd wedi llwyddo i gael swydd yw Glenda Roberts, 1 Tai Minffordd. Bydd Glenda yn dechrau ar ei gwaith yn siop Fferyllfa Boots Caernarfon ddydd Mawrth, Awst 27 - Glenda hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn ei harholiad terfynol yn yr ysgol. Llongyfarchiadau eto.

Y mae Manon Llwyd Evans, Carwyn wedi llwyddo hefyd yn y ddau bwnc eisteddfodol yn ei phedwerydd blwyddyn yn yr ysgol. Llongyfarchiadau iddi hithau.

Pob bendith i'r dair a mwy o lwyddiant eto i'r dyfodol.

Mae llawer o blant y fro wedi bod ar eu gwyliau neu â'u bryd ar fynd ar wyliau. Hwyl iddynt hwy a'r gweddill sydd yn mwynhau eu gwyliau gartref - hefyd iechyd a hoes i ailafael yng ngwaith yr ysgol ym mis Medi.



AM FFENESTRI
DRYSAU
GRISIAU

neu unrhyw fath
o gynnyrch coed
ffoniwch

BRYN

LLANBERIS 870793

**B & K WILLIAMS
TANRALLT
CWM-Y-GLO**

Bistro

45 Stryd Fawr

LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871 278

(Danny a Nerys Roberts)

Rhwng Ynys Môn a Pharis
Does unlle gwell i'w ddewis
Am bryd o fwyd, waeth ble y bo,
Na'r Bistro yn Llanberis.

Pryd gorau'r fro a mwy o le i'w fwyta

W.J. GRIFFITH

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3248

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW
GWRES BP



Aelod o'r National
Association of
Plumbing and Mech-
anical Services
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,
Dim un dasg rhy fawr.

FFAIR NANT

gan Enid Jones, Talysarn

Dyma hi'n fis Medi unwaith eto – ac i'r rhai a fagwyd ym Mro'r Eco bydd y 18ed dydd o'r mis hwn yn ddiwrnod 'troi'r cloc yn ôl' fel pe tae a dod â llu o atgofion melyn a throeon trwstan i'r cof – ie, diwrnod y ffair yn Nant Peris – Ffair Nant. Ni wn i ddim am yr ochr fasnachol i'r ffair heblaw am y ffaith mai ffermwyr defaid oedd y bobl bwysicaf y diwrnod hwnnw, am mae'n debyg mai er eu mwyn hwy yn bennaf y cynhelid y ffair, a'r farn gyffredinol oedd y byddai 'hogiau'r defaid' yn ei gwneud hi'n go dda y diwrnod hwnnw.

Y dydd o'r blaen deuais ar draws ysgrif o waith fy nhad – mae'n debyg ei fod wedi rhoi cynnig arni mewn Cyfarfod Cystadleuol yn ôl yn 1955 – y testun yw 'Wedi'r Ffair' (gan Uwchlyn), dyna fyddai ei ffug enw yn aml gan fod ein cartref yn y Fachwen uwchben Llyn Padarn. Dyma ran o'r ysgrif:

"Rhyw ddeugain mlynedd a llai yn ôl yr oedd bri mawr ar y ffair yn Nant Peris. Yr oedd hynny cyn dyddiau y bwisiau a'r moduron. Cyrchid iddi o bell ac agos: deuai brecio dau geffyl o ardaloedd pell gyda'u llwythi o wragedd a phlant, a byddai'r ffair yn boblogaidd iawn erbyn canol dydd. Cofiaf ddod yno mewn brec fwy nag unwaith pan yn blentyn – a dyna ddiwrnod oedd hwnnw i blentyn ysgol!

I'r rhybelwyr bach yn y chwarel yr oedd yn ddiwrnod pwysig iawn. Wedi'r paned naw casglent at ei gilydd, ac i ffordd â hwy yn slei drwy'r chwarel am y ffair. Dim cnoc y dydd hwnnw – a chwarae teg i'r hen chwarelwyr yn y cyfnod caled hwnnw, gofalent am geiniog neu ddwy i bob rybelwr bach i gael 'india roc' yn y ffair. Gwnâi ambell gaban gasgliad yn y bore, a rhannu y cyfan rhwng y nifer o rybelwyr bach a weithient yno. Rhwng popeth byddai gennym bocedaid go dda o geiniogau, ond byddai'r ffair wedi eu llyngcu i gyd mewn byr amser. Standing yr india roc wrth gwrs oedd y prif atyniad. Ysgafnhai y boced yn gyflym ryfeddol wrth dynnu a thynnu y "pull-away", mewn gobaith enill un mawr tew – yr hyn oedd yn nesaf peth i amhosibl. Rhai meinion fel gweill a gaem bob cynnig, er ein siom. Gwthio ein ffordd wedyn at standing y ffrwythau. Yno gwaeddai gwraig lyfndew, wynebgoch, yn uwch na berw'r ffair. Cymell ei nwyddau yn yr iaith fain yr oedd, a chofiaf ei geiriau yn dda – canai hwy ar yr un nodau bob tro: 'Pears and plums and ripe bananas, pears and plums . . .' ac yn wir yr oedd ganddi stwff a dynai ddŵr o'r dannedd.

Byddai yno standing lestri hefyd, ond prin y disgwyliad i rybelwr gymryd sylw ohoni. Na, yr oedd angen pob ceiniog i bwrcasu rhywbeth i'w fwyta – ar gyfer y wragedd yr oedd y standing lestri. P'run bynnag, cefais fy hun unwaith yn sefyll yn swil wrth y standing honno, ymysg y wragedd, yn llygadu'r llestri bob yn ail a thaflu golwg rhag i'r hogia fy ngweld a chario'r hanes i'r chwarel. Clywswn mam yn son am gael 'chwaneg o lestri te. Wel! dyma fy nghyfle innau i roi tipyn o 'surprise' iddi. Prynnais hanner dwsin o gwpannau a soseri, a hynny heb i'r hogia fy ngweld – y gamp wedyn oedd mynd a hwy adref yn ddiogel, oherwydd rhaid oedd i mi gerdded tua thair milltir o'r ffordd. Cyrhaeddais fy nghartref yn ddiogel a chefais groeso

di-ben-draw am y llestri.

Daeth newid mawr dros y ffair gyda'r blynyddoedd, fel ar pobpeth arall. Ni cheir yno bellach y miri a'r hwyl a fodolai yn y dyddiau hynny, ond cyfyd atgofion melyn o hyd am y dyddiau difyr gynt, o leiaf yng nghof un rybelwr bach, bob tro y daw'r ffair heibio. Ac erys un peth arall ynglŷn â hi, edrychid ar yr amgylchiad fel yn cau y drws ar ôl yr haf. Cyfeiriais at y ffair wrth ymgomio â hen chwaer y diwrnod hwnnw ac meddai – 'wel ie, dyna'r ffair heddiw, a dyna glo arni' yr hyn a olygai wrth gwrs bod yr haf wedi mynd heibio am flwyddyn arall." (R.G.R.)

Mae deng-mlynedd-ar- hugain wedi treiglo ers pan yr ysgrifennwyd yr ysgrif – mae'r chwarel wedi cau a'r gymdeithas wedi newid ac mae'n debyg mai ychydig iawn sydd ar gael heddiw a all olrhain hanes y ffair mor bell yn ôl.

Cof bychan iawn sydd gen i o Ffair Nant oddigerth ei bod yn ddiwrnod pwysig yn y gymdogaeth. Yn wir ni chofiaf fynd yno o gwbl gyda'm rhieni – ond cofiaf yn dda pan oeddwn tua deg oed cael mynd gyda'm ffrind, yr oedd ei thad yn ddyn busnes ac yn berchen ar gar, peth unigryw iawn y pryd hynny. Yr oedd hefyd yn hanu o Nant Peris a chanddo ddefaid yn pori ar lethrau'r Wyddfa. Yr oedd cael reid mewn car yn ddigwyddiad pwysig i ferch chwarelwr a dyna pam mae'n debyg yr erys y cof hyd heddiw. Cael ein gollwng yn y ffair, a'n siarsio i fod yn Tan Dderwen, cartref nain fy ffrind, erbyn rhyw amser penodedig i gael ein cario yn ôl adref. Nid oeddwn yn hapus iawn yn y ffair ynghanol yr holl firi a llawer o hogiau mawr yn fawr eu swm wrth y stondinau. Cawsom hwyl ar y 'swings' lliwgar, y rhai hynny ar ffurf cwch neu 'chariot' a rhaff ynghlwm uwchben i'w tynnu i lawr ar yn ail. Nid oeddwn yn giambiar ar y 'pull-away' 'doedd gen i ddim digon o nerth yn fy mreichiau at y 'pull' ac 'away' yr aeth fy siawns am india roc – hyd yn oed y meinaf oedd i'w gael. Yr oeddwn yn falch pan benderfynodd fy ffrind ei bod yn amser troi yn ôl am Tan Dderwen ac edrychwn ymlaen am y reid adref ond er mawr siom 'doedd y car ddim ar gael a rhaid oedd cerdded hyd at Bentre Castell rhwng y Nant a Llanberis i gael bws i Ben Llyn ger Brynrefail ac yna cerdded rhyw filltir go dda i fyny'r rhiw i'r Fachwen.

Piti i'r hen ffair gael ei gwneud yn 'redundant', onid braf fyddai cael mynd yno heddiw yn fy nghar fy hun a chael cloi y drws ar yr haf digalon a gawsom eleni?

**CEFNOGWCH EIN
HYSBYSEBWYR**

CYNGHRAIR GWYNEDD DDI-NIWCLIAR

Mewn cyfarfod o Gynghrair Gwynedd Ddi-Niwcliar ar Fehefin 25 mynegwyd cryn anesmwythyd ynghylch ffordd y Llywodraeth o newid ei thactegau a'i gorchmynion o hyd er ceisio tansellio ymdrechion y mudiadau gwrth-niwcliar, a pheri i'r cynghorau sir a'r undebau ymddangos yn afresymol, os nad ydynt yn barod i weithredu polisi amddiffyn sifil y Llywodraeth. Ychydig flynyddoedd yn ôl roedd y pwyslais ar ryfel niwcliar, ond fel y mae mudiadau heddych wedi dangos nad oes y fath beth ag amddiffyn yn erbyn arfau niwcliar, trodd y Llywodraeth i geisio paratoi'r cyhoedd at ryfel confensiynol, gan wadu na thry hwnnw'n un niwcliar o angenrheidrwydd. Ond gŵyr y call, wrth gwrs, na fydd modd cyfyngu rhyfel i arfau confensiynol, gyda'r miloedd o arfau niwcliar sy'n disgwyl cael eu defnyddio. Dyna gred y Rwsiaid hefyd. Dywedodd Rwsia droeon nad hi fydd y gyntaf i lansio arfau niwcliar; eithr gwrthododd NATO ar hyd yr amser arwyddo cytundeb na chaniatâi iddynt daro'n gyntaf.

Dydi Prydain ddim wedi llenwi'r bylchau yn ei llynges fasnachol yn

ddiweddar, gan ddangos ei bod yn disgwyl i'r rhyfel nesaf, os bydd un, fod yn fyr ac yn niwcliar. 'Os bydd un'. Mynegwyd pryder yn y cyfarfod fod y llywodraeth hon yn creu awyrgylch rhyfelgar, nes bod gormod o bobl yn cael eu cyflyrru i ddisgwyl rhyfel fel rhywbeth anorfod.

Treuliwyd cryn dipyn o amser yn trafod cynhadledd a gynhaliwyd yn Lerpwl ar Fehefin 15. Galwyd y cyfarfod hwnnw gan y Connolly Association oherwydd gweithgarwch cynyddol llongau tanfor NATO ym Môr Iwerddon. Bu llawer digwyddiad anffodus yno dros y blynyddoedd diwethaf, ac y mae enghreifftiau o longau'r pysgotwyr yn cael eu tynnu dan ddŵr. Oblegid y gweithgarwch yma, mae'r Rwsiaid hefyd wedi cyrraedd, a chan mai llongau tanfor niwcliar sy'n perthyn i'r ddwy ochr, mae'n amlwg bod sefyllfa beryglus yn datblygu. Yn wyneb hyn, diddorol oedd clywed i Gynghrair Geltaidd ymffurfio ymhlith aelodau o'r Alban, Ynys Manaw, Iwerddon a Chymru i geisio gwarchod eu harfordir a buddiannau'u pysgotwyr.

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

A wnaiff yr aelodau nodi'r pwyntiau pwysig isod:

**Medi 18 7.30 Y GANOLFAN,
WAUNFAWR**

Cofiwch am y cyfarfod cyntaf wedi'r haf lle ceir darlith gan Mr Hywel Teifi Edwards.

**Hydref 16 NEWID POSIBL
YN Y RHAGLEN**

Oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld mae'n bosibl y bydd Archifdy Gwynedd, Caernarfon ar gau i'r cyhoedd yn ystod mis Hydref ar gyfer gwaith gosod silffoedd newydd. Os digwydd hyn fe drefnir cyfarfod arall ar fyr rybudd. Hyd yn oed os gellir bwrw 'mlaen â'r trefniadau gwreiddiol DIM OND LLE I 50 fydd yn yr Archifdy. Gofynnir felly i'r rhai sy'n dymuno gweld yr Archifdy anfon eu henwau i'r **Ysgrifennydd** erbyn Medi 20 fan hwyraf. Os ceir mwy na 50 enw fe drefnir rota ac fe gaiff y rhai anlwcus flaenoriaeth pan drefnir yr ymweliad nesaf – yn fuan gobeithio. Cyhoeddir yr enwau llwyddiannus ynghyd ag amserlen yn rhifyn Eco'r Wyddfa **neu** os na ellir ymweld â'r Archifdy cyhoeddir manylion y cyfarfod arall a drefnwyd.

Rhagfyr 18 SWPER NADOLIG

Cynhelid Swper Nadolig y Gymdeithas yng Ngwesty'r Padarn Lake, Llanberis. Ceir manylion y pris etc yn y rhestr nesaf Eco'r Wyddfa. Mae yno le i **90** yn unig yn y gwesty. Felly o gofio fod mwy na chant wedi dod ar drip mis Mehefin anfonwch eich henwau i'r **Ysgrifennydd** cyn gynted ag y bo modd. Bydd y rhestr yn cau pan gyrhaeddir 90.

M A E A N g E N
 U N I F O D
 Â G O F A L A M
 Y C R O E S A I R
 Y N R h E O L A I D d



Plant Ysgol Gynradd Cwm-y-glo yn arddangos eu tystysgrifau am ddysgu reidio beic yn ddiogel.

GWYBODAETH AM Y CELFYDDYDAU

Mae argraffiad diweddaraf *Drychwch (Look)*, y cyhoeddiad ar y Celfyddydau Gweledol yng Ngwynedd, newydd gael ei ddosbarthu i orielau a chanolfannau ar hyd a lled y Sir. Mae'r cyhoeddiad hwn, sy'n ymddangos ddwy waith y flwyddyn ac sydd am ddim, yn rhoi gwybodaeth am naw canolfan yng Ngwynedd lle gellir gweld gwaith nifer o artistiaid. Ceir hefyd restr o raglenni arddangosfa'r canolfannau hynny hyd yr hydref.

Cyhoeddwyd *Drychwch (Look)* gan Gyngor Sir Gwynedd fel

rhan o'i amcan i roi gwell hysbysrwydd i'r Celfyddydau Gweledol yn y Sir. Gellir ei gael am ddim o lyfrgelloedd ac orielau, gan gynnwys Oriel Pendeitsh, Caernarfon, neu trwy anfon amlen gyda stamp a chyfeiriad i'r Oriel.

Mae argraffiad arall o *Drychwch (Look)* yn cael ei baratoi i'w gyhoeddi yn yr hydref, a chroesewir pob newyddion a gwybodaeth am y celfyddydau. Gwahoddir pawb sy'n ymwneud â'r Celfyddydau Gweledol i hysbysu ynddo.

M. ROWLANDS MONUMENTAL MASONS

LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 2898

(Sefydlwyd ers dros 35 mlynedd)

Crefftwaith llaw, e.e., Old English/Gothic
gan un â thros 32 o flynyddoedd o brofiad

Cerrig newydd a gwaith adnewyddu:
dim ots pa mor bell

Stoc helaeth o'r cerrig gorau:
dyfynbris am ddim

AR AGOR 6 DIWRNOD YR WYTHNOS

DYDDIADUR MEDI

2, Llun, DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched

BETHEL: Pwyllgor yr Eisteddfod

3, Mawrth, YR ARDAL: Yr ysgolion yn dechrau tymor newydd.

TAN-Y-COED: Cyfarfod y Chworiydd
BETHEL: Taith Ddirgel Clwb Bro Bethel.

4, Mercher, BETHEL: Taith Gerdded Noddedig Merched y Wawr

5, Iau, LLANRUG: Arwerthiant a phaned dan nawdd Pwyllgor y Seindorf am 7.00.

6, Gwener, LLANBERIS: Te yr Henoed

WAUNFAWR: Cyngerdd dan nawdd Cangen yr Urdd yn y Ganolfan am 7.30

PENISARWAUN: Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30
Helfa Drysor

10, Mawrth, LLANRUG: Merched y Wawr - sgwrs gan Mrs Sophie Pari Jones ar 'Hen Bethau'

11, Mercher, WAUNFAWR: Tymor y Gaeaf yr Urdd yn dechrau am 6.00 yn y Ganolfan

LLANRUG: Noson Goffi yn yr Ysgol Gynradd am 7.00. Yr elw er budd Apêl Macmillan, Ysbyty Bryn Seiont

13, Gwener, BETHEL: Noson Goffi yn y Neuadd. Yr elw at Gronfa'r Eisteddfod

17, Mawrth, PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen

18, Mercher, YR ARDAL: Cymdeithas Hanes Bro'r Eco - darlith gan Mr Hywel Teifi Edwards yn y Ganolfan, Waunfawr

19, Iau, CWM-Y-GLO: Clwb Pobl y Cwm

20, Gwener, WAUNFAWR: Cangen Plaid Cymru - Noson Goffi yn y Ganolfan am 6.30 yng nghwmni Mr Dafydd Wigley A.S.

LLANBERIS: Te yr Henoed

26, Iau, LLANBERIS: Sefydliad y Merched

WAUNFAWR: Merched y Wawr - noson yng nghwmni Mr Arwel Jones (Hogia'r Wyddfa)

30, Llun, WAUNFAWR: Dosbarth WEA 'Chwareli ARfon' yn yr Ysgol Gynradd.

CYSTADLEUAETH NOSON LAWEN H.T.V.

Yn ystod misoedd y gaeaf bydd HTV yn recordio nifer o raglenni ar ddull yr hen 'Noson Lawen' neu 'Sêr y Siroedd'. Rhaglen wythnosol fydd, gyda dau dîm yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Yn fras, y syniad yw i bob tîm gyflwyno saith eitem - yn ganeuon ysgafn, sgetsus, grwpiau, dynwaredwr, consuriwr, rhywun â dawn anghyffredin ac yn y blaen. Byddai nifer o'r eitemau yn addas iawn i ffug eisteddfod Bro'r Eco!

Yn gefndir i'r rhaglen, bydd criw ffilmio yn paratoi ffilm fechan ar fro'r tîm yn cystadlu.

Dangoswyd diddordeb eisoes gan rai o'r ardalwyr. Os oes gennych chwi ddiddordeb mewn cystadlu, yna cysylltwch â:

Gwyn Parry, Cynefin, Deiniolen (Ffôn: 871330)

Geraint Elis, Cilgeran, Bethel (Ffôn: Y Felinheli 670726)

Rhaid cysylltu erbyn dydd Gwener, Medi 6ed.

HAF BRAFI!



Notel newydd ataelgar Eirwen Gwynn:

HON £2.45

O gwmpas eglwys mwyaf diddorol Cymru gyda Mari Ellis a Meg Dafydd:

EGLWYSI CYMRU £2.45

Caneuon i blant gan Falyri Jenkins:

CANEUON Y CREADURIAID £1.95

Y diweddaraf yng Nghyffres Rwdlan gan Angharad Tomos:

5. Y LLIPRYN LLWYD 95c

Notel wych, ddychanol Tim Saunders:

CLIFF PREIS—GOHEBYDD ARBENNIG £2.45

Dysgwch y gêm gyda Tom Marks:

Dewch i Chwarae-CRICED £1.85

Llyfrau lliwio creadigol, gwahanol:

LLYFRAU IANTO, 1 & 2

£1.65 yr un

Arolwg o hanes a chyflwr y chwe gwlad Celtaidd gan Peter Berresford Ellis:

THE CELTIC REVOLUTION £4.95

LLYFR STAMPIAU'R LOLFA £4.40

Casét 'Welcome to Welsh' £3.45

a'r rhedsyn blynyddol erchyll, gwarthus:

LOL! 65c

Ein catalog newydd 48-tudalen ar gael nawr

Y Lolfa Cyf.

TALYBONT DYFED
SY24 5HE ffôn 097086/304

CHWARAEON

ENILLWYR TLWS YR 'ECO'



Tîm y Waunfawr (uchod) oedd enillwyr cystadleuaeth gemau pêl-droed 7-bob-ochr i blant oed ysgolion cynradd. Yn y rownd derfynol roeddent yn fuddugol yn erbyn tîm 'A' Llanrug (isod).



TÎM PÊL-DROED IEUENCTID Y WAUNFAWR



Tîm pêl-droed ieuenctid Waunfawr gyda'i hyfforddwr Eurig Wyn. Noddir y tîm gan Swyddfa Bost Waunfawr, Storfa Tŷ Newydd a Snowdonia Park Hotel.

Cafodd y clwb dymor llwyddiannus, gan orffen yng nghanol tabl Cynghair Gwynedd yn eu tymor cyntaf un. Cyn diwedd y tymor llwyddodd y tîm guro timau cryfion fel Deiniolen, Cwm-y-glo, Llanberis a'r Bontnewydd.

Cynhelir treialon yn yr hydref i ddewis tîm ar gyfer y tymor nesaf.

NOFWYR LLWYDDIANNUS



Stephen ac Alun Bayliss o Nant Peris ar ôl ennill medalau aur am nofio dan nawdd y Gymdeithas Nofio Amatur.

... PÊLDROED CYMYSG



Tîm "merched a moelion Minffordd" - enillwyr y gemau pêldroed cymysg yng ngharnifal Llanrug

CYSTADLEUAETH PŴL CARNIFAL LLANBERIS



Tîm y Dolbadarn (uchod) oedd buddugwyr cystadlaethau pŵl Carnifal Llanberis. Yn y rownd derfynol, daeth tîm Bryn Awelon (isod) yn ail.

